Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 20/2026

Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2026

# Ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-057-2

Ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf

Awduron: Michael Davies ac Angus Campbell

Adroddiad Ymchwil Llawn: Davies, M. a Campbell, A. (2025). Ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 20/2026.

Ar gael yma: http://www.llyw.cymru/ymchwil-ansoddol-teuluoedd-yn-gyntaf

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Victoria Seddon

Y Tîm Ymchwil Plant a Theuluoedd

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: research.childrenandfamilies@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf ........ 1

Rhestr o dablau ........ **Error! Bookmark not defined.**

Rhestr o ffigurau ........ 5

Geirfa ........ 6

1. Cyflwyniad/cefndir ........ 8

1.1. Y cyd-destun ........ 8

1.2. Meysydd cymorth hollbwysig ........ 10

1.3. Heriau hollbwysig ........ 12

1.4. Ymchwil y gorffennol ........ 13

1.5. Nodau'r ymchwil ........ 13

2. Methodoleg ........ 14

2.1. Dull ........ 14

2.2. Cyfyngiadau ........ 17

2.3. Dadansoddi'r canlyniadau a'r canfyddiadau ........ 19

2.4. Cynnwys yr adroddiad ........ 19

3. Ymgysylltu cychwynnol a strwythurau cyflawni lleol ........ 21

3.1. Sut y caiff teuluoedd fynediad at Teuluoedd yn Gyntaf? ........ 21

3.2. Sgyrsiau ynglŷn â'r 'hyn sy'n bwysig': asesu anghenion teuluoedd mewn ffordd gyfannol ........ 23

3.3. Lleoliad timau Teuluoedd yn Gyntaf oddi mewn i awdurdodau lleol ........ 24

3.4. Strwythur gwasanaethau a gomisiynir gan Teuluoedd yn Gyntaf ........ 25

3.5. Cynnal asesiadau er mwyn deall anghenion teuluoedd: safbwyntiau rhieni ........ 27

3.6. Egwyddorion o ran cymorth effeithiol gan y Tîm o Amgylch y Teulu ........ 30

4. Y cymorth a gafodd teuluoedd, a chanfyddiadau am y cymorth hwnnw ........ 32

4.1. Mathau o gymorth a gafodd teuluoedd ........ 32

4.2. Canfyddiadau am Teuluoedd y Gyntaf ........ 34

4.3. Hyblygrwydd y cymorth ........ 35

4.4. Cyfathrebu ........ 37

5. Ymwybyddiaeth o Teuluoedd yn Gyntaf ........ 39

5.1. Safbwyntiau rhanddeiliaid ........ 39

5.2. Safbwyntiau teuluoedd ........ 40

5.3. Ymchwil ben desg: brand ac amlygrwydd Teuluoedd yn Gyntaf ........................ 42
6. Heriau o ran cyflawni a chapasiti ........................ 49
6.1. Cynnydd cynyddol ac anghenion teuluol mwyfwy cymhleth ........................ 49
6.2. Pwysau gwasanaethau statudol ar Teuluoedd yn Gyntaf ........................ 50
6.3. A yw Teuluoedd yn Gyntaf yn dal i ddarparu gwasanaeth ataliol? ........................ 51
6.4. A yw Teuluoedd yn Gyntaf yn dal i gyrraedd y bobl hynny y bwriadwyd eu cyrraedd yn wreiddiol? ........................ 52
6.5. Egluro canllawiau a throthwyon a'r modd y dyrennir adnoddau ........................ 53
6.6. Gwella llwybrau atgyfeirio ........................ 54
6.7. Ym mha feysydd y gwelwyd cynnydd mawr yn y galw? ........................ 54
6.8. Heriau o ran hyrwyddo'r gwasanaeth ........................ 58
6.9. Cyfyngiadau cyllido a'r modd y dyrennir adnoddau ........................ 58
6.10. Cydweddu â rhaglenni a gwasanaethau eraill ........................ 61
6.11. Hyblygrwydd o ran darparu Teuluoedd yn Gyntaf ........................ 62
6.12. Rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ........................ 63
6.13. Cydbwyso cymorth am gyfnod penodol gyda chymhlethdodau mwy ........................ 65
7. Lefelau ymgysylltu a chadw ........................ 67
7.1. Teuluoedd sy'n gadael Teuluoedd yn Gyntaf ........................ 67
7.2. Effaith COVID-19 ar wasanaethau wyneb yn wyneb a gwasanaethau ar-lein ... 73
7.3. A yw teuluoedd yn ailymgysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl gadael? ........................ 74
7.4. A yw teuluoedd yn ailymgysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf? ........................ 74
7.5. Cynnig cymorth ........................ 76
7.6. Cael gafael ar yr holl gymorth a oedd ar gael ........................ 77
7.7. Ailymgysylltu a hyd y cymorth ........................ 77
7.8. Darpariaeth iaith ........................ 78
7.9. Grwpiau anodd eu cyrraedd ........................ 79
8. Canlyniadau ac effeithiau'r rhaglen ........................ 81
8.1. Safbwyntiau rhanddeiliaid ........................ 81
8.2. Safbwyntiau teuluoedd: yr arolwg ar-lein ........................ 83
8.3. Sylwadau ychwanegol ........................ 86
8.4. Safbwyntiau teuluoedd: y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau ........................ 87
8.5. Sylwadau i gloi ........................ 90

9. Astudiaethau achos ..... 92
9.1. Astudiaeth Achos 1 ..... 92
9.2. Astudiaeth Achos 2 ..... 93
9.3. Astudiaeth Achos 3 ..... 94
9.4. Astudiaeth Achos 4 ..... 95
10. Casgliadau ac argymhellion ..... 97
10.1. Crynodeb o ganfyddiadau hollbwysig ..... 97
10.2. Argymhellion ..... 99
10.3. Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol ..... 100
10.4. Sylwadau i gloi ..... 101
11. Atodiadau ..... 102
11.1. Demograffeg y teuluoedd ..... 102

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Ymatebion wedi'u codio'n thematig lle disgrifir y cymorth a gafodd teuluoedd gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (N=110) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ............... 32
Tabl 2: Ymatebion a godiwyd yn thematig mewn perthynas â pham roedd teuluoedd o'r farn fod Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu helpu / heb eu helpu nhw neu eu teuluoedd (ymatebion cadarnhaol) (N=110) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ........................ 84
Tabl 3: Ymatebion a godiwyd yn thematig mewn perthynas â pham roedd teuluoedd o'r farn fod Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu helpu / heb eu helpu nhw neu eu teuluoedd (ymatebion negyddol) (N=110) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ........................... 85
Tabl 4: Sylwadau ychwanegol (a godiwyd yn thematig) gan deuluoedd ynglŷn â Teuluoedd yn Gyntaf (N=105) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ............................................. 86
Tabl 5: Y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio – A oes gennych chi, neu unrhyw aelodau o'ch aelwyd, unrhyw gyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sy'n para, neu y disgwylir iddo bara, 12 mis neu fwy? (N=85) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ................... 102
Tabl 6: Y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio – Ethnigrwydd (N=85) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ........................................................................................................ 103
Tabl 7: Y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio – Oedran y plentyn/plant (caniatawyd amryfal ymatebion) (N=85) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ........................................... 103
Tabl 8: Y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio – Rhanbarth (N=85) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ........................................................................................................ 104
Tabl 9: Y cyfweliadau ansoddol – A oes gennych chi, neu unrhyw aelodau o'ch aelwyd, unrhyw gyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sy'n para, neu y disgwylir iddo bara, 12 mis neu fwy? (N=20) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025........................... 104
Tabl 10: Y cyfweliadau ansoddol – Oedran y plentyn/plant (caniatawyd amryfal ymatebion) (N=20) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ............................................................. 105
Tabl 11: Y cyfweliadau ansoddol – Ethnigrwydd (N=20) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025105
Tabl 12: Y cyfweliadau ansoddol – Rhanbarth (N=20) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 . 106

## Rhestr o ffigurau


Ffigur 1: Teuluoedd yn Gyntaf a’r continwwm cymorth (a gymerwyd o ganllawiau’r rhaglen) 9

Ffigur 2: Sut y daethoch i gysylltiad y tro cyntaf gyda Teuluoedd yn Gyntaf? (N = 131) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ....22

Ffigur 3: A oeddech yn gwybod bod y cymorth a gynigiwyd ichi neu’r cymorth a gawsoch yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y rhaglen ‘Teuluoedd yn Gyntaf’? (N = 115) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ....41

Ffigur 4: A ydych wedi cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf eto ers cael y cymorth cyntaf? (N = 115) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ....75

Ffigur 5: A gawsoch afael ar yr holl gymorth a gynigiwyd ichi? (N = 115) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025....77

Ffigur 6: I ba raddau ydych yn cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad hwn: Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi fy helpu i neu fy nheulu (N = 115) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025 ....83

## Geirfa

**ACEs**

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

**CAMHS**

Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc

**DLA**

Lwfans Byw i'r Anabl

**EYST**

Tîm Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid

**FIS**

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

**CCG**

Grant Plant a Chymunedau

**ICC**

Canolfanau Plant a Theulu Integredig

**JAFF**

Fframwaith Asesu'r Teulu Ar Y Cyd

**LEA**

Awdurdod Addysg Lleol

**ND**

Niwroddatblygiadol

**SRI**

Strategic Research and Insight

**TAF**

Tîm o Amgylch y Teulu

# 1. Cyflwyniad/cefndir

## 1.1. Y cyd-destun

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynorthwyo teuluoedd, plant a phobl ifanc. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn nodi rhagor o fanylion am yr ymrwymiadau hyn, gan bwysleisio pa mor bwysig yw darparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar a chymorth i rieni a gofalwyr ar gyfer helpu i roi'r cychwyn gorau i blant.


Mae Teuluoedd yn Gyntaf, a gyflwynwyd yn 2012, yn rhaglen hyblyg sy'n hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu systemau cymorth amlasiantaethol i deuluoedd. Mae'r rhaglen, a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn rhoi pwyslais ar gymorth cynnar ac atal ac mae'n gweithio gyda'r teulu cyfan i atal problemau rhag gwaethygu a throi'n argyfwng. Yn wahanol i Dechrau'n Deg, lle ceir meini prawf cymhwystra sy'n seiliedig ar ardaloedd daearyddol, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen gyffredinol sydd ar gael i bob teulu, ni waeth be fo'i incwm neu leoliad. Caiff y cymorth ei deilwra ar sail anghenion teuluoedd unigol, gan gynnig ymyrraeth gynnar trwy gyfrwng amrywiaeth o asiantaethau partner, yn cynnwys sefydliadau'r Trydydd Sector.

Ariennir Teuluoedd yn Gyntaf gan y Grant Plant a Chymunedau, sef cyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at fynd i'r afael ag anghenion cymorth y babanod, y plant, y bobl ifanc a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas trwy gyfrwng amrywiaeth o systemau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cymorth rhianta o'r adeg beichiogi hyd nes y bydd y plentyn wedi cyrraedd 18 oed (neu 25 oed ar gyfer rhieni a chanddynt blant ag anghenion dysgu ychwanegol), gan gydnabod bod pob cam yn ystod plentyndod yn cyflwyno heriau unigryw. Hefyd, mae'r rhaglen yn cynnig ymyriadau teilwredig, yn cynnwys gwasanaethau ieuenctid penodol i bobl ifanc 11-25 oed.

Mae'r cymorth a gynigir gan Teuluoedd yn Gyntaf yn cwmpasu ystod eang o anghenion. Fel y nodir yng Nghanllawiau'r Rhaglen, mae'r cymorth yn amrywio o 'ymyrraeth gynnar i ymyriadau dwys, amlasiantaethol, ond ni ddylai gynorthwyo teuluoedd mewn argyfwng, y mae gofyn iddynt gael gwasanaethau statudol neu arbenigol'. Dangosir hyn yn y 'continwwm cymorth' a gymerwyd o Ganllawiau'r Rhaglen (gweler drosodd):

**Ffigur 1: Teuluoedd yn Gyntaf a'r continwwm cymorth (a gymerwyd o ganllawiau'r rhaglen)**




Disgrifiad o'r ffigur 1: Diagram hanner cylch yn dangos y continwwm cymorth. Mae'n dangos 'Gwasanaethau Cyffredinol', sy'n troi o fod yn wyrdd i fod yn felyn; 'Ymyrraeth Gynnar', sy'n troi o fod yn felyn i fod yn oren; 'Cefnogaeth Ddwys', sy'n troi o fod yn oren i fod yn goch; a 'Gwasanaethau Arbenigol' mewn coch. Ceir saeth sy'n ymestyn o 'Gwasanaethau Cyffredinol' hyd at 'Cefnogaeth Ddwys', gan ddangos pa mor bell y gall cymorth Teuluoedd yn Gyntaf ymestyn; a cheir saeth sy'n ymestyn o 'Ymyrraeth Gynnar' hyd at 'Cefnogaeth Ddwys', gan ddangos pa mor bell y gall cymorth 'Tîm o Amgylch y Teulu' ymestyn. Mae 'Teuluoedd yn Gyntaf' a 'Tîm o Amgylch y Teulu' yn ymestyn hyd at ymyl 'Ymyrraeth Gynnar', ger 'Gwasanaethau Arbenigol'.

Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn anelu at ddarparu cymorth yn ddigon cynnar er mwyn atal teuluoedd rhag cyrraedd argyfwng. Os bydd plant yn cyrraedd argyfwng, byddant mewn perygl o ddioddef niwed a chael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod – sef pethau a all effeithio ar eu canlyniadau iechyd, cymdeithasol, addysgol, economaidd a llesiant yn yr hirdymor.

Yn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i ddatblygu eu modelau cyflawni eu hunain mewn modd arloesol, er mwyn adlewyrchu anghenion eu hardal. Dylid gwneud hyn yn unol â Chanllawiau'r Rhaglen, a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r canllawiau wrthi'n cael eu diweddaru er mwyn adlewyrchu'r tirlun presennol.

Er mwyn i awdurdodau lleol allu datblygu a chomisiynu gwasanaethau sy’n adlewyrchu eu hardal, mae’n ofynnol iddynt asesu anghenion eu poblogaeth leol er mwyn dangos bod yr angen am y gwasanaeth yn cael ei ddatblygu a’i gomisiynu fel rhan o’u harlwy Teuluoedd yn Gyntaf.

Bwriedir i ddarpariaethau Teuluoedd yn Gyntaf fod yn hyblyg, gan alluogi awdurdodau lleol i deilwra gwasanaethau ar sail anghenion lleol. Fodd bynnag, mae canllawiau’r rhaglen (a luniwyd gan Lywodraeth Cymru) yn nodi elfennau craidd y mae’n rhaid i bob awdurdod lleol eu hymgorffori wrth iddynt ddarparu Teuluoedd yn Gyntaf, sef:

- comisiynu strategol, a fydd yn osgoi dyblygu neu fylchau ac a fydd yn cwmpasu gwasanaethau sy’n mynd i’r afael yn uniongyrchol â llesiant, hyder a gwydnwch teuluoedd, gan ganolbwyntio’n arbennig ar rianta a chymorth i bobl ifanc
- Fframwaith Asesu’r Teulu ar y Cyd (‘y Fframwaith Asesu’), a fydd yn annog gwaith amlasiantaethol ac yn gwerthuso anghenion teuluoedd mewn modd cynhwysfawr ar sail eu hanghenion
- Tîm o Amgylch y Teulu, a fydd yn dwyn ynghyd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol i weithio gyda theuluoedd er mwyn eu helpu i fynd i’r afael â’r heriau sy’n eu hwynebu
- canolbwyntio ar anabledd, er mwyn cydnabod anghenion penodol y teuluoedd hynny y mae anabledd yn effeithio arnynt
- defnyddio setiau dysgu, gan sicrhau bod arferion gorau a gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws awdurdodau lleol

Er bod yr adroddiad hwn yn galw’r rhaglen yn ‘Teuluoedd yn Gyntaf’, mae’n bwysig nodi nad yw nifer o awdurdodau lleol yn brandio’r cymorth yn y modd hwn mewn deunyddiau ar gyfer y cyhoedd. Yn hytrach, efallai y bydd y rhaglen yn cael ei darparu dan delerau eraill yn ymwneud â chymorth i deuluoedd neu gymorth cynnar.

## 1.2. Meysydd cymorth hollbwysig

Yn dilyn adolygiad o gynlluniau cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf awdurdodau lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-2025, nodir y meysydd cymorth hollbwysig isod.

### 1.2.1. Cymorth rhianta a datblygiad yn y blynyddoedd cynnar

Mae helpu rhieni i feithrin eu sgiliau a'u hyder yn rhan hollbwysig o Teuluoedd yn Gyntaf. Mae nifer o awdurdodau lleol yn cynnig rhaglenni rhianta strwythuredig er mwyn ategu rhianta cadarnhaol, gwella cydberthnasau teuluol a helpu datblygiad cynnar plant.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynyddu'r cymorth rhianta a ddarperir ganddynt mewn ymateb i'r galw. Mewn 1 awdurdod lleol, er enghraifft, aethpwyd ati i recriwtio ychwaneg o weithwyr cymorth rhianta – sef rhywbeth sydd, yn ôl cynllun cyflawni'r awdurdod lleol, wedi cael gwared â rhestrau aros ar gyfer cymorth rhianta.

Mae datblygiad iaith cynnar yn ganolbwynt hollbwysig arall. Mewn rhai ardaloedd, mae plant mewn teuluoedd sy'n cael cymorth gan Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu sgrinio ar gyfer oedi mewn iaith a lleferydd, a chynigir ymyrraeth gynnar trwy gyfrwng grwpiau plant bach a chymorth yn y cartref.

### 1.2.2. Iechyd Meddwl a Llesiant

Canolbwyntir yn fawr ar gynorthwyo plant a rhieni ag anawsterau iechyd meddwl. Mae nifer o weithwyr cymorth yn cynnig cwnsela un-i-un, gweithdai llesiant a therapi grŵp er mwyn helpu teuluoedd i feithrin gwydnwch ac ymdopi â gorbryder neu straen.

Yng nghynllun cyflawni 1 awdurdod lleol, disgrifir sut y mae'r awdurdod lleol wedi addasu ei sesiynau llesiant ar sail adborth gan bobl ifanc. Nodir bod sesiynau profedigaeth a llesiant yn dal i gael eu cynnal mewn ysgolion, ond nodir hefyd bod disgyblion wedi dweud bod yn well ganddynt gael sesiynau unigol oherwydd natur sensitif y pynciau.

### 1.2.3. Trais domestig a diogelwch teuluoedd

Mae ambell un o'r cynlluniau cyflawni'n nodi bod nifer o atgyfeiriadau Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys teuluoedd sydd wedi dioddef cam-drin domestig neu wrthdaro rhwng rhieni. Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gydag elusennau trais domestig a gwasanaethau cymdeithasol i gynnig cymorth arbenigol i blant a rhieni.

### 1.2.4. Cymorth i blant ag anableddau ac anghenion ychwanegol

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cymorth penodol i blant ag anableddau, yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr):

- cyrsiau rhianta arbenigol i rieni plant ag awtistiaeth neu gyflyrau niwroamrywiol eraill
- gweithgareddau a grwpiau ieuenctid cynhwysol
- gwyliau byr a gofal seibiant i rieni
- cymorth i ofalwyr ifanc

Mae nifer o awdurdodau lleol yn cynorthwyo gofalwyr ifanc fel rhan o'r cymorth a gynigir i deuluoedd sy'n ymhél â'r rhaglen. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig y canlynol:

- cardiau adnabod i ofalwyr ifanc er mwyn helpu plant i gael cydnabyddiaeth mewn ysgolion ac yn y gymuned
- gweithgareddau cymdeithasol a grwpiau cymorth wythnosol
- gwyliau byr a chyfleoedd i gael seibiant

### 1.2.5. Caledi ariannol

Mae tlodi'n dal i fod yn broblem fawr. Mae gweithwyr cymorth yn gweithio gyda gwasanaethau tai a gwasanaethau cyngor ariannol er mwyn helpu teuluoedd i reoli dyledion, cael gafael ar fudd-daliadau a gwella'u sefyllfa ariannol.

Mae 1 awdurdod lleol yn tynnu sylw at raglen yn ymwneud â rheoli arian a chyllidebu sy'n helpu rhieni i fagu hyder wrth drin materion ariannol, yn ogystal â'u helpu i leihau straen a gwella llesiant y teulu.

## 1.3. Heriau hollbwysig

Yn ogystal â nodi meysydd cymorth hollbwysig, mae'r holl gynlluniau cyflawni'n tynnu sylw at heriau tebyg sy'n effeithio ar deuluoedd. Mae nifer o'r heriau hyn yn gysylltiedig â thlodi, iechyd meddwl ac ansefydlogrwydd teuluoedd – sef pethau a all effeithio ar ddatblygiad plant, ynghyd â llesiant plant a'u teuluoedd. Dyma hefyd rai o'r rhesymau pam y mae teuluoedd yn troi at Teuluoedd yn Gyntaf i gael cymorth.

Un o'r heriau mwyaf yw amddifadedd mawr. Mae sawl ardal yn nodi bod nifer fawr o deuluoedd yn cael anawsterau i ymdopi oherwydd incwm isel, diweithdra a chaledi ariannol.

## 1.4. Ymchwil y gorffennol

Oherwydd yr hyblygrwydd a roddir i awdurdodau lleol o ran sut y gallant ddarparu gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ar sail anghenion eu poblogaeth, tasg anodd iawn yw gwerthuso'r rhaglen – caiff gwahanol fodelau eu defnyddio, ac mae'r data ynglŷn â'r bobl a gynorthwyir gan y rhaglen yn gyfyngedig.

Cafodd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ei gwerthuso y tro diwethaf yn 2013, gyda blwyddyn derfynol y gwerthusiad yn dod i ben yn 2015. Yn y gwerthusiad hwnnw, a hefyd mewn asesiad gwerthusadwyedd a gynhaliwyd yn 2017, nodir y cyfyngiadau sy'n perthyn i'r data presennol ar gyfer gwerthuso'r rhaglen, yn enwedig o ran y canlynol:

- yr effaith ar unigolion a theuluoedd
- sut y mae'r rhaglen wedi effeithio arnynt a gwybodaeth am unrhyw ymyriadau eraill a gawsant
- nifer y teuluoedd unigol sy'n defnyddio'r rhaglen a pha grwpiau sy'n gwneud y defnydd mwyaf o'r rhaglen

## 1.5. Nodau'r ymchwil

Yn dilyn yr ymchwil flaenorol hon mewn perthynas â Teuluoedd yn Gyntaf, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i gomisiynu ymchwil ansoddol. Nodau'r prosiect oedd:

- deall profiadau teuluoedd mewn perthynas â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (gan archwilio gwahaniaethau cyn ac ar ôl COVID)
- adolygu'r modd y darperir y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (yn cynnwys heriau o ran darparu'r rhaglen, mynediad at wasanaethau, a'r modd y mae gwasanaethau wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf)
- deall y gwahanol ffyrdd a ddefnyddir i ddarparu'r rhaglen ledled Cymru, yn cynnwys sut y caiff ei brandio a deall sut y mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r rhaglen fel gwasanaeth 'cymorth cynnar'

Ar ôl cynnal proses dendro gystadleuol, penderfynodd Llywodraeth Cymru gomisiynu Strategic Research and Insight (SRI) i gynnal ymchwil ansoddol i fodloni'r nodau hyn.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Dull

Gellir hollti ein dull yn 5 maes, sef:

- cyfweliadau cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru
- ymchwil ben desg
- cyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol
- arolwg meintiol a chyfweliadau ansoddol gyda theuluoedd
- datblygwyd pedair astudiaeth achos ar sail y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda theuluoedd

Isod, trafodir y 4 dull yn fanylach.

### 2.1.1. Cyfweliadau cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru

Cynhaliodd SRI 3 chyfweliad gydag unigolion ac 1 cyfweliad grŵp gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (cyfanswm o chwe swyddog). Daethpwyd o hyd i'r swyddogion hyn yn sgil cysylltiadau gyda chleientiaid, a phenderfynwyd eu cyfweld ar sail eu cysylltiad â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Parodd y cyfweliadau oddeutu awr ac fe'u cynhaliwyd dros Microsoft Teams.

Diben y cyfweliadau hyn oedd casglu canfyddiadau am y rhaglen a cheisio gwybodaeth am ddiben a nodau'r prosiect cyn cynnal y prif waith maes.

### 2.1.2. Ymchwil ben desg

Roedd yr ymchwil ben desg yn ffurfio 1 o elfennau cynharach y prosiect. Diben yr ymchwil ben desg oedd:

- adolygu gwybodaeth fonitro awdurdodau lleol a/neu Lywodraeth Cymru; helpodd hyn i bennu canolbwynt yr ymchwil hon. Roedd yr wybodaeth hon yn cynnwys:
  - ymchwil pecyn cymorth arbedion cost Teuluoedd yn Gyntaf (2018)
  - cynlluniau cyflawni awdurdodau lleol (2024 i 2025)
  - ffigurau perfformiad blynyddol Teuluoedd yn Gyntaf: 2018 i 2023[1]
  - ffigurau perfformiad blynyddol Teuluoedd yn Gyntaf: adroddiad cryno 2018 i 2023

Troednodyn

[1] Cafodd y ffigurau perfformiad a roddwyd i SRI eu tynnu'n ôl yn ddiweddarach, ac yna cawsant eu diwygio, a hynny oherwydd gwall yn y data. Dim ond ar gyfer cyd-destun cefndir y'u defnyddiwyd, felly nid effeithiodd y cywiriad hwn ar ganfyddiadau'r adroddiad.

- cynnal ymarfer mapio. Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys adolygu gwefannau a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y 22 awdurdod lleol er mwyn deall y darpariaethau, y dulliau brandio, y modd y câi Teuluoedd yn Gyntaf ei hyrwyddo, a'r amrywio a welir ar draws awdurdodau lleol

Ar gyfer yr ymarfer mapio, aseswyd pa mor amlwg oedd Teuluoedd yn Gyntaf mewn canlyniadau chwilio ar y we, a hefyd aseswyd pa mor amlwg oedd Teuluoedd yn Gyntaf (neu wasanaeth 'cymorth cynnar' cyfwerth) ar wefan pob awdurdod lleol. Aseswyd pa mor hawdd oedd canfod gwybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf (neu wasanaeth 'cymorth cynnar' cyfwerth) ar wefannau awdurdodau lleol wrth gychwyn chwilio ar y dudalen gartref, a hefyd aseswyd cysondeb o ran brandio, gwahaniaethau rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, a pha mor amlwg oedd gwasanaethau a gomisiynwyd (gwasanaethau a oedd ar gael)[2].

Nod yr ymchwil ben desg oedd archwilio sut y gallai rhieni neu ofalwyr ddod o hyd i wybodaeth berthnasol pe baent angen cael gafael ar gymorth. Er y gwnaed pob ymdrech i ddod o hyd i wybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf (neu wasanaeth 'cymorth cynnar' cyfwerth), mae'n bosibl bod rhai manylion am y rhaglen yn bodoli, ond ni wnaethom lwyddo i ddod o hyd iddynt. Fodd bynnag, os cawsom ni anhawster i ddod o hyd i wybodaeth hollbwysig, mae'n rhesymol tybio y byddai teuluoedd sy'n ceisio cymorth yn wynebu heriau tebyg.

### 2.1.3. Cyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol

Cynhaliodd SRI 24 o gyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid. Dyma'r manylion:

- cynhaliwyd 22 cyfweliad gydag arweinwyr Teuluoedd yn Gyntaf o bob awdurdod lleol
    - roedd 2 o'r cyfweliadau hyn hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid ychwanegol o'r awdurdod lleol, sef rhai a oedd yn gweithio mewn rolau'n ymwneud â Teuluoedd yn Gyntaf
- cynhaliwyd 2 gyfweliad arall yn gyfan gwbl gyda rhanddeiliaid eraill o awdurdodau lleol a oedd yn gweithio mewn rolau'n ymwneud â Teuluoedd yn Gyntaf
- blith y 24 cyfweliad, roedd 8 yn gyfweliadau gydag unigolion ac roedd 16 yn gyfweliadau grŵp

Troednodyn:
[2] Mae'n bwysig nodi bod argaeledd yr wybodaeth sydd ar-lein, ynghyd â'r modd y cyflwynir yr wybodaeth honno, yn gallu newid. Efallai fod rhai gwefannau wedi cael eu diweddaru ers cynnal yr adolygiad hwn (sef rhwng Ebrill 2024 a Mai 2024).

Roedd pob cyfweliad yn awr o hyd ar gyfartaledd ac fe'u cynhaliwyd dros Microsoft Teams. Rhoddwyd canllaw pwnc i'r cyfweleion ymlaen llaw er mwyn eu galluogi i ystyried y cwestiynau a sicrhau mai nhw oedd y bobl briodol ar gyfer cymryd rhan yn y cyfweliad. Llywodraeth Cymru a ddarparodd gysylltiadau ar gyfer y rhanddeiliaid hyn.

### 2.1.4. Arolwg meintiol a chyfweliadau ansoddol gyda theuluoedd

Cynhaliodd SRI arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ynghyd ag 20 cyfweliad ansoddol gyda theuluoedd.

Hyrwyddwyd yr arolwg ar-lein trwy gyfrwng gwahanol sefydliadau a dulliau, yn cynnwys:

- awdurdodau lleol
  - cyfathrebu uniongyrchol gyda theuluoedd ynglŷn â'r arolwg, pan fo modd
  - trwy gyfrwng eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (er enghraifft, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd)
- gwasanaethau a gomisiynwyd
  - cyfathrebu uniongyrchol gyda theuluoedd ynglŷn â'r arolwg, pan fo modd
  - trwy gyfrwng eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol
  - trwy gyfrwng posteri a thaflenni (a oedd yn cynnwys codau QR) y gellid eu dosbarthu mewn sesiynau grŵp neu sesiynau unigol
- Llywodraeth Cymru
  - trwy gyfrwng cyfrifon perthnasol ar y cyfryngau cymdeithasol (fel Teulu Cymru)

Cysylltodd SRI ag awdurdodau lleol er mwyn gofyn iddynt hyrwyddo'r arolwg. Cysylltodd SRI ynghyd âawdurdodau lleol â gwasanaethau a gomisiynwyd er mwyn gofyn iddynt hyrwyddo'r arolwg.

Fel rhan o'r gwaith hyrwyddo, lluniodd SRI 'becyn cyfathrebu' ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn. Roedd y pecyn hwn yn cynnwys negeseuon posibl ar gyfer hyrwyddo'r arolwg, fel postiadau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, cod QR yn cysylltu â'r arolwg, a phoster y gellid ei ddosbarthu yn y cnawd ac ar-lein.

Lansiwyd yr arolwg ar 27 Tachwedd 2024 a bu ar gael am ychydig dros 12 wythnos. Daeth i ben ar 24 Chwefror 2025. Bu'r arolwg ar gael yn hwy nag y bwriadwyd yn wreiddiol er mwyn ystyried y posibilrwydd y gallai ddenu llai o ddiddordeb dros gyfnod y Nadolig. Cynhaliwyd yr arolwg trwy gyfrwng SNAP Surveys.

Llenwyd yr arolwg ar-lein gan 131 o ymatebwyr.

Yng nghwestiwn olaf yr arolwg ar-lein, gofynnwyd a fyddai'r ymatebwyr yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweliad (ansoddol) dilynol dros y ffôn. O blith y 131 a lenwodd yr arolwg,

cytunodd 86 i gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol. Yna, cyfeiriwyd yr ymatebwyr hyn at ffurflen sgrinio ar-lein ar wahân lle bu modd iddynt nodi eu manylion cyswllt mewn man a oedd gwahanol i'w hymatebion i'r arolwg, er mwyn sicrhau bod eu hymatebion i'r arolwg yn ddienw.

Gofynnodd y ffurflen sgrinio hon i'r ymatebwyr gyflwyno gwybodaeth ddemograffig ochr yn ochr â gwybodaeth gyswllt, a hefyd gofynnwyd iddynt pa mor ddefnyddiol fu'r cymorth a gawsant gan Teuluoedd yn Gyntaf. Cynhwyswyd y cwestiynau hyn er mwyn llywio'r gwaith o ddethol sampl ar gyfer y cyfweliadau, gyda'r nod o sicrhau sampl cynrychiadol.[3]

Cynhaliwyd 20 cyfweliad ansoddol. Ar gyfartaledd, parodd y cyfweliadau hyn 20-30 munud a chafodd y cyfranogwyr £30 fel cymhelliad i gymryd rhan. Dangosir gwybodaeth ddemograffig y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio yn yr atodiadau, a hefyd dangosir gwybodaeth ddemograffig yr 20 teulu a gymerodd ran yn y cyfweliadau ansoddol.

Ar sail y cyfweliadau ansoddol, datblygwyd pedair astudiaeth achos a oedd yn tynnu sylw at brofiadau 4 teulu gwahanol mewn perthynas â Teuluoedd yn Gyntaf. Dewiswyd 'straeon' y 4 teulu hyn gan eu bod yn creu darlun defnyddiol o brofiadau teuluoedd gyda'r rhaglen.

## 2.2. Cyfyngiadau

Roedd yr arolwg a'r cyfweliadau ansoddol yn ddibynnol ar gyfranogiad gwirfoddol. O'r herwydd, ceir risg yn ymwneud â rhagfarn hunanddewis. O ganlyniad, efallai nad yw'r sampl yn llwyr gyfleu profiadau teuluoedd a aeth ati i raddau llai i ymhél â Teuluoedd yn Gyntaf, neu rai a oedd yn wynebu rhwystrau o ran cyfranogi (er enghraifft, allgáu digidol neu rwystrau ieithyddol). Yn yr un modd, efallai fod rhagfarn hunanddewis yn golygu bod pobl a gafodd brofiadau arbennig o gadarnhaol neu negyddol yn fwy tebygol o gymryd rhan. Ymhellach, mae teuluoedd sydd ynghanol argyfwng neu sy'n wynebu ansefydlogrwydd mawr – er enghraifft, symud tŷ, pwysau ariannol acíwt neu broblemau taer eraill – yn anodd eu cyrraedd, ac efallai nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y sampl.

Er bod 131 o ymatebwyr wedi llenwi'r arolwg, dyma gyfran gymharol fach o gyfanswm y teuluoedd sy'n ymhél â Teuluoedd yn Gyntaf ledled Cymru. Golyga hyn y dylid dehongli'r canfyddiadau'n ofalus, oherwydd efallai nad ydynt yn cynrychioli'r holl ddefnyddwyr yn

Troednodyn
[3] Cyflwynir gwybodaeth ddemograffig y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio yn yr atodiadau.

llwyr. Dylid defnyddio canfyddiadau'r arolwg ar-lein i ddeall canfyddiad rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth, yn hytrach nag fel barn gynrychiadol yr holl ddefnyddwyr.

Un her hollbwysig yn yr arolwg ar-lein oedd y posibilrwydd nad oedd nifer o'r teuluoedd yn gwybod bod eu cymorth yn cael ei ariannu gan Teuluoedd yn Gyntaf. Mewn rhai awdurdodau lleol, caiff y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ei darparu dan enw gwasanaeth lleol gwahanol, ac o'r herwydd efallai fod teuluoedd yn adnabod y cymorth dan yr enw hwnnw neu dan enw'r darparwr neu'r gwasanaeth a gomisiynwyd (er enghraifft, Barnardo's neu Gweithredu dros Blant) yn hytrach na dan frand Teuluoedd yn Gyntaf. O'r herwydd:

- efallai mai'r teuluoedd mwyaf 'hyddysg' a lenwodd yr arolwg, gan arwain at ragfarn bosibl yn yr ymatebion. Yn achos teuluoedd nad oeddynt yn ymwybodol o rôl Teuluoedd yn Gyntaf, efallai eu bod yn llai tebygol o ymateb, gan beri i'r canfyddiadau adlewyrchu barn y rhai a chanddynt ymwybyddiaeth neu ymgysylltiad uwch, mewn modd anghymesur
- hefyd, gallai diffyg ymwybyddiaeth o'r fath effeithio ar gwestiynau penodol yn yr arolwg, megis ymatebion i'r cwestiwn 'oeddech chi'n gwybod bod y cymorth a gynigiwyd ichi, neu'r cymorth a gawsoch, yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf'?'
- ganlyniad i'r uchod, yn y lle cyntaf rydym wedi defnyddio canfyddiadau'r arolwg a'r cyfweliadau i ddangos profiadau a straeon rhai teuluoedd, yn hytrach na cheisio cyflwyno darlun cynrychiadol
- fodd bynnag, wrth geisio mynd i'r afael â'r uchod mae'n werth nodi ein bod wedi gofyn i bob awdurdod lleol gynnwys rhagymadrodd byr wrth hyrwyddo'r arolwg ar-lein, gan ddefnyddio enwau gwasanaethau lleol ynghyd â disgrifiadau y byddai teuluoedd yn eu hadnabod, er mwyn i deuluoedd allu gweld sut roedd yr arolwg yn ymwneud â'r help a gawsant
- fel y nodwyd yn gynharach, ni chasglwyd gwybodaeth ddemograffig fel rhan o'r arolwg; dim ond yn yr arolwg sgrinio y gwnaethpwyd hynny, er mwyn ein hwyluso i ddewis sampl. O gofio bod y sampl yn gymharol fach, byddai hyn wedi cyfyngu ar gwmpas unrhyw ddadansoddiad demograffig ystyrlon.

Hefyd, cafwyd cyfyngiadau mewn perthynas â chysylltu â theuluoedd a oedd wedi cael cymorth rai blynyddoedd yn ôl (er enghraifft, mwy na dwy flynedd yn ôl). Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn gyndyn o gysylltu â phobl a oedd wedi cael cymorth yn y gorffennol gan eu bod yn ofni y gallai ailgysylltu â nhw arwain at ailymgysylltu anfwriadol a rhoi pwysau ychwanegol ar lwythi gwaith presennol.

Crybwyllodd awdurdodau lleol am anawsterau o ran cyrraedd teuluoedd a oedd wedi ymhél â Teuluoedd yn Gyntaf ond na chawsant gymorth yn y pen draw. Efallai y byddai'r teuluoedd hyn wedi gallu cyflwyno safbwyntiau pwysig ynglŷn â rhwystrau o ran cael

gafael ar gymorth; ond roedd hi’n llai tebygol y byddai modd cysylltu â nhw, felly ni chynrychiolir eu profiadau’n ddigonol yn y canfyddiadau.

## 2.3. Dadansoddi’r canlyniadau a’r canfyddiadau

Cafodd y cyfweliadau eu recordio (gyda chaniatâd) a’u trawsgrifio. Dadansoddwyd y trawsgrifiadau’n thematig er mwyn pennu themâu a phatrymau hollbwysig yn systematig.

Fe wnaeth pawb a oedd yn gysylltiedig â hwyluso’r cyfweliadau gymryd rhan mewn cyfarfodydd mewnol ar gyfer trafod y canfyddiadau a ddôi i’r amlwg, a hynny er mwyn sicrhau bod y dadansoddiad yn ystyried themâu hollbwysig. Mae hyn, law yn llaw â’r dadansoddiad ei hun, yn sicrhau bod y canfyddiadau’n adlewyrchiad cywir o’r data a gasglwyd.

Cafodd yr holl ymatebion penagored a gyflwynwyd ar gyfer cwestiynau agored yr arolwg eu dadansoddi’n thematig. Datblygwyd ffrâm codio ar wahân ar gyfer pob cwestiwn, ar sail adolygiad o’r ymatebion, er mwyn cyfleu themâu a phatrymau a ddôi i’r amlwg dro ar ôl tro. Yna, cafodd ymatebion unigol eu codio yn erbyn 1 neu fwy o themâu perthnasol, gan esgor ar ddealltwriaeth o wahaniaethau cynnil yn y data a chan ddangos y modd y mynegwyd rhai safbwyntiau arbennig. Dangosir y themâu yn y tablau, ochr yn ochr â nifer a chanran yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau’n ymwneud â’r themâu hynny.

## 2.4. Cynnwys yr adroddiad

Er mwyn sicrhau anonymedd, caiff safbwyntiau arweinwyr awdurdodau lleol Teuluoedd yn Gyntaf, rhanddeiliaid ‘eraill’ mewn awdurdodau lleol, a swyddogion Llywodraeth Cymru, eu cyflwyno ar y cyd; gelwir yr ymatebwyr hyn yn ‘rhanddeiliaid’, oni bai bod angen nodi’n benodol bod rhyw bwynt arbennig wedi cael ei wneud gan randdeiliad o awdurdod lleol.

Ar gyfer yr arolwg ar-lein, dangosir y canlyniadau meintiol ar ffurf siart, gyda’r ‘sylfaen’ dan bob siart yn dangos nifer y rhai a ymatebodd i bob cwestiwn. Efallai nad atebwyd pob cwestiwn gan bob un o’r ymatebwyr, naill ai oherwydd trywydd y cwestiynau neu gan fod yr ymatebwyr wedi dewis peidio ag ymateb. Mewn achosion pan gafwyd nifer fach o ymatebion i gwestiynau (llai nag 20), nodir y canlyniadau ar ffurf niferoedd yn hytrach nag ar ffurf canrannau.

Ym mhob achos, mae'r canrannau'n dangos faint o bobl a atebodd bob cwestiwn, oni nodir yn wahanol. Mewn ambell achos, mae'r canrannau'n adio i fwy na 100%; fel arfer, mae hyn yn digwydd yn sgil talgrynnu neu yn sgil cynnwys cwestiynau ymateb lluosog.

# 3. Ymgysylltu cychwynnol a strwythurau cyflawni lleol

Y bennod hon yw pennod gyntaf yr adran ‘canfyddiadau’. Mae Penodau 3 ac 8 yn cyflwyno canfyddiadau hollbwysig a ddeilliodd o’r ymchwil.

## 3.1. Sut y caiff teuluoedd fynediad at Teuluoedd yn Gyntaf?

### 3.1.1. Atgyfeiriadau a hunanatgyfeiriadau

Gall teuluoedd gael gafael ar wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf trwy gyfrwng atgyfeiriadau proffesiynol a hunanatgyfeiriadau, gan sicrhau bod cymorth ar gael i’r rhai sydd ei angen, pa un a fyddant yn cael eu hatgyfeirio gan wasanaethau neu’n ceisio help yn annibynnol.


Mae hunanatgyfeiriadau’n galluogi teuluoedd i gysylltu’n uniongyrchol â’u hawdurdod lleol – er enghraifft dros y ffôn, trwy e-bost, trwy ddefnyddio gwe-ffurflenni, neu trwy fynd i fannau fel Canolfannau Plant Integredig lle gallant gael gafael ar wybodaeth a chael eu cyfeirio at wasanaethau priodol.

Hefyd, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cael atgyfeiriadau gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol (ar ffurf cymorth cam-i-lawr[4]), ysgolion, gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, ymwelwyr iechyd a bydwragedd, gan sicrhau bod teuluoedd sydd angen ymyrraeth gynnar yn cael eu canfod a’u cynorthwyo cyn gynted ag y bo modd.

Yn yr arolwg ar-lein, gofynnwyd i’r ymatebwyr sut y daethant i gysylltiad y tro cyntaf gyda Teuluoedd yn Gyntaf. Dywedodd oddeutu dwy ran o dair (67%) o deuluoedd eu bod wedi cael eu hatgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf. Cymharer hyn ag 14% o deuluoedd a gysylltodd yn uniongyrchol â Teuluoedd yn Gyntaf neu eu hawdurdod lleol. Dywedodd 9% eu bod wedi cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf mewn ffordd arall. Yn nifer o’r achosion hyn, cysylltodd y teuluoedd trwy gyfrwng gwasanaethau a gomisiynwyd; ond yn aml, nid oedd yn glir a oedd y teuluoedd wedi cael eu hatgyfeirio ynteu a oeddynt wedi cychwyn y cyswllt eu hunain trwy gyfrwng y gwasanaethau hynny. Ni allai 10% gofio sut y daethant i gysylltiad y tro cyntaf gyda Teuluoedd yn Gyntaf.

Troednodyn:
[4] Mae cymorth ‘cam-i-lawr’ yn cyfeirio at deuluoedd sy’n pontio neu’n ‘camu i lawr’ o wasanaethau statudol (e.e. gwasanaethau cymdeithasol) i gymorth anstatudol fel Teuluoedd yn Gyntaf.

**Ffigur 2: Sut y daethoch i gysylltiad y tro cyntaf gyda Teuluoedd yn Gyntaf? (N = 131) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**




Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf

Disgrifiad o Ffigur 2: siart far yn dangos bod 67% o'r teuluoedd a arolygwyd wedi cael eu hatgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf, bod 14% wedi cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf neu eu cyngor lleol i gael help, bod 10% naill ai'n methu cofio neu ddim yn gwybod, a bod 9% wedi cysylltu trwy gyfrwng sianeli eraill.

Ar sail y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid, nodwyd bod rhai newidiadau i'w gweld mewn patrymau atgyfeirio, a bod ysgolion yn chwarae rôl gynyddol o ran canfod plant mewn angen, yn enwedig ar ôl COVID-19. Dywedwyd bod atgyfeiriadau'n ymwneud yn aml â diffyg presenoldeb, problemau ymddygiadol yn y dosbarth, neu anghenion dysgu ychwanegol a ddôi i'r amlwg. Gwelir bod y rhanddeiliaid yn priodoli'r cynnydd hwn i bwysau'n ymwneud â'r pandemig, megis anghenion dysgu ychwanegol na chawsant eu diagnosio yn ystod y pandemig (trafodir hyn yn nes ymlaen), gorbryder ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo, a chynnydd sydyn mewn anawsterau cymdeithasol neu emosiynol.

### 3.1.2. Ffyrdd o ymhél â Teuluoedd yn Gyntaf

Yn y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol, dywedodd nifer ohonynt fod eu hawdurdod lleol yn rhoi dull '1 drws ffrynt' ar waith – hynny yw, bod gan awdurdodau lleol 1 pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gan sicrhau y caiff teuluoedd eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol heb iddynt orfod mynd trwy amryfal asiantaethau.

Yn achos y rhai a oedd yn gweithredu dull o'r fath, roeddynt o'r farn ei fod yn cynnig proses atgyfeirio fwy 'di-dor'. Er enghraifft, dywedodd 1 rhanddeiliad fod "...model yr hwb

yn fwy di-dor, yn fy marn i. Dull ‘1 drws ffrynt’ ar gyfer yr awdurdod lleol, ni waeth pa wasanaeth teuluol neu wasanaeth rhianta rydych ei angen... fe wnân nhw drefnu popeth. Yn achos awdurdodau eraill, efallai fod y trefniadau’n wahanol. Efallai fod ganddyn nhw 1 gwasanaeth yn y fan hon a gwasanaeth arall yn y fan acw.”

Ym marn y rhanddeiliaid hyn, mae teuluoedd sy’n ymgyflwyno mewn un pwynt mynediad yn elwa ar well cydlyniant rhwng gwasanaethau, oherwydd mae hi’n haws eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol. Ymhellach, credir bod cael 1 pwynt mynediad canolog a chyfarwydd yn annog ychwaneg o deuluoedd i geisio help gan eu bod yn gwybod ble yn union i fynd.

Mewn cyfweliadau eraill gyda rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol, daeth yn amlwg fod rhai ardaloedd yn gweithredu pwyntiau mynediad yn y gymuned. Yng Nghonwy, er enghraifft, mae Canolfannau i Deuluoedd yn gweithredu fel pwynt mynediad hollbwysig ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, gan alluogi rhieni i gael gafael ar gymorth anffurfiol cyn iddynt gael eu hatgyfeirio at wasanaethau arbenigol os bydd angen. Ym marn y rhanddeiliaid, mae’r dull hwn yn cynnig lleoliad croesawgar – sef rhywbeth a all fod yn effeithiol wrth ymgysylltu â theuluoedd a fyddai, fel arall, yn gyndyn o geisio help.

Dywedodd nifer o’r rhanddeiliaid eu bod yn gweithredu dull ‘dim drws anghywir’, gan alluogi teuluoedd i gael gafael ar gymorth trwy gyfrwng nifer o lwybrau gwahanol, megis hunanatgyfeiriadau (e.e. trwy gyfrwng pwyntiau mynediad yn y gymuned, ffurflenni ar-lein, dros y ffôn, neu Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd), atgyfeiriadau proffesiynol (e.e. gan wasanaethau iechyd, ysgolion, neu’r heddlu) ac atgyfeiriadau ‘cam-i-lawr’ gan wasanaethau cymdeithasol statudol. Dywedodd y rhanddeiliaid fod model o’r fath yn sicrhau hygyrchedd i deuluoedd, gan helpu i sicrhau na chânt eu symud o 1 gwasanaeth i’r llall heb iddynt gael y cymorth angenrheidiol.

## 3.2. Sgyrsiau ynglŷn â’r ‘hyn sy’n bwysig’: asesu anghenion teuluoedd mewn ffordd gyfannol

Ni waeth pa system fynediad a ddefnyddir, mae nifer o awdurdodau lleol yn cynnal sgyrsiau parhaus ynglŷn â’r ‘hyn sy’n bwysig’. Maent yn dechrau cynnal sgyrsiau o’r fath pan gaiff y cyswllt cyntaf ei wneud gyda’r awdurdod lleol, ac yna maent yn parhau i’w cynnal yn rheolaidd tra bydd y teulu’n ymhél â’r gwasanaeth. Cynhelir y sgwrs gyntaf er mwyn deall sefyllfa’r teulu’n well; cynhelir sgyrsiau parhaus ynglŷn â’r ‘hyn sy’n bwysig’ er mwyn sicrhau y deellir sut mae sefyllfa’r teulu’n esblygu. Yn ôl awdurdodau lleol, mae’r

sgyrsiau hyn yn galluogi teuluoedd i gyfleu'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt hwy – eu pryderon a'r pethau y maent eu hangen (dull sy'n canolbwyntio ar y teulu).

Fel rhan o'r sgyrsiau hyn, efallai y bydd teuluoedd yn ymgyflwyno gerbron awdurdodau lleol i drafod pryder syml; ond, fel y nodir uchod, efallai y bydd y sgyrsiau a'r asesiadau hyn yn tynnu sylw at broblemau eraill. Er enghraifft, gallai problem yn ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol ddatgelu problemau eraill, megis problemau cysgu neu broblemau tai sy'n effeithio ar bresenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

Ar ôl y sgwrs hon, gall Teuluoedd yn Gyntaf weithio gyda theuluoedd i fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan eu cysylltu â chymorth perthnasol – pa un a fydd hynny'n digwydd trwy gyfrwng gwasanaethau tai, neu weithwyr cymorth yn helpu gyda phroblemau cysgu, er enghraifft. Ym marn nifer o'r teuluoedd a gafodd eu cyfweld, mae'r sgyrsiau cynnar hyn yn gefnogol ac yn anfeirniadol, ac mae gweithwyr cymorth yn gwrando arnynt ac yn ceisio deall eu sefyllfa. I nifer o deuluoedd, llwyddodd y cyswllt cyntaf hwn i adeiladu sylfaen ar gyfer meithrin ymddiriedaeth a chanfod yr holl heriau a oedd yn effeithio ar y teulu.

## 3.3. Lleoliad timau Teuluoedd yn Gyntaf oddi mewn i awdurdodau lleol

Mae lleoliad timau Teuluoedd yn Gyntaf oddi mewn i strwythurau awdurdodau lleol yn amrywio ledled Cymru. Mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, dywedodd rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol fod eu tîm Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i leoli oddi mewn i wasanaethau cymorth cynnar neu wasanaethau cymunedol; dywedodd eraill fod eu tîm wedi'i integreiddio i raddau helaethach â gwasanaethau plant (statudol).

Mewn 1 awdurdod lleol, er enghraifft, roedd y tîm Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i ymwreiddio wrth 'ddrws ffrynt' y gwasanaethau plant, er mai gwasanaeth anstatudol yw Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd y rhanddeiliaid yn yr awdurdod lleol hwnnw o'r farn fod hyn yn eu galluogi i weithio'n agos gyda gwasanaeth statudol – sef gwasanaeth a oedd dan bwysau, yn eu tyb nhw – gan atal achosion rhag gwaethygu a mynnu ymyrraeth statudol:

> "Er nad ydym yn wasanaeth statudol, rydym yn rhan o wasanaethau plant, fel rhyw fath o wasanaeth cymorth. Y drws ffrynt hwnnw sy'n ceisio delio â'r teuluoedd, asesu eu hanghenion, a rhoi'r cymorth iawn iddynt er mwyn atal eu sefyllfa rhag gwaethygu."

## 3.4. Strwythur gwasanaethau a gomisiynir gan Teuluoedd yn Gyntaf

Mae'r modd y darperir gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn amrywio o 1 awdurdod lleol i'r llall. Mae rhai'n mynd ati'n bennaf i ddarparu gwasanaethau'n fewnol trwy gyfrwng yr awdurdod lleol tra mae eraill yn dibynnu'n bennaf ar ddarparwyr allanol a gomisiynir, ac mae nifer yn rhoi dull cymysg ar waith. Er bod yr hyblygrwydd hwn yn galluogi pob awdurdod lleol i deilwra'i wasanaethau ar sail anghenion lleol, pwysleisiodd y rhanddeiliaid pa mor bwysig yw cael prosesau da ar gyfer rhannu gwybodaeth, yn enwedig pan ddefnyddir darparwyr allanol, er mwyn sicrhau cymorth cydlynol.

Ym marn y rhanddeiliaid, y peth pwysicaf yw pa mor dda y mae gwasanaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth, yn hytrach na'r modd y darperir y gwasanaethau (hynny yw, yn fewnol ynteu'n allanol). Yn ôl 1 rhanddeiliad, er bod gweithwyr proffesiynol wedi ymrwymo i gynorthwyo teuluoedd, mae amryfal dimau neu sefydliadau yn gysylltiedig â'r gwaith, ac o dro i dro gall hynny esgor ar heriau. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo gwasanaethau plant statudol, megis diogelu neu ofal cymdeithasol, yn gysylltiedig â'r gwaith. Gan fod teuluoedd yn symud o 1 lefel cymorth i'r llall dros amser, mae hi'n hanfodol cael cyfathrebu da a chydberthnasau gweithio cryf rhwng gwasanaethau er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael help cyson ac effeithiol.

Pan fo teuluoedd angen cymorth amlasiantaethol, fel arfer neilltuir Tîm o Amgylch y Teulu ar eu cyfer – sef fframwaith sy'n dwyn gwasanaethau perthnasol ynghyd i ddarparu cymorth teilwredig a chyfannol. Trafodir yr egwyddorion hollbwysig sy'n perthyn i gymorth Tîm o Amgylch y Teulu yn adrannau 3.7.2 i 3.7.3.

### 3.4.1. Cynnal asesiadau er mwyn deall anghenion teuluoedd: safbwyntiau rhanddeiliaid

Pan atgyfeirir teuluoedd at Teuluoedd yn Gyntaf, yn aml cynhelir asesiad cychwynnol (ochr yn ochr â sgyrsiau eraill / fel rhan o sgyrsiau eraill) er mwyn canfod pa wasanaeth neu gymorth sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Yn aml, gelwir yr asesiad hwn yn Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd.

Yn dilyn yr asesiad hwn, efallai y bydd teuluoedd yn cael eu cyfeirio at gymorth a fydd, ym marn yr awdurdod lleol, yn gweddu i'w sefyllfa. Bydd y cymorth hwn yn amrywio ar sail anghenion y teuluoedd. Er enghraifft, efallai mai'r unig beth y mae rhai teuluoedd ei angen yw gwasanaeth sengl, fel mynychu grŵp rhianta, a bydd modd eu hatgyfeirio'n gyflym; ond efallai y bydd teuluoedd eraill angen mwy o gymorth, a bydd angen cydlynu'r cymorth hwnnw fel rhan o Dîm o Amgylch y Teulu.

Efallai y bydd teuluoedd yn cael eu cyfeirio at raglenni eraill, hyd yn oed. Er enghraifft, os yw'r plentyn yn iau na 4 oed, efallai y bydd y teulu'n cael ei gyfeirio at Dechrau'n Deg yn hytrach na Teuluoedd yn Gyntaf, gan ddibynnu ar y meini prawf cymhwystra a'r math o gymorth sy'n angenrheidiol.

Mae'r broses asesu hon yn sicrhau bod teuluoedd yn cael yr ymyrraeth fwyaf priodol o'r cychwyn cyntaf, gan sicrhau y targedir adnoddau'n effeithiol.

### 3.4.2. Amrywio o ran y modd y defnyddir y Fframwaith Asesu

Mae'r modd y defnyddir y Fframwaith Asesu oddi mewn i Teuluoedd yn Gyntaf yn amrywio ledled awdurdodau lleol Cymru. Cafodd y fframwaith ei lunio'n wreiddiol fel dull asesu cyfannol a safonedig gogyfer ystyried anghenion plant, amgylchiadau teuluoedd, a ffactorau eraill; ond mewn gwirionedd, mae rhai awdurdodau'n defnyddio "Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd" fel ffordd o gyfeirio at eu hasesiadau teuluoedd, tra mae awdurdodau eraill wedi ei ddisodli/addasu. Dywedodd 1 rhanddeiliad: "Yr unig beth a ddywedaf ynglŷn â'r Fframwaith Asesu yw ein bod yn defnyddio'r derminoleg, ond nid wyf yn credu bod neb yn defnyddio'r un broses yn union. Mewn gwirionedd, does yna ddim diffiniad ar ei gyfer... Roedd i fod i gynnwys yr holl bethau yr oedd pob asiantaeth yn dymuno'u cael, ond aeth braidd yn llafurus."

Fel enghraifft o hyn, dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Fframwaith Asesu a'u bod bellach yn defnyddio asesiadau a gynhelir dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### 3.4.3. Nid yw'r holl deuluoedd sy'n ymhél â Teuluoedd yn Gyntaf angen asesiad llawn

Awgrymodd rhai awdurdodau lleol fod timau Teuluoedd yn Gyntaf yn caniatáu i deuluoedd alw heibio am gymorth pan fo angen, heb gynnal proses asesu ffurfiol, os oeddynt o'r farn nad oedd angen cynnal asesiad. Dywedasant fod hyn yn atal oedi diangen, gan sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar help yn gyflym pan fo'u hanghenion yn llai cymhleth. Yn ôl 1 rhanddeiliad: "Weithiau, efallai mai am 1 diwrnod yn unig y bydd plant mewn argyfwng, a gallant alw heibio a chael cymorth pan fydd ei angen arnynt. Nid ydynt angen asesiad ffurfiol ar gyfer hynny. Yn yr un modd, mae rhai canolfannau i deuluoedd yn darparu cymorth heb gynnal asesiad llawn y Fframwaith Asesu, ond mae'r opsiwn ar gael pe bai angen."

Yn ôl rhai o’r rhanddeiliaid hyn, mae rhai teuluoedd yn teimlo’n rhwystredig gan eu bod yn gorfod mynd trwy asesiadau niferus, yn enwedig pan fydd angen cymorth byrdymor yn unig. O ganlyniad, efallai na fydd angen i deuluoedd sydd angen cymorth byrdymor yn unig fynd trwy asesiadau niferus, felly gallant gael gafael ar wasanaethau byr neu wasanaethau ‘galw heibio’ heb orfod mynd trwy asesiad arall.

### 3.4.4. Dewislen o opsiynau, ynteu hyblygrwydd llwyr?

Er y bwriedir i Teuluoedd yn Gyntaf fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion unigryw teuluoedd, roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn y ceir cyfyngiadau o ran amrediad llawn y gwasanaethau a ddarperir. Fel y nodir yn nes ymlaen, roedd rhieni a rhanddeiliaid o’r farn fod y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gallu bod braidd yn anhyblyg ar brydiau (er y bwriadwyd iddi fod yn hyblyg), a’i bod yn cynnig cyfres benodedig o wasanaethau yn hytrach na chymorth mwy pwrpasol. Fel dywedodd 1 rhanddeiliad: “Rhan o’r broblem gyda rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf yw’r ffaith bod ‘arlwy’ yn cael ei gynnig, er nad yw’r rhaglen yn strwythuredig iawn. Ond efallai nad yw pobl eisiau’r arlwy hwnnw.” Yn yr un modd, roedd rhanddeiliad arall o’r farn fod y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ar brydiau, yn cael ei chyflwyno fel “dewislen o opsiynau” yn hytrach na “dull pwrpasol a hollol hyblyg.”

## 3.5. Cynnal asesiadau er mwyn deall anghenion teuluoedd: safbwyntiau rhieni

Gofynnwyd i’r teuluoedd a gymerodd ran yn y cyfweliadau ansoddol a oeddynt yn cofio cael eu hasesu; ac os felly, gofynnwyd sut brofiad a gawsant mewn perthynas â’r asesiad.

Ym mhob achos fwy neu lai, cafodd y cyfweleion eu hasesu gan dîm Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio. Cynhaliwyd y mwyafrif o’r asesiadau hyn wyneb yn wyneb; cynhaliwyd nifer fechan dros y ffôn. Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i fod yn fodlon iawn â’r bwlch amser rhwng yr atgyfeiriad cychwynnol a’r asesiad.

Fodd bynnag, soniwyd am brofiadau amrywiol. Mewn 1 achos, fe wnaeth cynrychiolydd gwasanaeth a gomisiynwyd drafod y cymorth a oedd ar gael yn uniongyrchol gyda’r rhiant, gan gyfeirio’r rhiant at bartneriaid eraill Teuluoedd yn Gyntaf; ac ymddengys fod y rhiant wedi cael cymorth heb i unrhyw asesiad gael ei gynnal.

> “Daeth [cynrychiolydd o’r gwasanaeth a gomisiynwyd] draw i’r tŷ a chefais wybod am yr holl elusennau eraill a’r cymorth a oedd ar gael. Pethau fel gweithgareddau chwaraeon y gallai fy mhlentyn gymryd rhan ynddynt, ac elusen ar gyfer gofalwyr

> [...] a oedd yn cynnig pethau i'r plentyn ac i'r rhieni. Ar y cyfan, rydw i'n credu fy mod wedi cael llawer o wybodaeth gan y cynrychiolydd, ac roedd yn gymwynasgar iawn. [...] Nid wyf erioed wedi ffonio [staff Teuluoedd yn Gyntaf] a chael sgwrs gyda nhw, oherwydd roedd yr wybodaeth ar gael ar y wefan ac roedd yn well gennyf ddarllen yr wybodaeth honno a gwneud pethau ar fy liwt fy hun. [...] Rydw i wastad wedi cael fy nghyfeirio at bethau pan fo angen, [...] felly rydw i'n credu bod pawb yn gwybod beth sydd ar gael a bod y naill yn argymell y llall, os yw hynny'n gwneud synnwyr, ond nid Teuluoedd yn Gyntaf o angenrheidrwydd."

Cyflwynodd nifer o deuluoedd sylwadau cadarnhaol iawn ynglŷn â'r profiad a gawsant gyda'r gweithiwr cymorth a gynhaliodd yr asesiad, gan adleisio'r farn gyffredinol a fynegwyd yn yr arolwg. Dywedodd teuluoedd fod y gweithwyr cymorth, ar y cyfan, yn llawn cydymdeimlad, yn gymwynasgar ac yn effeithiol yn eu rolau.

Mewn achosion pan dueddai'r adborth fod yn llai cadarnhaol, ni chynigiwyd cymorth i'r rhieni yn dilyn yr asesiad – er enghraifft, cynigiwyd cyngor yn unig iddynt, yn hytrach na chymorth, gan beri iddynt deimlo nad oedd yr asesiad yn ddigon manwl neu'n ddigon hyddysg yn eu hamgylchiadau arbennig. Parodd hyn i'r rhieni deimlo'n siomedig iawn, gan eu gwneud yn llai tebygol o ymhél â Teuluoedd yn Gyntaf yn y dyfodol, yn enwedig pan na chynigiwyd unrhyw help dilynol gan dimau Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl iddynt wrthod rhoi cymorth neu ar ôl i'r cymorth gael ei wrthod.

Rhywbeth arall a gyfyngodd ar fodlonrwydd pobl â Teuluoedd yn Gyntaf / ymddiriedaeth pobl yn Teuluoedd yn Gyntaf oedd yr argraff nad oedd y gweithwyr cymorth bob amser yn meddu ar wybodaeth ddigonol am niwroamrywiaeth ac anableddau. Mewn ambell achos o'r fath, cynigiwyd cymorth, ond penderfynodd y rhieni beidio â'i dderbyn gan eu bod o'r farn ei fod yn anaddas, neu gan nad oeddynt yn teimlo'n hyderus y byddai'n llwyddo.

> "Cefais brofiad negyddol iawn. Y cwbl roeddynt yn ei ddweud oedd 'bydd pob plentyn yn addasu i batrwm cysgu', ac mai fi a oedd ar fai am beidio â rhoi patrwm cysgu o'r fath ar waith ar gyfer fy mhlentyn. Nid wyf yn credu bod unrhyw un ohonynt yn deall yn iawn beth yw niwroamrywiaeth na niwrowahaniaeth, yn enwedig mewn plant, oherwydd roedd y pethau a ddywedwyd wrthyf yn nodweddiadol o bethau y byddech yn eu dweud wrth riant plentyn niwronodweddiadol."

> "Fe ddaeth hi draw ac fe wnaethom siarad am y canlyniadau. Ond roedd popeth yn cael ei anelu at ddychwelyd fy mab i'r gymuned. Roeddwn yn ceisio esbonio

nad yw'n gadael y tŷ. Mae hi'n amhosib cerdded cyn cropian. [...] Gyda phob parch, nid yw rhywun sy'n cael tâl o £15 yr awr yn debygol o feddu ar y profiad na'r cymwysterau priodol i allu mynd ag ef allan heb imi deimlo y gallai pethau fynd o chwith – mae'n ymddwyn mewn ffordd heriol iawn ac mae'n gallu cynhyrfu'n lân oherwydd y peth lleiaf, pa un a fydd hynny'n golygu mynd rownd y gornel neu groesi'r ffordd, os yw hynny'n gwneud synnwyr."

"Roeddwn yn teimlo'n eithaf siomedig oherwydd ei hagwedd tuag at fy mab – roeddwn yn teimlo fy mod wedi cael fy amharchu braidd. Nid oedd ganddi lawer o ymwybyddiaeth o blant ag anableddau, neu efallai nad oedd hi wedi cael ei hyfforddi'n benodol yn y maes. Yn amlwg, nid wyf yn gwybod a yw hyn yn wir ai peidio, ond dyna'r argraff a gefais."

O ran yr asesiad, cyflwynodd nifer o rieni sylwadau a oedd yn dangos nad oeddynt yn siŵr sut fath o gymorth roeddynt ei angen. Roedd nifer ohonynt o'r farn eu bod wedi elwa ar rôl ddiagnostig y gweithiwr cymorth wrth eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol. Ond yn achos rhieni â llai o hyder yn eu gweithwyr cymorth, roedd rhai ohonynt o'r farn fod yna orddibyniaeth ar sgiliau cyfathrebu a galluoedd diagnostig y gweithwyr cymorth. Awgrymodd y cyfranogwyr hyn y byddent wedi hoffi cael gwybod am amrediad llawn y cymorth a oedd ar gael, er mwyn iddynt hwy eu hunain allu gwneud ceisiadau mewn perthynas â phartneriaid cyflawni (soniodd rhanddeiliaid am bwynt tebyg yn gynharach – adran 3.5.3). Roedd y cymorth hwn yn cynnwys gwasanaethau a oedd y tu allan i ambarél Teuluoedd yn Gyntaf, ond gwasanaethau y byddent wedi gallu elwa arnynt.

"Roeddwn mor fodlon â'r cymorth a gynigiwyd imi. Nid oeddwn hyd yn oed yn gwybod beth roeddwn ei eisiau ar y pryd."

"Pan maent yn cysylltu â chi, byddai'n ddefnyddiol cael rhestr o'r holl bethau y gallant eu gwneud a byddai'n ddefnyddiol iddynt ofyn a allai unrhyw beth ar y rhestr fod o fudd. Rydw i'n credu y byddai hynny'n fan cychwyn gwell o lawer er mwyn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael, yn hytrach na pheidio â gwybod beth sydd ar gael neu beth y dylid gofyn amdano. Yn aml, nid ydych yn gwybod sut fath o gymorth rydych ei angen, ac nid ydynt hwythau'n gwybod chwaith ar sail 1 ymweliad yn unig."

## 3.6. Egwyddorion o ran cymorth effeithiol gan y Tîm o Amgylch y Teulu

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid pa egwyddorion, yn eu tyb nhw, sy'n perthyn i gymorth effeithiol gan y Tîm o Amgylch y Teulu.

### 3.6.1. Cydweithredu rhwng darparwyr gwasanaethau.

Yn gyntaf, dywedwyd bod cymorth effeithiol gan y Tîm o Amgylch y Teulu yn dibynnu'n fawr ar gydweithredu rhwng gwahanol ddarparwyr gwasanaethau. Pan fo angen atgyfeirio teuluoedd at y Tîm o Amgylch y Teulu, pwysleisiodd y rhanddeiliaid na all unrhyw wasanaeth ar ei ben ei hun fynd i'r afael â holl anghenion y teuluoedd, a bod angen rhoi dull amlasiantaethol a chydgysylltiedig ar waith er mwyn sicrhau bod y teuluoedd yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn: "Weithiau, y peth pwysig yw gwybod nad chi yw'r gwasanaeth iawn neu'r unigolyn iawn, gan gydnabod mai rhywun arall a ddylai helpu'r teulu. Yr unig ffordd o wybod hyn yw trwy gynnal sgyrsiau a rhannu gwybodaeth."

Mae cyfathrebu a chydweithredu rheolaidd rhwng asiantaethau yn helpu i sicrhau bod y cymorth yn cael ei gydlynu'n dda, yn hytrach na'i fod yn dameidiog ac yn cael ei ddarparu ar draws gwahanol wasanaethau. Yn ôl y rhanddeiliaid, mae cynnal cyfarfodydd gweithredol a chyfathrebu'n barhaus yn hollbwysig ar gyfer cynnal cydberthnasau amlasiantaethol cryf. Dywedodd 1 rhanddeiliad: "Bydd pob gwasanaeth yn cyfrannu at y darlun. Os na ddewch ynghyd a rhannu'r wybodaeth, ni allwch ddeall yn llwyr beth yw'r broblem. Fel arall, gallech ddyblygu cymorth yn y lle amhriodol."

### 3.6.2. Dull hyblyg a gaiff ei arwain gan anghenion

Roedd y rhanddeiliaid yn bendant eu barn y dylid teilwra'r cymorth a roddir gan y Tîm o Amgylch y Teulu ar sail anghenion unigol pob teulu, yn hytrach na defnyddio '1 ateb sy'n addas i bawb'. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod hyblygrwydd yn hollbwysig ar gyfer sicrhau cymorth effeithiol: "Caiff yr ymateb sydd ar gael gan y Tîm o Amgylch y Teulu ei seilio ar anghenion, ac mae'n hyblyg. Caiff ei deilwra ar sail yr unigolyn neu'r teulu. Nid ydym yn defnyddio '1 ateb sy'n addas i bawb' mwyach, oherwydd ar ddiwedd y dydd mae teuluoedd a phlant yn unigolion."

### 3.6.3. Gwrando ar deuluoedd a'u cynnwys yn y broses

Dywedwyd bod cynnwys teuluoedd mewn penderfyniadau yn 1 o egwyddorion hollbwysig y cymorth a roddir gan y Tîm o Amgylch y Teulu. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid pa mor bwysig yw gwrando ar safbwyntiau rhieni a phlant, gan sicrhau bod cyfarfodydd y Tîm o Amgylch y Teulu yn gynhwysol a bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses. Dywedodd 1 rhanddeiliad: “Mae'n bwysig i'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol fynychu'r cyfarfodydd; ond hefyd, mae'n bwysig i'r teuluoedd gael dweud eu dweud. Nid yw hyn bob amser yn hawdd, ond mae angen gwrando ar safbwyntiau plant, a rhaid cynnal cyfarfodydd amlasiantaethol yn rheolaidd, gan adolygu cynlluniau'n gyson.”

Ymhellach, dywedodd y rhanddeiliaid hyn y dylid llunio'r cymorth ar sail anghenion a blaenoriaethau'r teulu, yn hytrach na rhoi'r mater yn gyfan gwbl yn nwylo gweithwyr proffesiynol (er enghraifft, cymryd rhan mewn sgyrsiau ynglŷn â'r ‘hyn sy'n bwysig[5]'). Yn ôl y rhanddeiliaid, efallai na fydd disgwyliadau'r teuluoedd yn cyd-fynd bob amser â'r hyn sy'n bosibl; ond serch hynny, dywedwyd bod angen eu cynnwys yn y dasg o lunio cynlluniau cymorth er mwyn annog ymgysylltu a pherchnogaeth, a cheisio sicrhau na fyddant yn gadael y rhaglen. Dywedodd 1 rhanddeiliad: “Caiff y cymorth ei seilio ar y canlyniadau a bennir gan y teuluoedd. Efallai y bydd eu disgwyliadau'n wahanol i'r hyn y gallwn ei gyflawni, ond y peth pwysig yw rhoi cyfle iddynt ddweud, ‘Rydw i'n credu bod fy nheulu angen y peth a'r peth'. Yna, byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth, yn llunio'r cynllun gorau, ac yn rhoi'r cynllun i aelodau'r teulu er mwyn iddynt allu cymryd perchnogaeth drosto ac ymrwymo iddo.”

Troednodyn:
[5] Yn ôl awdurdodau lleol, mae'r sgyrsiau hyn yn rhoi cyfle i deuluoedd gyfleu'r ‘hyn sy'n bwysig' iddynt – eu pryderon a'r pethau y maent eu hangen (dull sy'n canolbwyntio ar y teulu).

# 4. Y cymorth a gafodd teuluoedd, a chanfyddiadau am y cymorth hwnnw

## 4.1. Mathau o gymorth a gafodd teuluoedd

Yn yr arolwg ar-lein, gofynnwyd i'r teuluoedd ddisgrifio'r cymorth a gawsant. Dadansoddwyd eu hymatebion penagored, ac yna fe'u codiwyd yn themâu. Dangosir y themâu hyn yn y tabl isod.

**Tabl 1: Ymatebion wedi'u codio'n thematig lle disgrifir y cymorth a gafodd teuluoedd gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (N=110) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Disgrifiwch y cymorth a gawsoch gan Teuluoedd yn Gyntaf (themâu'n ymwneud â'r math o ddarpariaeth) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gweithiwr cymorth / gweithiwr ieuenctid / gweithiwr teulu | 21 | 19% |
| Cymorth ymddygiadol / Cymorth llesiant emosiynol Hyfforddiant gwydnwch | 20 | 18% |
| Cymorth iechyd meddwl | 10 | 9% |
| Clybiau e.e. clwb chwarae | 10 | 9% |
| Cymorth yn yr ysgol | 10 | 9% |
| Cymorth gydag anghenion ychwanegol / anabledd | 9 | 8% |
| Grwpiau cymorth | 9 | 8% |
| Atgyfeirio ymlaen / help i lenwi ffurflenni / cymorth gyda diagnosis neu asesiad | 8 | 7% |
| Cymorth un-i-un | 7 | 6% |
| Cwnsela / therapi unigol/grŵp | 7 | 6% |
| Cyfeirio / atgyfeirio | 6 | 5% |
| Ymgysylltu rheolaidd | 4 | 4% |
| Gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar | 4 | 4% |
| Y Rhaglen Cylch Diogelwch | 3 | 3% |
| Tîm o Amgylch y Teulu | 2 | 2% |
| Cymorth cynnar | 2 | 2% |
| Grantiau/taliadau uniongyrchol | 2 | 2% |
| Arall | 14 | 13% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 1: Tabl yn dangos y mathau o gymorth a roddodd Teuluoedd yn Gyntaf i deuluoedd. Y cymorth mwyaf cyffredin yw gweithiwr cymorth, gweithiwr ieuenctid neu weithiwr teulu (19%), a chymorth ymddygiadol, cymorth llesiant emosiynol neu gymorth neu hyfforddiant gwydnwch (18%). Soniodd nifer llai o deuluoedd am fathau eraill o gymorth.

Pan ofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddisgrifio'r cymorth a gawsant, dewisodd yr ymatebwyr ateb mewn dwy ffordd wahanol. Er na ddangosir hyn yn y tabl, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin (79% neu 87 o ymatebion) yn cynnwys sylwadau ar ansawdd y cymorth, ac roedd y sylwadau'n awgrymu bod y cymorth, ar y cyfan, yn dda neu ei fod wedi cael effaith gadarnhaol arnynt, neu ei fod wedi'u helpu i ddatrys y problemau a oedd wrth wraidd yr atgyfeiriad. Dewisodd 4% o'r ymatebwyr (4 ymateb) ddweud eu bod wedi cael profiad gwael.

Mewn sylwadau eraill, nodwyd y mathau o gymorth a gafodd yr ymatebwyr (yn unol â chwestiwn yr arolwg). Y mathau mwyaf cyffredin oedd gweithgareddau cymorth ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau ymddygiadol y plentyn, cymorth llesiant emosiynol ar gyfer y rhieni neu'r plentyn, neu gymorth a oedd yn anelu at wella gwydnwch (ar gyfer y rhieni fel arfer). I raddau llai, dywedodd yr ymatebwyr eu bod wedi cael cymorth iechyd meddwl, yn cynnwys cael eu hatgyfeirio at CAMHS (sef Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc).

Dywedodd cyfran debyg o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cyswllt â gweithiwr cymorth, a soniwyd yn aml am ansawdd da'r cymorth.

> "Bu'r [gweithiwr cymorth] yn hanfodol yn ystod y dyddiau cynnar pan oeddem yn ceisio cael help ar gyfer fy merch hynaf yn ystod y cyfnod clo yn 2021. Fe ddaeth hi o hyd i ddeunyddiau ar gyfer helpu i reoli ymddygiad ac emosiynau, a helpodd gyda ffurflenni'r Lwfans Byw i'r Anabl. Hebddi, byddai fy iechyd meddwl ar chwâl ac wn i ddim beth fyddai hanes fy merch."

Soniwyd yn anamlach am fathau eraill o gymorth; er, roedd y mathau hyn yn dal i fod yn amlwg. Roeddynt yn cynnwys atgyfeirio ymlaen, cymorth i lenwi ffurflenni, a chymorth gydag asesiad neu ddiagnosis. Cafodd cyfran debyg o deuluoedd gymorth yn yr ysgol a chymorth a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion ychwanegol / anabledd.

Gofynnwyd eto i'r teuluoedd a gymerodd ran yn y cyfweliadau sut fath o gymorth a gawsant, a gofynnwyd iddynt ymhelaethu ar yr ymateb a roddasant yn yr arolwg ar-lein. Yn achos cyfran fawr o'r rhieni a gafodd eu cyfweld, daeth yn amlwg fod ganddynt blant a oedd wedi cael diagnosis, neu a oedd yn y broses o gael diagnosis, ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Yn aml, ystyriwyd bod yr anghenion ychwanegol hyn wedi sbarduno'r teuluoedd i gael cymorth gan Teuluoedd yn Gyntaf ac mewn mannau eraill. Roedd nifer ohonynt wedi treulio blynyddoedd lawer yn delio ag ymddygiad mwyfwy heriol eu plant cyn

iddynt eu hatgyfeirio eu hunain, neu cyn iddynt gael eu hatgyfeirio, at Teuluoedd yn Gyntaf.

> “Roedd fy merch yn cael anhawster mawr yn ei hysgol gynradd flaenorol. Daeth yn amlwg dros amser fod ganddi anghenion dysgu ychwanegol, o bosibl. Roeddem yn cael llawer o gyfarfodydd gyda’r ysgol oherwydd y ffordd roedd hi’n ymddwyn yn yr ysgol – rhoddodd y gorau i siarad a dechreuodd ddangos ymddygiadau awtistig.”

> “Mae ganddo lawer o gyflyrau, felly mae ei anghenion yn eithaf cymhleth. Mae ein cysylltiad â Teuluoedd yn Gyntaf wedi deillio o’i anghenion a’r math o gymorth y mae ei angen.”

## 4.2. Canfyddiadau am Teuluoedd y Gyntaf

Roedd y mwyafrif o’r rhieni a gymerodd ran yn y cyfweliadau yn hapus eu bod wedi cael cyfle i gael cymorth, oherwydd yn aml roeddynt wedi dechrau cymryd camau i geisio cymorth eu hunain. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y rhai a oedd wedi cael anhawster i gael cymorth gan ffynonellau eraill, megis trwy gyfrwng ysgolion eu plant.

Yn achos y teuluoedd hynny a oedd yn llai hapus eu bod wedi cael cymorth trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf, yn aml roeddynt wedi bod mewn cysylltiad â’r rhaglen o’r blaen (sawl blwyddyn yn ôl, mewn ambell achos), ond nid oedd y cyswllt hwnnw wedi arwain at gymorth, neu rhoddwyd cymorth cyfyngedig yn unig iddynt. Mewn gwirionedd, nid oedd y rhieni hyn yn credu y byddai Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu unrhyw gymorth o gwbl (neu unrhyw gymorth defnyddiol), ond fe wnaethant barhau i dderbyn y cymorth ac ymhél ag ef.

> “Buom mewn cysylltiad â Teuluoedd yn Gyntaf yn y gorffennol. Ond yna, daeth COVID, ac ni fu’n llwyddiannus iawn. Roedd y pethau y gallent eu gwneud yn eithaf cyfyngedig ar y pryd. [...] Nid oeddwn yn obeithiol iawn o gofio nad oedd y trefniant wedi bod yn llwyddiannus iawn y tro cyntaf; ond yr eildro, cawsom weithiwr cymorth gwahanol ac roedd hi’n wirioneddol wych.”

Mewn lleiafrif o achosion, fe wnaeth diffyg dealltwriaeth o’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf beri i rieni ddrysu rhyngddi â’r gwasanaethau cymdeithasol.

> “Pan glywais am y rhaglen y tro cyntaf, roeddwn yn meddwl ei bod yn gysylltiedig â’r gwasanaethau cymdeithasol. “O na”, meddwn wrthyf fy hun. Ond pan wnes i gyfarfod â’r gweithiwr a phan esboniodd beth oedd hi’n ei wneud, roeddwn yn hapus.”

## 4.3. Hyblygrwydd y cymorth

Yn ystod y cyfweliadau gyda'r teuluoedd, gofynnwyd i'r cyfweleion gyflwyno adborth ar hyblygrwydd y cymorth a gawsant. Mewn perthynas â hyblygrwydd, deilliodd tair prif thema o'r trafodaethau hyn – sef:

- modd y cymorth
- amseru'r cymorth
- teilwra'r cymorth ar sail anghenion ac amgylchiadau unigol

### 4.3.1. Modd y cymorth

Gofynnwyd i'r rhieni a gawsant ddewis sut i gael y cymorth, a gofynnwyd a wnaethant fynychu rhaglenni cymorth ar-lein, wyneb yn wyneb, neu mewn ffordd arall. Ac eithrio rhai profiadau yn ystod y pandemig, pan nad oedd cymorth wyneb yn wyneb ar gael, ar y cyfan dywedodd y cyfweleion eu bod wedi cael dewis sut i gael y cymorth, a bod yr opsiynau a gynigwyd yn addas.

> "Maent yn cynnig y 2 opsiwn ac rydych yn dewis yr 1 mwyaf addas. Maent yn delio â llesiant wyneb yn wyneb, a hefyd [ar-lein]. Felly, mae gennych ddewis – mae hynny'n beth da, oherwydd nid wyf eisiau mynd allan a chymdeithasu gyda phobl eraill. Gwell gennyf wneud pethau ar-lein."

### 4.3.2. Amseru'r cymorth

Mewn rhai achosion, ni chafodd y cymorth ei amseru mewn modd a oedd yn addas i'r rhieni. Oherwydd eu hymrwymiadau gwaith, cafodd rhai rhieni anawsterau i fynychu dosbarthiadau rhianta (a drefnwyd rhwng 9-5 o'r gloch ar ddiwrnodau'r wythnos); a hefyd, pe baent yn canslo sesiwn neu'n peidio â mynychu sesiwn, roeddynt yn ofni y byddai hynny'n arwain at dynnu'r cymorth yn ôl. Cafodd rhieni eraill anawsterau i drefnu cwrs dwy awr o hyd o amgylch eu cyfrifoldebau gofal plant.

> "Gan fod popeth yn cael ei gynnal ar ryw ddyddiad arbennig ac ar ryw adeg arbennig, ni chafwyd unrhyw hyblygrwydd mewn gwirionedd. Rydw i'n credu fy mod wedi newid fy niwrnod gwaith er mwyn imi allu mynd, oherwydd roeddwn yn ofni y byddent yn rhoi'r gorau i gynnig yr help pe bawn yn dweud 'na' o hyd."

> "Nid wyf yn credu y gellid bod wedi cynnal sesiwn fyrrach, ond roedd hi'n anodd i'r 2 ohonom ddod o hyd i amser i eistedd i lawr a chymryd rhan, gyda'r plant yn dod adref o'r ysgol ac ati. Ond wn i ddim sut y mae modd osgoi hynny."

Yn achos y rhieni a gafodd sesiynau cwnsela, dywedodd rhai ohonynt fod yr apwyntiadau braidd yn anhyblyg – hynny yw, byddai slotiau amser penodol yn cael eu cynnig yn hytrach na bod yr opsiynau'n cael eu teilwra ar sail argaeledd y rhieni. Ond ni fyddai'r apwyntiadau hyn yn cael eu hanrhydeddu gan y cwnselwyr bob amser, neu byddent yn rhedeg mor hwyr nes peri i'r rhieni golli sesiynau gan fod yn rhaid iddynt fynd i ddelio ag ymrwymiadau eraill.

> "Yr unig siomedigaeth a gefais gyda'r cwnsela [...] oedd fy mod yn cael amser penodol ar gyfer y sesiwn, ond weithiau byddai pethau'n rhedeg hanner awr [yn hwyr]. Os oedd y sesiwn wedi cael ei threfnu ar gyfer 2 o'r gloch, er enghraifft, ac os oedd pethau'n rhedeg yn hwyr, ni allwn gymryd yr alwad am 2.30 o'r gloch oherwydd roedd yn rhaid imi fynd i nôl y plant o'r ysgol. Felly roedd hynny braidd yn anhwylus. Rydw i'n sylweddoli bod problemau'n gallu codi, ond fe ddigwyddodd hyn ddwywaith. Ac yna, gan fy mod wedi colli'r sesiwn gwnsela olaf, ni wnaethant gysylltu'n ôl. Efallai eu bod yn brin o adnoddau – wn i ddim. [...] Ond yn fy marn i, ni chefais brofiad gwych gyda'r math hwnnw o gwnsela."

### 4.3.3. Teilwra'r cymorth

Er bod y mwyafrif o'r cyfweleion yn fodlon â'r cymorth a oedd ar gael, soniwyd am rai achosion pan na fu'r cymorth a gynigiwyd yn ddigon hyblyg i weddu i anghenion y plentyn. Cysylltwyd y broblem hon â chanfyddiadau y tynnwyd sylw atynt eisoes – sef nad oedd y gweithwyr cymorth, o angenrheidrwydd, yn gyfarwydd â'r holl gymhlethdodau sy'n perthyn i niwroamrywiaeth, ynghyd â chanfyddiad bod Teuluoedd yn Gyntaf yn ceisio dod o hyd i gymorth a oedd yn bodoli eisoes ac a fyddai'n gweddu i'r amgylchiadau, yn hytrach na theilwra gwasanaethau cymorth ar sail anghenion y defnyddwyr. Er enghraifft, soniodd 1 rhiant am ddwy her hollbwysig, sef: diffyg dewis ac argaeledd mewn perthynas â darparwyr gofal seibiant, a phenderfyniad y cyngor lleol i beidio â chomisiynu unrhyw ddarparwr ychwanegol. Arweiniodd hyn at oedi mawr cyn i'r rhiant gael cymorth.

> "Pan gafodd y [cyllid] ei gymeradwyo, roedd y wefan yn dweud y byddech yn cael rhestr o ddarparwyr. Ar fy nghyfer i, 1 darparwr yn unig a oedd ar gael. Nid oedd yna unrhyw opsiwn arall. [...] Cysylltais â'r [gwasanaeth a gomisiynwyd] a dywedais fod y fenyw hon yn awyddus i gofrestru fel darparwr [...], a thrwy hynny

y gallwn barhau i'w defnyddio. Llenwodd y fenyw y ffurflenni, cafodd sgwrs gyda'r [gwasanaeth a gomisiynwyd], a gwnaeth bopeth y gofynnwyd iddi ei wneud. Ond yna, cafodd wybod nad oedd [y cyngor] yn derbyn unrhyw ddarparwyr eraill ar y pryd."

## 4.4. Cyfathrebu

Er bod y dulliau cyfathrebu a roddwyd ar waith yn ystod asesiad y Fframwaith Asesu wedi cael adborth cadarnhaol ar y cyfan, soniwyd am rai profiadau cymysg yn syth ar ôl cynnal yr asesiad.

Mewn achosion pan na chynigiwyd cymorth neu pan benderfynodd y teuluoedd beidio â derbyn y cyngor a gynigiwyd, priodolwyd hynny'n aml i gyfathrebu gwael gyda'r asesydd yn ystod yr asesiad cychwynnol, yn hytrach nag i ddiffyg angen. Roedd y rhieni hyn o'r farn na fu modd iddynt gyfleu eu hamgylchiadau'n effeithiol gerbron y gweithiwr cymorth, naill ai oherwydd diffyg cwestiynau addas neu oherwydd diffyg dealltwriaeth ar ran yr asesydd, yn ogystal â diffyg dealltwriaeth ar ran y rhieni ynglŷn â'r math o gymorth y gallai Teuluoedd yn Gyntaf ei gynnig.

Nid aethpwyd ati bob amser i holi am ddewisiadau cyfathrebu'r rheini ar y cychwyn, gan anwybyddu niwroamrywiaeth ac arwain at broblemau wrth fwrw ymlaen â'r broses. Dywedodd rhieni eraill fod y cyfathrebu'n gallu bod yn anghyson, gan ddibynnu ar yr unigolion a oedd yn cyfathrebu, a bod y cyfathrebu'n gallu amrywio ar ôl i weithwyr cymorth eraill ysgwyddo achosion.

> "Mae'n dibynnu ar y cynghorydd. Roedd 1 ddynes yn dda, roedd hi'n deall pam roeddwn yn rhwystredig a dywedodd y byddai'n fy helpu. [Ond] bu'n rhaid iddi gymryd absenoldeb hirdymor, felly diflannodd y cymorth yn raddol. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd ffordd y ddynes olaf o gyfathrebu yn warthus. Byddai'n anfon negeseuon ataf, ac roedd hi'n gwybod fy mod yn gweithio sifftiau a bod fy rota'n newid drwy'r adeg, ond byddai'n dod draw i'r tŷ heb unrhyw rybudd o gwbl."

> "Cefais ffurflen i'w llenwi. Mae gennyf ddyslecsia, felly nid wyf yn hoff o lenwi ffurflenni. Pe baech yn gofyn beth yw fy hoff ffordd o gyfathrebu, ni fuaswn yn dewis llenwi ffurflenni. Dyna rywbeth cwbl elfennol. Mae gorfod llenwi amryfal ffurflenni yn deimlad mor rhwystredig, ac rydych yn gofyn i chi eich hun 'pam na wnewch chi gadw rhywfaint o wybodaeth neu sicrhau bod gennych fynediad at ei

> broffil yn rhywle, fel na fydd yn rhaid imi gyflwyno'r 1 wybodaeth dro ar ôl tro?'. Fel rhiant [niwroamrywiol], dyma 1 o'r pethau mwyaf rhwystredig erioed, oherwydd rhaid ichi ei wneud ar gyfer pob gwasanaeth. [...] Felly, rydw i'n credu bod eu dull cyfathrebu'n warthus. Pam na fyddent wedi cael sgwrs gyda mi? Siarad gyda mi am bethau, yn hytrach na pheledu e-byst ataf a gobeithio fy mod am eu darllen."

Mewn 1 enghraifft, yn sgil salwch hirdymor 1 gweithiwr cymorth bu'n rhaid i'r rhiant anfon e-byst mynych yn mynd ar drywydd help, cafwyd oedi mawr rhwng y cyswllt cychwynnol ac unrhyw gyswllt dilynol, ac fe ysgwyddwyd yr achos gan weithiwr cymorth gwahanol a oedd yn anghyfarwydd ag amgylchiadau'r plentyn.

Fodd bynnag, canmolwyd cyfathrebu parhaus y gweithwyr cymorth dros oes y cymorth; yn wir, llwyddwyd i ragori ar y disgwyliadau yn aml, o ran mynychder ac argaeledd y cyfathrebu.

> "Byddai'n anfon neges ataf yn gofyn 'ydych chi ar gael ar yr amser a'r amser?'. Byddai'n fy ffonio pa bryd bynnag y byddai ganddi ddiweddariad neu unrhyw beth i'w ddweud. Ac roeddwn innau'n gallu ei ffonio hithau yn yr un modd. Roedd y cyfathrebu'n wirioneddol dda."

# 5. Ymwybyddiaeth o Teuluoedd yn Gyntaf

## 5.1. Safbwyntiau rhanddeiliaid

Yn ôl y rhanddeiliaid, nid yw teuluoedd yn gyfarwydd iawn â brand y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Awgrymwyd bod teuluoedd, yn aml, yn cael gafael ar wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf heb adnabod enw'r rhaglen o angenrheidrwydd, oherwydd yn aml gellir darparu cymorth trwy gyfrwng gwahanol ddarparwyr, fel Barnardo's a Gweithredu dros Blant. O ganlyniad, nid yw hunaniaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei hadnabod yn gyson ledled Cymru. Ymhellach, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y gwahanol ffyrdd a ddefnyddir i ddarparu Teuluoedd yn Gyntaf ledled Cymru yn ei gwneud hi'n anos cyflwyno model clir ac adnabyddadwy o'r hyn y gall y rhaglen ei gynnig, gan effeithio o bosibl ar ymwybyddiaeth pobl o'r rhaglen.

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod teuluoedd yn fwy cyfarwydd â sefydliadau'r trydydd sector na Teuluoedd yn Gyntaf. Felly, pan mae teuluoedd angen cymorth, efallai eu bod yn fwy tebygol o droi at sefydliadau fel Barnardo's neu Gweithredu dros Blant, yn hytrach na'u hawdurdod lleol.

Myfyriodd 1 rhanddeiliad ar ei brofiad ei hun, gan ddweud: "Pan oeddwn yn magu fy mhlant, byddai help gan Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn ddefnyddiol, ond nid oeddwn yn gwybod am fodolaeth y rhaglen... Ni fuaswn wedi meddwl am y peth, ond efallai y buaswn wedi meddwl am un o sefydliadau'r trydydd sector."

Er bod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynghylch y ffaith nad yw rhai teuluoedd yn sylweddoli bod modd i'w hawdurdod lleol gynnig cymorth trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf, roedd y mwyafrif o'r farn nad yw'n hollbwysig i deuluoedd adnabod y rhaglen yn ôl ei henw. Yn eu tyb nhw, y peth pwysicaf yw bod rhieni'n cael help – ni waeth be fo'r brand. Fel dywedodd 1 rhanddeiliad: "Nid yw teuluoedd yn malio sut y cewch eich ariannu, nid eu problem nhw yw hynny. Yr unig beth y maen nhw ei eisiau yw gwasanaeth neu weithiwr allweddol i'w helpu."

### 5.1.1. Gwahaniaethau ymddangosiadol rhwng proffiliau cyhoeddus Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg

Roedd y rhanddeiliaid yn awyddus i sôn am y gwahaniaethau rhwng y ddwy raglen – yn arbennig, proffiliau gwahanol Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'r Deg. Dywedwyd bod y cyhoedd yn llawer mwy ymwybodol o Dechrau'n Deg o gymharu â Teuluoedd yn Gyntaf, er bod y ddwy raglen yn rhaglenni ymyrraeth gynnar hollbwysig. Nododd y rhanddeiliaid

fod hyn yn digwydd yn rhannol oherwydd targedau strwythuredig y rhaglen Dechrau'r Deg, y cyllid ychwanegol a gaiff, a'i statws fel 1 o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n arwain at fwy o amlygrwydd gwleidyddol. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn fod y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gweld yn unig fel rhan graidd o ddarpariaethau awdurdodau lleol, a bod hyn yn cyfrannu at roi llai o sylw i'r rhaglen: "Mae Dechrau'n Deg yn cael llawer mwy o sylw na Teuluoedd yn Gyntaf. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn fara menyn i awdurdodau lleol. Nid bathodyn disglair i'w wisgo gan fod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud y gwaith... Mae targedau... a disgwyliadau mawr o du gweinidogion... yn perthyn i Dechrau'n Deg."

Hefyd, nododd y rhanddeiliaid fod canolfannau Dechrau'n Deg, a welir ar lawr gwlad, yn ychwanegu at amlygrwydd y rhaglen. Yn ôl 1 rhanddeiliad, mewn rhai ardaloedd mae canolfannau Dechrau'n Deg yn dirnodau enwog, ac maent yn rhan o sgyrsiau beunyddiol rhieni: "Pan oedd fy mhlant yn ifanc, fe fyddech yn siarad gyda grwpiau ac yn clywed pethau fel 'Ydych chi'n mynd i Dechrau'n Deg yn nes ymlaen?' neu 'Rydw i'n cael gwasanaeth carlam ar gyfer iaith a lleferydd gan fy mod yn rhan o Dechrau'n Deg'. Mae pobl yn gallu gweld canolfannau Dechrau'n Deg yn eu hardal. Pan fyddaf hwnt ac yma mewn ardaloedd sydd wedi'u hesgeuluso, yr unig liw sydd i'w weld weithiau mewn pentrefi yw canolfannau Dechrau'n Deg."

## 5.2. Safbwyntiau teuluoedd

Ymhlith y rhieni a gymerodd ran yn y cyfweliadau, ymddengys fod eu dealltwriaeth o beth yn union oedd Teuluoedd yn Gyntaf – naill ai cyn eu hatgyfeiriad neu, yn achos hunanatgyfeiriadau, cyn iddynt chwilio am gymorth eu hunain – braidd yn gymysg. Mewn ambell achos, dim ond ar ôl inni gysylltu â nhw yn gofyn am adborth ar gyfer yr arolwg y daethant i wybod eu bod wedi cael cymorth trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf.

> "Nid oeddwn wedi clywed am y rhaglen hyd nes imi lenwi'r arolwg. [...] Roeddwn yn credu mai'r Cyngor a oedd yn darparu'r cymorth, a'i fod yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac ati."


Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr a fyddent wedi elwa ar ddeall tarddiad y cymorth, mynegwyd safbwyntiau amrywiol. Roedd rhai o'r farn nad oedd tarddiad y cymorth yn bwysig, cyn belled â'i fod yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion. Ond roedd eraill o'r farn eu bod wedi dibynnu ar y gweithwyr cymorth i'w hysbysu ynglŷn ag amrediad llawn y cymorth a oedd ar gael trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd rhai'n bryderus eu bod wedi colli cyfle i gael cymorth – hynny yw, cymorth a allai fod wedi bod yn fwy addas na'r cymorth a

gawsant, neu gymorth y byddent wedi elwa arno yn ychwanegol at y cymorth a gynigiwyd iddynt. Mewn 1 achos, symudodd teulu i ardal awdurdod lleol arall heb wybod bod cymorth Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddarparu mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol ardaloedd. Nid oedd aelodau'r teulu'n gwybod y byddai'n rhaid iddynt ddechrau'r broses o'r dechrau ar ôl symud i ardal arall a oedd yn darparu cymysgedd gwahanol o wasanaethau a gomisiynwyd.

Yn yr arolwg ar-lein, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn gwybod bod y cymorth a gawsant wedi'i ddarparu gan Teuluoedd yn Gyntaf. Dywedodd mwy na dwy ran o dair o'r ymatebwyr (69%) eu bod yn gwybod mai Teuluoedd yn Gyntaf a oedd yn gyfrifol am ddarparu'r cymorth. Fel y nodwyd eisoes yn yr adran 'cyfyngiadau', mae'n bosibl bod y bobl a lenwodd yr arolwg hwn yn perthyn i deuluoedd a oedd yn ymwybodol iawn o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Nid oedd 12% yn gwybod mai'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a oedd yn gyfrifol am ddarparu'r cymorth. Yn achos y bobl hyn, roeddynt yn credu bod y cymorth wedi cael ei ddarparu gan y cyngor lleol (5 allan o 14), y gwasanaethau cymdeithasol (4 allan o 14), neu'r gwasanaeth a gomisiynwyd (3 allan o 14).

**Ffigur 3: A oeddech yn gwybod bod y cymorth a gynigiwyd ichi neu'r cymorth a gawsoch yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf'? (N = 115) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**




Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Ffigur 3: siart far yn dangos bod 69% o'r ymatebwyr yn gwybod bod y cymorth a gynigiwyd iddynt, neu'r cymorth a gawsant, yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf. Nid oedd 12% yn gwybod hyn. Dywedodd 19% eu bod yn ansicr neu nad oeddynt yn cofio.

## 5.3. Ymchwil ben desg: brand ac amlygrwydd Teuluoedd yn Gyntaf

Mae canfyddiadau'r ymchwil ben desg hefyd yn dangos diffyg eglurder ynglŷn â beth yn union yw Teuluoedd yn Gyntaf a'r hyn a gynigir gan y rhaglen.

### 5.3.1. Amlygrwydd mewn chwiliadau Google

Un o'r ymarferion cyntaf yr aethpwyd i'r afael ag ef er mwyn deall amlygrwydd Teuluoedd yn Gyntaf oedd chwilio ar Google am 'help i deuluoedd / family help' fesul pob awdurdod lleol (er enghraifft 'help i deuluoedd / family help [enw'r sir]').

Mewn ambell achos, cafodd tudalennau swyddogol 'Teuluoedd yn Gyntaf' awdurdodau lleol gryn amlygrwydd. Er enghraifft, ymddangosodd tudalen Teuluoedd yn Gyntaf Torfaen yn gyntaf yn y rhestr canlyniadau, ac roedd yn cynnwys disgrifiad clir o'r cymorth a oedd ar gael. Yn yr un modd, wrth gynnal chwiliad ar gyfer Ynys Môn, dychwelwyd at dudalen 'Teulu Môn' yr awdurdod lleol – sef enw lleol cyngor Ynys Môn ar ei wasanaeth atal ac ymyrraeth gynnar.

Ond mewn ardaloedd eraill, roedd canlyniadau'r chwiliad yn llai uniongyrchol. Er enghraifft, mewn ambell achos, arweiniodd y chwiliad at Dewis Cymru (cyfeiriadur llesiant) yn hytrach na safle'r awdurdod lleol, ac roedd rhai o'r dolenni wedi torri. Yn yr un modd, roedd rhai o'r canlyniadau cyntaf yn ymwneud â sefydliadau'r trydydd sector, megis Barnardo's.

Yn yr achosion hyn, pe bai rhieni'n chwilio ar-lein, efallai na fyddent bob amser yn glanio'n syth ar dudalen y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' (neu gymorth cynnar cyfwerth). Yn yr un modd, ar wefannau ambell awdurdod lleol ni roddwyd amlygrwydd i'r term 'Teuluoedd yn Gyntaf' (neu gymorth cynnar cyfwerth) yn y canlyniadau chwilio. Yn hytrach, roedd yr wybodaeth yn yr achosion hyn yn cynnwys gwybodaeth eithaf cyffredinol – er enghraifft, manylion am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Ond yn gyffredinol, roedd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol dudalen ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf (neu help cyfwerth), a rhoddwyd lle amlwg i'r dudalen honno mewn chwiliadau Google ('help i deuluoedd / family help [enw'r sir]').

Mewn achosion pan nad arweiniodd y chwiliad Google at ganlyniadau ystyrlon, mae'n anodd dweud a yw hyn yn effeithio ar allu teuluoedd i gyrraedd y cymorth iawn. Dywedodd y rhanddeiliaid fod nifer o awdurdodau lleol yn rhoi dull 'dim drws anghywir' ar waith, felly caiff teuluoedd eu hailgyfeirio at wasanaethau priodol hyd yn oed pan eu bod yn cysylltu â'r gwasanaeth anghywir y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae'n deg tybio mai po hawsaf yw hi i

ganfod gwybodaeth, po fwyaf tebygol yw hi y bydd teuluoedd sy'n ceisio cymorth yn ymhél â gwasanaethau cymorth cynnar.

### 5.3.2. Llywio trwy wefannau awdurdodau lleol

Profwyd pa mor amlwg yw gwybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf (neu wasanaethau cymorth cynnar cyfwerth) trwy chwilio am 'help i deuluoedd / family help' ar wefannau pob awdurdod lleol.

Gwelwyd cryn amrywio o wefan i wefan o ran pa mor hawdd yw cyrraedd gwybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf. Mae oddeutu hanner yr awdurdodau lleol yn cyflwyno gwybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf (neu gymorth cynnar) mewn lle amlwg oddi mewn i ddewislenni eu gwefannau neu ar dudalennau glanio eu gwasanaethau i deuluoedd.

Mewn ambell achos, ceir trywydd llywio clir. Yng Nghaerffili, er enghraifft, trwy gyfrwng 'cymorth i deuluoedd' yr awdurdod lleol, cysylltir hyn â 'sut i gael help a chymorth ar gyfer plant a theuluoedd'. Yna, caiff yr adran hon ei chyfeirio at dudalen y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a hyd yn oed at is-dudalennau lle ceir rhagor o wybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae gwefan Sir Ddinbych yn enghraifft arall o wefan sy'n cynnig trywydd llywio clir. Caiff 'Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg' eu grwpio dan ddewislen sy'n ymwneud â gofal plant a rhianta, ac mae tudalen y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig dolen hunanatgyfeirio a rhif cyswllt. Ar y ddewislen gofal plant a rhianta, ceir rhestr o 'grwpiau, gweithgareddau a digwyddiadau' a gaiff eu rhedeg gan Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Ar y ddwy wefan hyn, lleolir gwybodaeth hollbwysig – megis pwy sy'n gymwys, sut fath o gymorth a gynigir, a sut i gael gafael ar gymorth – glic neu 2 yn unig oddi wrth y dudalen gartref (pa un a ddewisir defnyddio'r swyddogaeth 'chwilio' neu lywio o'r dudalen gartref).

Mewn gwrthgyferbyniad, ar wefannau rhai awdurdodau lleol eraill, gwaith anos o lawer yw llywio trwy'r wefan er mwyn dod o hyd i wybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf (neu gymorth cynnar).

Mewn rhai achosion, mae tudalennu gwe 'cymorth cynnar' yn canolbwyntio ar fentrau eraill, megis Dechrau'n Deg, ac nid ydynt yn cynnwys fawr ddim gwybodaeth am y cymorth cyffredinol a gynigir trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf.

### 5.3.3. Brand a hunaniaeth

Fel y trafodwyd eisoes, nid oes gan Teuluoedd yn Gyntaf hunaniaeth unffurf (ar gyfer y cyhoedd) ledled Cymru trwy gyfrwng awdurdodau lleol. Efallai y defnyddir gwahanol enwau (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf, Cymorth Cynnar, Porth i Deuluoedd).

Gwelwyd bod oddeutu hanner yr awdurdodau lleol yn defnyddio enw a logo 'Teuluoedd yn Gyntaf' ar eu gwefannau. Er enghraifft, mae Blaenau Gwent yn defnyddio'r enw 'Teuluoedd yn Gyntaf' ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n arddangos logo Teuluoedd yn Gyntaf ar y dudalen. Mae'r dull enwi hwn yn cyd-fynd â gwaith brandio Llywodraeth Cymru.

Mae'r awdurdodau sy'n weddill yn brandio'u gwasanaethau cymorth cynnar mewn ffyrdd gwahanol – weithiau, ni sonnir am 'Teuluoedd yn Gyntaf' o gwbl ar dudalennau cyhoeddus. Mae rhai awdurdodau lleol yn brandio'u darpariaethau cymorth cynnar o dan 1 ambarél (fel 'cyngor a chymorth i deuluoedd'), sef 'siop 1 stop' ar gyfer cymorth cynnar.

Er bod dull brandio anghyson yn ei gwneud hi'n anos asesu cyrhaeddiad y rhaglen a chodi ymwybyddiaeth ohoni ar lefel genedlaethol, gellir dadlau bod rhai termau lleol, fel 'cymorth cynnar', yn fwy ystyrlon a hygyrch i deuluoedd sy'n ceisio cymorth. Dyma ryw fath o gyfaddawd rhwng cysondeb cenedlaethol ar y naill law a pherthnasedd lleol ar y llaw arall.

Hefyd, mae'n werth nodi bod gan rai awdurdodau lleol dudalennau gwe ar wahân ar gyfer y Tîm o Amgylch y Teulu, ond nid ar gyfer rhaglen ehangach Teuluoedd yn gyntaf.

Mae'n bwysig nodi nad canfod y 'dull gorau' oedd nod yr ymarfer hwn. Efallai fod yn rhaid brandio'r math hwn o gymorth mewn ffordd sy'n cyd-fynd â strwythur mewnol tîm Teuluoedd yn Gyntaf yr awdurdod lleol.

Ond mae'r ymarfer hwn yn dweud 1 peth wrthym: pe bai rhieni a glywodd am 'Teuluoedd yn Gyntaf' ar y cyfryngau neu ar lafar gwlad yn chwilio am wybodaeth ynglŷn â'r 'gwasanaeth' ar wefan yr awdurdod lleol, ni fyddent yn dod o hyd i wybodaeth o'r fath pe bai'r awdurdod lleol hwnnw wedi brandio'r cymorth ar ffurf rhywbeth arall. Trwy roi hyblygrwydd i awdurdodau lleol, gallant deilwra'r rhaglen ar sail eu strwythur mewnol; ond mae'r hyblygrwydd hwn hefyd yn cyfrannu at ddiffyg brand a hunaniaeth ar gyfer y rhaglen ledled y wlad, yn ogystal â diffyg potensial i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen mewn ffordd gydlynol ledled y wlad.

Ymhellach, mae'n werth nodi bod awdurdodau lleol sy'n tueddu i ddefnyddio'r teitl Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer y rhaglen hefyd yn creu'r cysylltiad â'r ffaith ei bod yn

rhaglen genedlaethol. O'r herwydd, mae'r awdurdodau hyn yn tueddu i nodi hefyd bod y rhaglen yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

### 5.3.4. Un pwynt mynediad

Fel y nodwyd eisoes, er nad yw rhai awdurdodau lleol yn rhestru Teuluoedd yn Gyntaf, efallai eu bod yn rhestru gwasanaethau 'cymorth cynnar' cyfwerth (sef gwasanaethau a ariennir trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf ond na chânt eu brandio fel gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf). Mae rhai o'r rhain yn dangos bod gan yr awdurdod lleol 1 'Porth' neu 'Ddrws Ffrynt'. Mae Porth Teuluoedd Caerdydd yn fodel o'r fath.

### 5.3.5. Gwahaniaethau rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'r Deg

Mae'n werth nodi'r gwahaniaethau a welir ar wefannau rhai awdurdodau lleol rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Mewn rhai awdurdodau lleol, ceir tudalennau ar wahân ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac yn aml lleolir y tudalennau hynny ochr yn ochr â'i gilydd yn strwythur y wefan. Er enghraifft, mae gan Sir Ddinbych brif dudalen lanio sy'n rhestru 'Teuluoedd yn Gyntaf' a 'Dechrau'n Deg' fel 2 opsiwn ar wahân, a cheir gwybodaeth am bob un. Yn yr un modd, nodir yn benodol ar y dudalen we hon fod Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 25 oed a bod cymorth ar gael i bob teulu sydd angen help (hynny yw, pwysleisir bod Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cymorth cyffredinol). Yn yr achos hwn, gall rhieni ddeall yn rhwydd pa wasanaeth y maent yn gymwys ar ei gyfer, oherwydd mae'r safle'n cyfleu'n glir bod Dechrau'n Deg yn rhaglen benodol (ar gyfer plant iau mewn ardaloedd penodol), tra mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cymorth cyffredinol i deuluoedd sydd angen cymorth. Rhywbeth arall nodedig y daethpwyd o hyd iddo oedd y ffaith bod nifer o wefannau awdurdodau lleol yn sôn llawer iawn am gymorth Dechrau'n Deg, ond eu bod yn sôn llawer llai am Teuluoedd yn Gyntaf. Ond ar sail y cyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid, gwyddom fod Dechrau'n Deg yn rhaglen a adnabyddir yn eang, yn rhannol gan ei bod yn ariannu gofal plant rhan-amser (12.5 awr yr wythnos) ar gyfer plant 2-3 oed. Mae'n bosibl bod hyn yn rhoi'r argraff mai Dechrau'n Deg yw'r prif lwybr (neu'r unig lwybr) ar gyfer cymorth i deuluoedd. Yn arbennig, os oes gan deuluoedd blant hŷn (hynny yw, plant sy'n hŷn na throthwy Dechrau'n Deg), i bob pwrpas gallant deimlo nad oes unrhyw wasanaeth ar gael iddynt.

Mae hyn yn codi cwestiwn pwysig – sef a yw awdurdodau lleol yn cyfleu bod help ar gael i bob teulu (hynny yw, help cyffredinol).

### 5.3.6. Amlygrwydd gwasanaethau a gomisiynir gan Teuluoedd yn Gyntaf

Aethpwyd ati i adolygu agwedd arall hefyd – sef a yw pob awdurdod lleol yn rhestru'r gwasanaethau neu'r prosiectau penodol sydd ar gael dan Teuluoedd yn Gyntaf. Fel arfer, mae Teuluoedd yn Gyntaf ym mhob ardal yn ariannu amrywiaeth o brosiectau (er enghraifft, dosbarthiadau rhianta, cymorth i ofalwyr ifanc, rhaglenni llesiant emosiynol, cymorth i'r anabl – sef prosiectau a gyflwynir yn aml gan sefydliadau partner).

Mae gwefannau rhai awdurdodau lleol yn nodi sut fath o help y gellir ei gynnig i deuluoedd – er enghraifft, trwy restru rhai prosiectau neu wasanaethau. Ychydig ohonynt yn unig sy'n cyflwyno trosolwg cynhwysfawr o brosiectau; ond mae rhai, fel Caerffili, yn gwneud hyn, gan gyflwyno manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, hyd yn oed. Ar wefan Caerffili ceir tudalen bwrpasol ar gyfer 'prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf' lle ceir trosolwg o bob prosiect a ariennir, ynghyd â chyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn ar gyfer pob un.

Golyga hyn y gall rhieni yng Nghaerffili ddod o hyd i wybodaeth fanwl am rai o'r gwasanaethau a gomisiynir – er enghraifft, grŵp cymorth i blant ag anableddau neu gynllun mentora i bobl ifanc. Yn yr un modd, mae Conwy yn cyhoeddi rhestr o brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf ar ffurf taflen lawrlwythadwy sy'n rhestru prosiectau a ariennir, gydag enw a rhif cyswllt ar gyfer pob un.

Trwy gyflwyno gwybodaeth fanwl o'r fath, gellir cynorthwyo teuluoedd i ddeall yr hyn y gall 'Teuluoedd yn Gyntaf' ei gynnig. Ond mae'n werth nodi bod rhai rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol wedi dweud bod Teuluoedd yn Gyntaf, o dro i dro, yn defnyddio'u harian i alluogi teuluoedd i gael gafael ar brosiectau a ddaw dan raglenni eraill, gan ddibynnu ar anghenion unigol. Serch hynny, pan gyflwynir gwybodaeth fanwl am Teuluoedd yn Gyntaf, nodir yn aml fod y cymorth hwnnw wedi'i deilwra. Er enghraifft, ar wefan Blaenau Gwent nodir y canlynol: 'Mae tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig gwahanol fathau o gefnogaeth yn dibynnu ar yr angen.'

Mewn cyferbyniad, o blith gweddill yr awdurdodau a chanddynt dudalen we bwrpasol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, dim ond disgrifiad cyffredinol o Teuluoedd yn Gyntaf a geir ar y mwyafrif o'r tudalennau hynny.

Hefyd, cafwyd enghreifftiau pan gyflwynodd rhyw awdurdod lleol ddolen ar gyfer prosiectau a ariennir; ond roedd y ddolen wedi torri, gan ddangos bod yr wybodaeth yn hen, o bosibl.

Er bod cyflwyno gwybodaeth fanwl am wasanaethau a gomisiynir yn gallu helpu teuluoedd i ddeall yr hyn a gynigir gan Teuluoedd yn Gyntaf, mae'n bwysig nodi bod unrhyw fynediad at gymorth fel arfer yn cael ei bennu trwy gyfrwng y Fframwaith Asesu ac yn cael ei gydlynu trwy gyfrwng dull Tîm o Amgylch y Teulu. Gall awdurdodau lleol hyrwyddo gwasanaethau a gomisiynir ar-lein er mwyn ategu atgyfeiriadau proffesiynol neu gyfleu i deuluoedd bod help ar gael; ond nid yw hynny, o angenrheidrwydd, yn golygu y gall teuluoedd gael gafael ar y gwasanaethau hyn heb iddynt orfod mynd trwy asesiad. Yn yr un modd, mewn nifer o ardaloedd efallai y bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gweithredu fel pwynt cyswllt/cyfeirio canolog ar gyfer cymorth, yn cynnwys Teuluoedd yn Gyntaf.

### 5.3.7. Sylwadau i gloi ynglŷn â'r ymchwil ben desg

Nid yw'r llwybr gogyfer cael gafael ar gymorth bob amser yn glir. Ar sail ein hadolygiad, gallwn ddod i'r casgliad ei bod hi'n anodd i rieni ddeall sut fath o gymorth cynnar y gallant ei gael. Efallai y bydd yn rhaid iddynt ffonio rhif ffôn generig i gael rhagor o wybodaeth – sef tasg braidd yn frawychus os na sonnir rhyw lawer am gymorth cyffredinol (rhad ac am ddim). Efallai y bydd rhieni eraill yn dibynnu ar argymhellion gan bobl eraill er mwyn cael gwybod pa wasanaethau sydd ar gael. Pan fo'r wybodaeth yn brin, gall help posibl gan Teuluoedd yn Gyntaf (neu gymorth cynnar) fod braidd yn amhendant neu'n aneglur.

Yn yr un modd, efallai y bydd teuluoedd sy'n darllen gwefannau rhai o'r awdurdodau lleol yn gweld bod gwasanaeth 'Teuluoedd yn Gyntaf' (neu wasanaeth cymorth cynnar cyfwerth) yn bodoli, ond efallai na fyddant yn gwybod sut yn union i gael gafael ar yr help, na sut fath o help ydyw.

Mae'n bwysig nodi bod gwefannau rhai awdurdodau lleol hefyd yn cyfeirio at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, sy'n gweithredu weithiau fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer cael gafael ar gymorth Teuluoedd yn Gyntaf. Fel y nodwyd eisoes, roedd yr ymchwil ben desg yn ymwneud yn bennaf â chwilio am dermau cyffredinol fel "help i deuluoedd / family help" a llywio o dudalen gartref pob awdurdod lleol i ddod o hyd i wybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf neu wasanaethau cymorth cynnar cyfwerth, yn cynnwys trwy gyfrwng y dudalen Gwybodaeth i Deuluoedd. Fel y nodwyd eisoes, gwelwyd

anghysondebau yn yr wybodaeth a gyhoeddwyd ynglŷn â Teuluoedd yn Gyntaf, yn cynnwys ar dudalennau Gwybodaeth i Deuluoedd.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn cynnwys rhif cyswllt neu gyfeiriad e-bost ar gyfer eu tîm Teuluoedd yn Gyntaf (neu eu tîm cymorth cynnar). Hefyd, mae rhai awdurdodau lleol, fel Sir Ddinbych, yn cynnig ffurflen hunangyfeirio ar-lein.

Mewn gwrthgyferbyniad, gwelwyd hefyd achosion o awdurdodau lleol sy’n cynnig fawr ddim gwybodaeth am y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf na’r math o help cyffredinol sydd ar gael, gan ddarparu rhif ffôn ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Mewn rhai achosion, efallai fod hyn yn adlewyrchu strwythurau cyflawni lleol, pan leolir timau Teuluoedd yn Gyntaf neu dimau cymorth cynnar o fewn, neu’n agos at, y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ond i deuluoedd sy’n ceisio cymorth, gall sefyllfa o’r fath fod yn aneglur, yn enwedig os nad esbonnir bod pwynt cyswllt y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn hwyluso mynediad at gymorth cynnar anstatudol.

Pan fo pob tudalen we leol yn nodi sut y gall teuluoedd gael gafael ar help (hunanatgyfeiriadau, atgyfeiriadau trwy gyfrwng gweithwyr proffesiynol, ymweld â Chanolfannau Plant Integredig ac ati) a’r gwahanol fathau o help sydd ar gael, mae’n deg tybio y gallai hynny greu llwybr cliriach ar gyfer rhai meysydd (hunanatgyfeiriadau yn arbennig). Ond fel y nododd rhai rhanddeiliaid, gallai hefyd esgor ar broblemau ar gyfer gwasanaeth sydd eisoes dan bwysau mawr.

Hefyd, mae’n werth nodi bod gwefannau nifer o awdurdodau lleol yn sôn am Fframwaith Asesu’r Teulu ar y Cyd, ond nad ydynt yn cyflwyno rhyw lawer o wybodaeth amdano. Ar sail y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid, gwyddom fod rhai awdurdodau lleol o’r farn nad yw’r term hwn yn ‘hawdd ei ddeall’ pan gaiff ei ddefnyddio i ddisgrifio asesiad.

Ymhellach, mae’n werth nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y gallai hyrwyddo Teuluoedd yn Gyntaf yn ehangach arwain at lethu gwasanaethau, yn enwedig pe bai mwy o amlygrwydd yn arwain at gynnydd mawr yn nifer yr atgyfeiriadau, o gofio bod y gwasanaethau eisoes dan bwysau mawr. Trafodir mwy ar y pryderon hyn yn (6.8).

# 6. Heriau o ran cyflawni a chapasiti

## 6.1. Cynnydd cynyddol ac anghenion teuluol mwyfwy cymhleth

Ar sail yr adolygiad o gynlluniau cyflawni awdurdodau lleol, mae'n amlwg bod anghenion teuluoedd yn mynd yn fwyfwy cymhleth. Mae ychwaneg o deuluoedd yn wynebu amryfal heriau sy'n gorgyffwrdd, gan ei gwneud hi'n anos i Teuluoedd yn Gyntaf gynnig cymorth ataliol cyflym ac effeithiol.

Hefyd, mae'r cynlluniau cyflawni'n nodi prinder gwasanaethau arbenigol (sy'n syrthio o fewn y continwwm cymorth), yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, fel plant niwrowahanol. Erbyn hyn, mae nifer o dimau Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig rhyw fath o gymorth i blant niwrowahanol (neu blant yr amheuir eu bod yn niwrowahanol, ond nad ydynt wedi cael diagnosis eto).

Ymhellach, dywedodd rhanddeiliaid fod anghenion teuluol mwyfwy cymhleth yn esgor ar her fawr – rhywbeth sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Yn ôl y rhanddeiliaid, erbyn hyn mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynorthwyo mwy o deuluoedd nag erioed o'r blaen, ac mae nifer cynyddol o deuluoedd angen cynlluniau cymorth gan y Tîm o Amgylch y Teulu. Dywedodd 1 rhanddeiliad: "Gwyddom fod timau Teuluoedd yn Gyntaf yn gweld mwy o bobl nag erioed o'r blaen, bod mwy o bobl yn cael cymorth gan y Tîm o Amgylch y Teulu, a bod cynlluniau ar waith – ond mae'r cefndir yn newid yn barhaus. Fe ddaeth COVID a'r argyfwng costau byw... Mae popeth yn waeth ond mae'r gyllideb wedi aros yn ei hunfan ers oddeutu 10 mlynedd... Mae'r tirlun wedi newid yn fawr... Mae'r darlun yn gymhleth."

Dywedodd y rhanddeiliaid fod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith barhaol ar ddatblygiad plant, yn enwedig mewn meysydd fel iaith a lleferydd, sgiliau cymdeithasol, ac iechyd meddwl, a hefyd mewn perthynas ag anghenion corfforol a meddygol cymhleth eraill. Hefyd, soniodd y rhanddeiliaid am gynnydd yn nifer y *teuluoedd* sy'n cael anhawster â phroblemau iechyd meddwl – nid eu *plant* yn unig. Yn ôl 1 rhanddeiliad: "O'r blaen, magu plant oedd y canolbwynt. Ond nawr, rhaid ystyried magu plant, hwyliau isel, rhoi hwb i hyder... Pan mae teuluoedd yn ymgyflwyno, rydym yn gorfod edrych ar lu o wahanol bethau." Ym marn y rhanddeiliaid, mae'r materion hyn, law yn llaw â chaledi ariannol yn sgil yr argyfwng costau byw, wedi rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau: "Mae 2 ddigwyddiad enfawr wedi dod i ran ein cymdeithas – y pandemig (a arweiniodd at anawsterau mawr i deuluoedd), a'r argyfwng costau byw yn syth wedyn. Roedd y gwasanaethau dan bwysau'n barod, ond nawr maent yn gorfod delio â'r 2 argyfwng hyn a ddigwyddodd gyda'i gilydd."

Fel y nodwyd yn gynharach (3.2), wrth ymgysylltu â theuluoedd mae'n bosibl y daw gweithwyr cymorth yn ymwybodol o broblemau eraill sy'n wynebu'r teulu, yn ychwanegol at y broblem wreiddiol y gofynnwyd am help i'w datrys. Llwyddodd 1 rhanddeiliad i grynhoi'n daclus y cynnydd yn y galw a'r anghenion mwyfwy cymhleth sydd gan deuluoedd:

> "Mae gwaith ymchwil yn dechrau dangos bod effaith enfawr wedi dod i ran plant... o ran eu presenoldeb yn yr ysgol a phethau eraill... Teuluoedd yn Gyntaf yw'r math o raglen sy'n ceisio delio gyda hyn. Dyma ein prif raglen ar gyfer cynorthwyo teuluoedd, felly mae'n delio â phob mathau o faterion. Yn aml, nid y mater dan sylw yw'r broblem mewn gwirionedd – rhaid ichi feithrin perthynas a dylanwad i ganfod hyn. Yna, rydych yn sylweddoli weithiau nad y mater gwreiddiol yw'r unig broblem neu'r brif broblem... Mae teuluoedd yn debyg i nionod. Rydych yn gweld haen arbennig ac yn meddwl eich bod yn deall y sefyllfa. Ond ar ôl ichi blicio'r haen honno, rydych yn dod ar draws rhywbeth arall. Yna, rydych yn delio â'r broblem honno, ac yn dod o hyd i broblem arall. Anghenion cymhleth. Go brin mai 1 broblem yn unig sy'n effeithio ar y teulu – efallai mai dyna'r sefyllfa ar y dechrau, ond yn ôl pob tebyg fe fydd yna ffactorau eraill yn effeithio ar ddynameg y teulu, gan arwain at y broblem a welwch."

## 6.2. Pwysau gwasanaethau statudol ar Teuluoedd yn Gyntaf

Mewn perthynas â'r galw cynyddol a'r cynnydd mewn achosion cymhleth, dywedodd y rhanddeiliaid fod y materion uchod wedi cael eu gwaethygu a bod cysylltiad agos rhyngddynt â'r pwysau cynyddol ar wasanaethau statudol.

Yn y cyfweliadau, soniodd y rhanddeiliaid yn gyson am y ffaith bod gwasanaethau statudol yn cael anhawster i ddiwallu'r galw. Oherwydd hyn, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn helpu mwy a mwy o deuluoedd – sef teuluoedd y byddent wedi dod dan adain y gwasanaethau cymdeithasol yn y gorffennol. Mae'r newid hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar Teuluoedd yn Gyntaf, ac erbyn hyn mae'r rhaglen yn gorfod darparu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd ag anghenion uchel, gan fynd ati ar yr un pryd i geisio parhau i fod yn wasanaeth cymorth cynnar, ataliol. Yn ôl 1 rhanddeiliad: "Rydym ar ddeall bod gwasanaethau'n gorfod delio â mwy a mwy o achosion cymhleth a fyddai, yn y gorffennol, wedi dod dan adain gwasanaethau statudol. Mae Teuluoedd yn Gyntaf dan bwysau enfawr – mae pawb angen popeth gan y gwasanaeth."

## 6.3. A yw Teuluoedd yn Gyntaf yn dal i ddarparu gwasanaeth ataliol?

Ymhlith yr heriau y sonnir amdanynt uchod, cyflwynodd y rhanddeiliaid safbwyntiau cymysg ynghylch a ellir parhau i ystyried bod Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu gwasanaeth ataliol. Roedd nifer o randdeiliaid yn cydnabod bod y rhaglen yn dal i chwarae rôl ataliol hollbwysig, yn enwedig o ran lleihau pwysau ar wasanaethau statudol.

Trafododd rhai rhanddeiliaid ddata’n ymwneud ag atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau statudol. Yn ôl y rhanddeiliaid hyn, er bod nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau statudol wedi cynyddu, nid yw hyn wedi digwydd oherwydd methiant gweithgareddau atal presennol; yn hytrach, mae wedi digwydd oherwydd cynnydd cyffredinol yn y galw: “Heb Teuluoedd yn Gyntaf, byddai gwasanaethau plant mewn llanast llwyr. Yn ddi-os, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn dal i atal teuluoedd rhag gorfod cael ymyrraeth statudol – ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu bob amser yn y niferoedd, gan fod yna gynnydd cyffredinol yn y galw.”

Nododd rhai rhanddeiliaid fod ymyrraeth ataliol yn dal i ddigwydd. Fel enghraifft o hyn, trafododd rhai awdurdodau lleol y modd yr oeddynt yn ehangu eu timau ymyrraeth gynnar ac yn parhau i gynnig cymorth ‘lefel isel’ er mwyn atal teuluoedd rhag cyrraedd argyfwng: “Nid cywir yw dweud bod pob awdurdod lleol mewn argyfwng, oherwydd rydw i’n gwybod bod rhai awdurdodau lleol wedi buddsoddi llawer o arian mewn cymorth ataliol, fel cymorth trwy chwarae. Mae eu modelau’n cynnwys cryn dipyn o ymyrraeth gynnar. Ond... mae nifer fawr o awdurdodau’n nesáu at argyfwng.”

Er gwaethaf y gred fod Teuluoedd yn Gyntaf yn dal i ddarparu gwasanaeth ataliol, mynegwyd cytundeb cyffredinol bod Teuluoedd yn Gyntaf yn aml yn cyrraedd teuluoedd ar ôl iddynt gyrraedd argyfwng, oherwydd y pwysau a nodwyd yn gynharach. Hefyd, cydnabu’r rhanddeiliaid nad yw teuluoedd yn ceisio cymorth mor gynnar ag y gallent. Dim ond ar ôl i’w sefyllfa waethygu y bydd rhai teuluoedd yn gofyn am gymorth; o’r herwydd, mae hi’n anos darparu gwasanaeth gwirioneddol ataliol. Ys dywedodd 1 rhanddeiliad: “Nid yw’n syndod bod teuluoedd yn cysylltu â ni pan fônt mewn argyfwng. Yr unig beth y gallwn ei wneud yw codi ymwybyddiaeth o wasanaethau mor gynnar â phosibl, er mwyn i deuluoedd wybod bod help ar gael cyn iddynt gyrraedd argyfwng.” O ganlyniad, y farn oedd bod cymorth Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei dargedu’n aml at y teuluoedd hynny sydd yn yr angen mwyaf, yn hytrach na bod y rhaglen yn cynnig arlwy ‘cymorth cynnar’ gwirioneddol gyffredinol.

### 6.3.1. Trothwyon newidiol a newid ffocws tuag at deuluoedd ag anghenion uwch

Gan adlewyrchu'r newid tuag at achosion mwy cymhleth, dywedodd rhai awdurdodau lleol fod cyfyngiadau cyllido a chynnydd yn y galw wedi eu gorfodi i addasu eu trothwyon, gan gyfyngu ar eu gallu i gynorthwyo teuluoedd ag anghenion is. Yn y gorffennol, bu modd iddynt ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau ymyrraeth gynnar; ond yn awr, maent yn canolbwyntio i raddau mwy ar deuluoedd ag anghenion cymedrol i uwch. Dywedodd 1 rhanddeiliad:

> "Yn y gorffennol, bu modd inni ddarparu cymorth ar draws y rhan fwyaf o'r continwwm; ond nawr, rydym yn canolbwyntio ar yr adrannau oren i goch.[6] Rydym wedi gorfod adolygu ein meini prawf a chyfeirio teuluoedd ag anghenion is at adnoddau eraill. Nid ydym byth yn dweud 'na' – rydym yn cynnig cyngor, yn eu cyfeirio at grwpiau cyffredinol ac yn eu hannog i ddychwelyd pe baent yn dal i fod angen help." Yn ôl rhanddeiliad arall: "Pan gaiff rhaglenni eu gwasgu, rydych yn cyrraedd sefyllfa wrthun pan fo'n rhaid i fywydau teuluoedd waethygu cyn y gallant gael help. Mae awdurdodau lleol yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd dros ben ynglŷn â phwy y byddant yn eu helpu, pryd y byddant yn eu helpu, a sut i'w helpu. Mae'r anghenion yn ddiderfyn, ond nid felly'r adnoddau."

O ganlyniad, dywedodd ambell 1 o'r rhanddeiliaid nad yw rhai teuluoedd ag anghenion is yn cael cymorth uniongyrchol mwyach; yn hytrach, efallai y cânt gyngor yn unig, neu efallai y cânt eu cyfeirio at adnoddau cyffredinol. Er na wrthodir neb, efallai fod hyn yn arwydd o wyro oddi wrth amcan gwreiddiol Teuluoedd yn Gyntaf.

## 6.4. A yw Teuluoedd yn Gyntaf yn dal i gyrraedd y bobl hynny y bwriadwyd eu cyrraedd yn wreiddiol?

Gan barhau â'r pwyntiau uchod, roedd y rhanddeiliaid o'r farn fod Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i gynorthwyo teuluoedd mewn angen, ond nodwyd bod natur yr angen hwnnw wedi newid dros amser. Yn wreiddiol, nod y rhaglen oedd cynnig gwasanaeth atal ac ymyrraeth gynnar; ond wrth i heriau'r gymdeithas esblygu, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhoi mwy a mwy o gymorth i deuluoedd â phroblemau mwy cymhleth. Ys dywedodd 1 rhanddeiliad: "Mae'r rhaglen yn dal i geisio cynorthwyo teuluoedd – dyna yw ei hanfod. Ond mae anghenion y teuluoedd wedi newid dros amser."

---

Troednodyn:

[6] Mae'r sylw hwn yn cyfeirio at y continwwm cymorth y soniwyd amdano yn y cyflwyniad (tudalen 8).

Yn yr un modd, wrth i drothwyon gwasanaethau statudol godi, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynorthwyo teuluoedd ag anghenion uwch, gan ysgwyddo achosion a fyddai, yn y gorffennol, wedi dod dan adain gwasanaethau arbenigol eraill o bosibl: “Yn hytrach na bod yn rhaglen atal ac ymyrraeth gynnar o’r iawn ryw, mae hi bellach yn ysgwyddo problemau teuluol cymhleth a fyddai, yn y gorffennol, wedi cael eu hysgwyddo gan wasanaethau eraill. Mae’r adnoddau’n dilyn yr anghenion, felly mae’r rhaglen yn cynnig ymyriadau arbenigol i raddau mwy.”

Hefyd, nodwyd y gallai’r newid hwn arwain at her i weithwyr cymorth. Yn ôl ambell un o’r rhanddeiliaid, cafodd rhai gweithwyr cymorth eu hyfforddi’n wreiddiol i ddarparu ymyriadau lefel is. Ond yn awr, maent yn gweithio gyda theuluoedd sydd mewn argyfwng, ac efallai nad ydynt yn y sefyllfa orau i ddarparu’r cymorth hwn oherwydd diffyg arbenigedd yn y maes.

## 6.5. Egluro canllawiau a throthwyon a’r modd y dyrennir adnoddau

Roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn fod angen canllawiau cliriach ynglŷn â’r modd y dylai Teuluoedd yn Gyntaf ddelio â’r trothwyon newidiol ar gyfer ymyrraeth statudol a’r galw cynyddol am wasanaethau cymorth cynnar. Yn y gorffennol, roeddynt o’r farn y ceid rhaniad clir a phendant rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaethau statudol. Ond wrth i drothwyon ymyrraeth statudol godi, credant fod y llinell rhwng ymyrraeth statudol ar y naill law, ac ymyrraeth Teuluoedd yn Gyntaf ar y llaw arall, wedi mynd yn fwy annelwig. Eto, dywedodd y rhanddeiliaid hyn fod Teuluoedd yn Gyntaf bellach yn aml yn cefnogi teuluoedd a fyddai, yn y gorffennol, wedi bod yn gymwys i gael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol: “5 mlynedd yn ôl, yr ateb oedd ‘na’ – os oeddynt yn gymwys i gael help gan y gwasanaethau cymdeithasol, ni fyddem yn eu cynorthwyo. Ond nawr, mae’r trothwy ar gyfer gwasanaethau statudol wedi codi. Rydym yn ôl a blaen yn dragwyddol gyda’r gwasanaethau statudol... Os ydym yn dal i edrych ar atal ac ymyrraeth gynnar, mae rhai o’n teuluoedd wedi mynd y tu hwnt i’r cam hwnnw. Felly, a yw’r cymorth hwnnw’n cael ei ariannu gan Teuluoedd y Gyntaf? A ddylai gael ei ariannu gan y gwasanaethau cymdeithasol?” Yn yr un modd, dyma a ddywedodd rhanddeiliad arall: “Yn hanesyddol, rydym wedi cael anhawster i ddiffinio beth yn union yw ystyr ‘cymhleth’ a ‘statudol’. Yn aml, mae pobl yn dweud bod cymhlethdod yn gyfystyr â phroblem fawr, ond nid wyf yn credu ein bod erioed wedi cael diffiniad gan Lywodraeth Cymru.”

Serch hynny, roedd rhai o’r rhanddeiliaid a fynegodd y pryder hwn yn ffyddiog y byddai newidiadau sydd ar ddod yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru yn helpu i egluro rôl

Teuluoedd yn Gyntaf mewn perthynas â gwasanaethau statudol. Hefyd, er bod rhai awdurdodau lleol wedi dweud y byddent yn croesawu canllawiau cenedlaethol ychwanegol, roedd eraill o'r farn fod y canllawiau presennol (mewn perthynas ag ystyr ymyrraeth statudol) yn ddigon clir, ac mai'r her mewn gwirionedd yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn dehongli ac yn gweithredu'r canllawiau'n briodol.

## 6.6. Gwella llwybrau atgyfeirio

Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod angen atgyfeiriadau o ansawdd gwell gan weithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cyfeirio at y cymorth iawn ar yr adeg iawn. Mae rhai o'r awdurdodau lleol hyn yn gweithio gydag atgyfeirwyr er mwyn eu helpu i ddeall yn well pa wasanaeth sydd fwyaf addas ar gyfer anghenion pob teulu.

Un o nodau hollbwysig y gwaith hwn yw sicrhau y caiff teuluoedd eu hatgyfeirio mewn modd didrafferth a chydgysylltiedig at y gwasanaeth iawn, ni waeth o ble y caiff y teulu ei atgyfeirio. Trwy wella prosesau atgyfeirio, mae awdurdodau lleol yn gobeithio lleihau'r risg y bydd teuluoedd yn cael eu trosglwyddo'n ddiangen o 1 gwasanaeth i'r llall – sef rhywbeth a allai eu dieithrio hyd yn oed cyn iddynt gael unrhyw gymorth.

## 6.7. Ym mha feysydd y gwelwyd cynnydd mawr yn y galw?

Isod, nodir ym mha feysydd y gwelwyd cynnydd mawr yn y galw. Mae'n werth nodi bod y meysydd hyn yn feysydd sydd bellach yn rhan fwy cyffredin o waith gweithwyr cymorth, o ganlyniad i'r pwysau ar wasanaethau statudol a chymhlethdod cynyddol yr achosion.

### 6.7.1. Cymorth iechyd meddwl

Mae iechyd meddwl yn 1 pryder mawr a nodir yng nghynlluniau cyflawni awdurdodau lleol, yn enwedig ar ôl y pandemig COVID-19. Mae nifer o awdurdodau lleol yn sôn am gynnydd yn nifer y bobl ifanc a'r rhieni sy'n ymlafnio ag iechyd meddwl a llesiant. Mewn 1 cynllun, nodwyd bod gweithwyr cymorth Teuluoedd yn Gyntaf yn cynorthwyo gyda'r "cymhlethdodau a'r galw cynyddol o du pobl ifanc a rhieni a chanddynt broblemau iechyd meddwl ac anghenion llesiant, yn enwedig ar ôl COVID." Yn yr un modd, yn y cyfweliadau a gynhaliwyd gydag awdurdodau lleol, soniodd rhai ohonynt am nifer cynyddol y plant a gaiff eu gwahardd o ysgolion, ynghyd â nifer cynyddol y plant sy'n hunan-niweidio ac sy'n dioddef ynysigrwydd cymdeithasol.

Tynnwyd sylw at hyn yn y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid hefyd, lle awgrymwyd bod Teuluoedd yn Gyntaf yn mynd ati'n aml i lenwi'r bwlch ar gyfer gwasanaethau statudol

mewn perthynas â chymorth iechyd meddwl a llesiant, yn enwedig ar gyfer teuluoedd sy'n wynebu amseroedd aros maith ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Aeth 1 rhanddeiliad ati i grynhoi sefyllfaoedd pan mae gweithwyr cymorth yn rhoi cymorth dros dro i deuluoedd mewn argyfwng tra maent yn aros am ymyrraeth statudol:

> "Os ydych yn aros am rywbeth fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, mae'r [rhestr aros] yn faith ac mae'r teuluoedd mewn angen taer. Mae rhai gwasanaethau'n glynu'n gaeth wrth y rhestr aros; ond fel gweithwyr cymdeithasol, rydym yn cydymdeimlo â'r teuluoedd hyn. Os yw'r rhieni'n ymlafnio gydag iechyd meddwl eu plant... mae hi'n anodd iawn gadael iddynt aros am 4 i 5 mis ar gyfer y gwasanaeth [statudol]. Felly, yn y pen draw, rydym yn llenwi'r bwlch, gan eu cadw i fynd hyd nes y cânt gymorth [gan y gwasanaethau statudol]."

Cysylltir y cynnydd hwn ag effeithiau parhaus COVID-19. Yn ôl y rhanddeiliaid, mae mwy a mwy o deuluoedd yn ymlafnio â gorbryder, hwyliau isel ac anawsterau o ran rheoli ymddygiad yn y cartref. "Ar hyn o bryd, rydym yn delio â llawer o bryderon iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith pobl ifanc ar ôl COVID. Mae iechyd meddwl rhieni yn her hefyd. Mae rhieni'n cael anhawster i reoli ymddygiad eu plant, a hefyd mae presenoldeb yn yr ysgol yn broblem fawr."

### 6.7.2. Cynnydd mawr yn y galw am asesiadau niwrowahaniaeth

Soniodd y rhanddeiliaid am gynnydd mawr yn y galw am gymorth, yn enwedig ymhlith teuluoedd sy'n aros am asesiadau niwrowahaniaeth. Dywedodd 1 awdurdod lleol fod ganddo amseroedd aros maith ar gyfer asesiadau niwrowahaniaeth – sef 3-5 mlynedd, yn aml – a bod y rhestrau aros hyn yn peri i deuluoedd deimlo'n ynysedig ac yn rhwystredig. Mewn ymateb i hyn, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu rolau newydd yn y gwasanaethau cymorth cynnar er mwyn cynnig cymorth interim i deuluoedd sy'n aros am asesiadau niwrowahaniaeth: "Y plant a'r teuluoedd sydd ar y rhestr aros ar gyfer cael eu hasesu gan y tîm niwroddatblygiadol yw'r garfan sy'n teimlo'n fwyaf rhwystredig. Mae'r rhestr aros yn enfawr ledled Cymru... Rydym wedi datblygu dwy rôl ychwanegol yn y Tîm o Amgylch y Teulu, yn benodol ar gyfer cynorthwyo'r teuluoedd hyn."

### 6.7.3. A gaiff rhai plant eu colli?

Mewn perthynas â'r pwyntiau uchod, roedd 1 rhanddeiliad yn bryderus bod rhai plant ag anghenion ychwanegol yn cael eu colli (o bosibl gan eu bod yn aros am asesiad), gan fod yna gymaint o bwysau ar adnoddau. O ganlyniad, roedd y rhanddeiliad hwn o'r farn nad yw plant – yn enwedig plant sydd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg – yn cael eu neilltuo ar gyfer ymyrraeth gynnar hyd nes iddynt gyrraedd oedran ysgol, oherwydd efallai na fyddant yn ymhél rhyw lawer â rhaglenni neu wasanaethau hyd nes iddynt fynd i'r ysgol. Felly, erbyn yr adeg y caiff y plentyn ei atgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf, efallai y bydd y broblem wedi gwaethygu, gan leihau effeithiolrwydd unrhyw ymyrraeth gynnar. "Gwelsom nad oeddem yn cael llawer o atgyfeiriadau ar gyfer plant dan 5 oed oherwydd, y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, ni chaiff teuluoedd eu gweld mor aml. Nid yw meithrinfeydd yn atgyfeirio yn yr un modd [ag ysgolion]. Felly, mewn gwirionedd, ar ôl i blant gyrraedd oedran ysgol y gwelwn yr atgyfeiriadau'n dechrau cyrraedd."

Dyma bwynt pwysig, oherwydd mae'n codi pryderon ynghylch a yw cymorth cynnar yn cyrraedd yr holl deuluoedd sydd ei angen, ac a ellid gwneud rhagor i sicrhau bod plant iau yn cael cymorth cyn i'w problemau waethygu.

Er mwyn mynd i'r afael â'r blwch hwn, esboniodd 1 rhanddeiliad fod arlwy'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ei awdurdod lleol yn seiliedig yn awr ar anghenion, yn hytrach na'i fod yn cael ei seilio'n gyfan gwbl ar ardaloedd daearyddol, gan sicrhau bod pob plentyn (nid plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn unig) yn cael asesiad datblygiadol ar ôl cyrraedd 20 mis, yn ogystal â sicrhau bod plant yn cael eu hatgyfeirio at gymorth cynnar pe bai angen. Bwriad y dull hwn yw sylwi ar broblemau'n gynharach ar gyfer plant a fyddai, fel arall, yn cael eu colli hyd nes iddynt ddechrau mynd i'r ysgol.

### 6.7.4. Cynnydd yn y galw am gymorth ariannol

Soniodd nifer o randdeiliaid am gynnydd yn nifer y teuluoedd sydd angen cymorth ariannol o ganlyniad i effeithiau'r pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Dywedasant fod teuluoedd yn ymgyflwyno gyda phroblemau fel dyledion, a'u bod, o'r herwydd, yn methu â fforddio bwyd neu eitemau sylfaenol ar gyfer y cartref. Soniodd 1 rhanddeiliad am y modd y mae ei awdurdod lleol yn cynorthwyo rhai teuluoedd trwy ddarparu eitemau hanfodol ar gyfer y cartref, os oes angen (er, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae hyn i fod i ddigwydd). Soniodd rhanddeiliaid mewn awdurdodau eraill eu bod yn aml yn cyfeirio teuluoedd at fanciau bwyd. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid hyn fod angen ymdrin â'r

problemau hollbwysig hyn cyn i deuluoedd ymhél ag unrhyw gymorth rhianta neu gymorth llesiant.

### 6.7.5. Ehangu cyrhaeddiad cymorth Teuluoedd yn Gyntaf

Mae'r cynnydd yn y galw wedi ehangu cwmpas y cymorth a gynigir gan Teuluoedd yn Gyntaf. Yn ôl 1 rhanddeiliad, yn hanesyddol câi'r cymorth ei roi'n aml i deuluoedd agored i niwed a theuluoedd mewn tlodi. Ond dywedwyd bod cymorth yn cael ei roi yn awr i deuluoedd o bob cefndir, yn cynnwys pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol sy'n cael anhawster i ddelio â heriau'n ymwneud â niwrowahaniaeth, iechyd meddwl a materion ariannol: "Ers talwm, dim ond gyda'r teuluoedd mwyaf agored i niwed roeddem yn gweithio. Ond nawr, rydym yn gweithio gyda theuluoedd o bob math – yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a rhieni sydd wedi cael addysg. Maen nhw'n dweud, 'Rydw i'n cael anhawster i gynorthwyo fy mhlentyn'."

### 6.7.6. Yr effaith a gaiff gwahardd plant o'r ysgol ac addysgu plant yn y cartref ar wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf

Mewn perthynas â'r pwyntiau uchod ynglŷn â heriau niwroddatblygiadol a phroblemau iechyd meddwl, soniodd rhai awdurdodau lleol am gynnydd mawr yn y galw am wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn sgil nifer cynyddol yr achosion o wahardd plant o'r ysgol ac addysgu plant yn y cartref. Mewn ambell achos, mae plant ag anghenion digymorth neu anghenion heb eu diagnosio yn wynebu cael eu gwahardd o'r ysgol, gan gymell y rhieni i'w tynnu o'r ysgol. Mae'r tuedd hwn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cymorth cynnar gan fod teuluoedd angen cymorth ychwanegol i reoli ymddygiad a llesiant eu plant yn y cartref.

Hefyd, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod treulio cyfnodau estynedig yn y cartref yn gallu cael effaith negyddol ar hwyliau, gwydnwch a chydberthnasau teuluoedd. Er enghraifft, soniodd 1 rhanddeiliad am gynnydd mewn gwrthdaro rhwng rhieni a cham-drin rhwng plant a rhieni wrth i deuluoedd geisio rheoli anghenion cymhleth ac ymdopi â'r pwysau sydd ynghlwm wrth addysgu plant yn y cartref, heb unrhyw gymorth allanol: "Os oes gennych blentyn gartref, bydd eich tymer a'ch gwydnwch yn isel a bydd hynny'n effeithio ar gydberthnasau a gwrthdaro rhwng rhieni. Hefyd, rydym wedi gweld cynnydd mewn achosion o blant yn cam-drin eu rhieni – rhywbeth y mae prosiectau wedi sôn mwy amdano."

Mae hyn yn tynnu sylw at yr effaith gymdeithasol ehangach a all ddeillio o wahardd plant o'r ysgol ac addysgu plant yn y cartref.

## 6.8. Heriau o ran hyrwyddo'r gwasanaeth

Un thema a ddaeth i'r amlwg ymhlith rhai o'r rhanddeiliaid oedd y tensiwn rhwng hyrwyddo Teuluoedd yn Gyntaf ar y naill law, a rheoli'r galw ar y llaw arall. Roedd rhai ohonynt o'r farn y byddai hyrwyddo gormod ar y rhaglen yn arwain at lethu gwasanaethau a oedd eisoes dan bwysau mawr, gan esgor ar amseroedd aros hwy a lleihau ansawdd y cymorth. Roedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn fod hyn oll wedi arwain at ddull hyrwyddo gochelgar, a dywedodd rhai ohonynt y gallai awdurdodau lleol fod yn gyndyn o hyrwyddo Teuluoedd yn Gyntaf rhag ofn na fyddai modd iddynt fodloni'r galw.

Dywedodd eraill fod cyfyngiadau staffio cyffredinol, ynghyd ag adnoddau cyfyngedig, yn cyfyngu ar y graddau y gellid hyrwyddo gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf. Er y ceir diddordeb mewn codi ymwybyddiaeth trwy gyfrwng ysgolion, meddygfeydd a llyfrgelloedd er mwyn cyrraedd teuluoedd mor gynnar â phosibl, roeddynt o'r farn y byddai angen staff ac adnoddau ychwanegol i ddelio â'r cynnydd posibl yn nifer yr atgyfeiriadau oddi wrth pobl nad oeddynt eisoes yn ceisio cymorth.

## 6.9. Cyfyngiadau cyllido a'r modd y dyrennir adnoddau

Wrth adolygu cynlluniau cyflawni awdurdodau lleol, gwelwyd bod pwysau cyllidebol ac anawsterau staffio yn effeithio ar y modd y câi gwasanaethau eu darparu. Dywedodd nifer o awdurdodau eu bod yn wynebu mwy o alw (dangosir hyn yn nata perfformiad diweddaraf Teuluoedd yn Gyntaf hefyd), ond nad oeddynt wedi gweld unrhyw gynnydd yn eu cyllid. Mewn ambell ardal, mae hyn wedi lleihau gwasanaethau ac arwain at restrau aros. Yn ôl rhai awdurdodau, maent wedi gorfod adolygu lefelau staffio neu oriau staffio oherwydd cyfyngiadau cyllido.

Er gwaethaf y galw cynyddol am y gwasanaethau a natur gyffredinol y rhaglen, mae cyllid cyfyngedig ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn 1 her hollbwysig y soniwyd mwy amdani yn y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid. Hefyd, dywedodd rhanddeiliaid fod y cyllidebau wedi aros fwy neu lai yn eu hunfan ers oddeutu degawd, a bod chwyddiant a phwysau cynyddol ar wasanaethau wedi rhoi'r adnoddau dan fwy fyth o bwysau, gan arwain at orfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â sut i ddyrannu cyllid. Dywedodd 1 rhanddeiliad: "Drwy'r wlad, hyd yn oed cyn COVID-19, roedd y cyllidebau'n mynd yn dynnach ac yn dynnach, ac

roedd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gwasgu fwy a mwy. Wrth i'r trothwyon symud gyda'r gwasanaethau cymdeithasol... fe wnaethant godi ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf."

### 6.9.1. Effaith cyfyngiadau cyllido

Yn ôl y rhanddeiliaid, mae'r cyllid cyfyngedig yn golygu nad ydynt wedi gallu cyflogi'r staff ychwanegol sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r galw cynyddol. Un canlyniad sy'n deillio o hyn yw'r ffaith bod rhai teuluoedd sy'n ymgyflwyno gydag anghenion is yn cael eu cyfeirio at gymorth lefel isel (yn cynnwys eu cyfeirio at wefannau), yn hytrach na'u bod yn cael cynnig unrhyw ymyrraeth uniongyrchol. Ym marn rhai o'r rhanddeiliaid, mae hyn yn golygu bod ymyrraeth gynnar yn llai hygyrch i deuluoedd – sef teuluoedd sy'n dal i fod angen cymorth uniongyrchol o ryw fath, er nad ydynt mewn argyfwng fel y cyfryw.

Mae hyn yn arbennig o wir pan fo gan wasanaethau sy'n rhan o arlwy Teuluoedd yn Gyntaf, neu wasanaethau y mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cysylltu â nhw, restrau aros. Dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid eu bod wedi gorfod ystyried yn ofalus pa deuluoedd y dylid eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth â rhestrau aros; dywedwyd na chafodd teuluoedd ag anghenion is eu hatgyfeirio at y gwasanaethau hyn er mwyn osgoi cynyddu'r rhestrau aros, a'u bod, yn hytrach, wedi cael eu hatgyfeirio at gymorth interim neu wedi cael eu cyfeirio at wefannau er mwyn cael rhagor o wybodaeth. Trafodir rhestrau aros yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Hefyd, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid fod cyfyngiadau cyllidebol wedi arwain at leihau cymorth teithio a gofal plant a ddefnyddid yn y gorffennol i helpu teuluoedd i fynychu sesiynau'n rhwyddach. Dywedodd rhai ohonynt eu bod, yn y gorffennol, wedi defnyddio cyllid i dalu'r costau hyn i deuluoedd.

Dywedodd y rhanddeiliaid fod cyllid yn effeithio ar recriwtio a chadw staff hefyd. Soniodd rhai am anawsterau o ran sicrhau contractau hirdymor i staff, gan arwain at drosiant uchel ac anhawster i ddal gafael ar ymarferwyr profiadol.

### 6.9.2. Dyrannu cyllid

Er bod yr holl randdeiliaid wedi sôn am ddiffyg cyllid ar gyfer diwallu anghenion lleol, ac er eu bod wedi galw am ragor o gyllid neu ddweud y byddent yn croesawu rhagor o gyllid, dywedodd rhai ohonynt fod angen rhoi mwy o bwyslais ar ariannu Teuluoedd yn Gyntaf yn yr arian a gaiff awdurdodau lleol trwy gyfrwng y Grant Plant a Chymunedau. Hefyd,

cyfeiriwyd at bwyntiau cynharach – hynny yw, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn chwarae rhan bwysicach o lawer nag o'r blaen mewn perthynas â llenwi bylchau a adewir gan wasanaethau statudol. Ymhellach, adleisiodd rhai rhanddeiliaid bwyntiau blaenorol a gyflwynwyd ganddynt, sef bod gweithwyr cymorth yn gorfod delio o dro i dro â theuluoedd a chanddynt broblemau mwy cymhleth, ac na fyddai pob gweithiwr cymorth wedi cael hyfforddiant i ddelio â'r problemau hynny.

> "Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael ei gadael ar ôl braidd o ran buddsoddi mewn gofal plant, o gymharu â Dechrau'n Deg. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i hyn, oherwydd mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cyflawni gwasanaeth gwahanol iawn i Dechrau'n Deg – sef gwasanaeth gwirioneddol angenrheidiol na fyddai'n bodoli heb y cyllid... Nid oes yr un darparwr arall (sy'n cynnig cymorth i deuluoedd) yn darparu cymorth ar yr 1 lefel â ni ar lefel sirol. Mae yna ddarparwyr statudol i'w cael, ond nid rhai sy'n darparu cymorth lefel 2 a lefel 3 gwirioneddol gyffredinol. Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael ei hesgeuluso braidd."

### 6.9.3. Heriau sy'n perthyn i fodelau cyllido byrdymor

Roedd ambell randdeiliad o'r farn y gallai cylchoedd cyllido arwain at anawsterau o ran cynllunio gwasanaethau neu fentrau hirdymor, buddsoddi ynddynt, a'u cynnal. Yn arbennig, dywedwyd bod diffyg contractau parhaol oddi mewn i'r rhaglen yn effeithio ar y gallu i gadw staff, gan fod gweithwyr yn symud i rolau mwy diogel mewn mannau eraill – sef rolau yn y gwasanaethau cymdeithasol yn aml, yn ôl y rhanddeiliaid. Roeddynt o'r farn fod y trosiant hwn yn effeithio ar y cymorth a roddir i deuluoedd, oherwydd mae angen amser i feithrin cydberthnasau, a gall cydberthnasau o'r fath chwalu ar ôl i staff adael: "Nid yw Teuluoedd yn Gyntaf na Dechrau'n Deg yn cynnig contractau parhaol. Mae pobl angen swyddi diogel er mwyn cael morgeisi a sefydlogrwydd ariannol, felly maent yn symud i rolau parhaol. Yn aml, lleolir y rolau hyn yn y gwasanaethau cymdeithasol, lle gallant ddefnyddio'r hyfforddiant a gawsant gennym ni."

### 6.9.4. Yr angen am gyswllt agos rhwng y rhai sy'n gysylltiedig ag ariannu Teuluoedd yn Gyntaf

Mae gan awdurdodau beth hyblygrwydd o ran y modd y gallant ddosbarthu arian Teuluoedd yn Gyntaf ar sail anghenion y boblogaeth. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r pwyntiau uchod ynglŷn â chyfyngiadau cyllido, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid fod

tensiynau'n codi pan na cheir cydweddiad digonol rhwng cydlynwyr Teuluoedd yn Gyntaf a rheolwyr y Grant Plant a Chymunedau. Roeddynt o'r farn y gall diffyg cydlynu arwain at seilio penderfyniadau ar ddyraniadau hanesyddol yn hytrach nag ar flaenoriaethau cyfredol sy'n seiliedig ar asesiadau o anghenion y boblogaeth. "Efallai na fydd rheolwr y Grant Plant a Chymunedau yn yr awdurdod lleol yn cysylltu â chydlynydd Teuluoedd yn Gyntaf – mae hynny'n wallgof. Efallai y bydd yn dweud, 'yn hanesyddol, rydym wastad wedi rhoi X miliwn i Teuluoedd yn Gyntaf, felly rydym yn mynd i gario 'mlaen i wneud hynny.'" Pwysleisiodd y rhanddeiliad hwn pa mor bwysig yw sicrhau cyfathrebu rheolaidd rhwng rheolwyr grantiau ac arweinwyr Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn sicrhau bod yr arian yn ymateb i anghenion lleol.

Roedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn fod cyllidebau sy'n gweithredu mewn 'seilos' yn esgor ar her hollbwysig, gan atal rhaglenni rhag rhannu adnoddau'n effeithiol. "Mae rhai pobl yn amddiffynnol iawn o gyllidebau. Nid yw pob awdurdod wedi cyrraedd y cam lle gall ddweud, 'mae'r arian hwn yn well yn eich pot chi, mae'r arian hwn yn well yn fy mhot i.' Y pethau pwysig, yn aml, yw ymddiriedaeth a pha mor hir y mae timau wedi gweithio gyda'i gilydd."

## 6.10. Cydweddu â rhaglenni a gwasanaethau eraill

### 6.10.1. Rôl hyblygrwydd o ran darparu gwasanaethau'n effeithiol: Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg

Er bod ambell randdeiliad wedi sôn am heriau'n ymwneud â chydlynu a chyllidebau sy'n gweithredu mewn seilos, soniodd y mwyafrif am enghreifftiau cadarnhaol lle ceir ffordd integredig a hyblyg o weithio, yn enwedig pan fo timau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi sefydlu cydberthnasau agos. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod hyblygrwydd Teuluoedd yn Gyntaf yn eu galluogi i gydlynu cymorth rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn hytrach na gweithio mewn seilos. Yn eu tyb nhw, mae integreiddio'r ddwy raglen dan y Grant Plant a Chymunedau wedi ategu mwy fyth ar y dull hyblyg hwn o ariannu a darparu gwasanaethau. Yn ôl 1 rhanddeiliad: "Mae hyblygrwydd y rhaglenni yn eu galluogi i siarad gyda'i gilydd, gan sicrhau nad ydynt yn darparu'r 1 gwasanaethau – ond eu bod, yn hytrach, yn defnyddio gwasanaethau'i gilydd pan fo angen."

Roedd y rhanddeiliaid o'r farn fod y gallu hwn i ymgyfaddasu yn sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth mwyaf priodol, ni waeth pa raglen a oedd yn darparu'r cymorth. Yn hytrach na dilyn ffiniau polisi mewn modd anhyblyg, dywedodd y rhanddeiliaid fod y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar y canlyniadau gorau i

deuluoedd: “Mae pobl sy’n gweithio yn y rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar y pethau sydd orau i deuluoedd. Yn aml, maent yn plygu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion teuluoedd, yn hytrach na glynu at ffiniau caeth y rhaglenni.” Yn yr un modd, dyma a ddywedodd rhanddeiliad arall:

> “Jyglo pethau i bob pwrpas, oherwydd rydw i’n cael arian gan y ddwy raglen [Dechrau’n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf]. Rydw i’n cymharu’r sefyllfa i fynd i Aldi. Rydw i’n llenwi fy nhroli, oherwydd rydw i angen yr holl bethau. Rydw i angen hyfforddiant ar siarad gyda thimau a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac rydw i’n cyrraedd y til ac yn meddwl ‘Iawn, fe dalaf am hwn gydag arian Teuluoedd yn Gyntaf ac fe dalaf am hwn gydag arian Dechrau’n Deg, oherwydd dyna sy’n gweddu i’r sefyllfa’. Ond, mae’r sgiliau’n dal i fod yr un fath. Felly, ‘siop 1 stop’ mewn gwirionedd; ond rhaid imi benderfynu ‘Pwy sy’n ariannu hwn? Beth sydd y tu ôl iddo?’.”

### 6.10.2. Pwysigrwydd cydweithredu rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau’n Deg

Roedd rhai o’r rhanddeiliaid o’r farn y ceid diffyg cydlynu rhwng rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau’n Deg yn y gorffennol, a bod hynny wedi arwain at ddyblygu gwasanaethau. Roeddynt o’r farn fod y rhaglenni’n darparu gwasanaethau tebyg mewn rhai ardaloedd – megis cymorth rhianta ar wahân – yn hytrach na’u bod yn cydlynu eu hymdrechion. Ond gyda chyllidebau tynnach a mwy o bwyslais ar gydweithredu, roeddynt o’r farn fod dyblygu o’r fath wedi lleihau’n fawr: “Ar un adeg, byddai Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau’n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu rhaglenni rhianta yn yr un ardal, heb siarad gyda’i gilydd. Nawr, wrth i’r adnoddau brinhau, caiff y rhaglenni eu cymell i weithio gyda’i gilydd i raddau mwy.”

## 6.11. Hyblygrwydd o ran darparu Teuluoedd yn Gyntaf

Pwysleisiodd awdurdodau lleol fod sicrhau hyblygrwydd yng ngwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau y bydd modd i’r rhaglen addasu ar sail yr heriau. Er enghraifft, yn ôl 1 rhanddeiliad, trwy ymestyn gwasanaethau presennol yn hytrach na chomisiynu gwasanaethau newydd sbon, gall awdurdodau ymateb yn gyflymach i faterion a ddaw i’r amlwg, gan wneud gwell defnydd o bartneriaethau a strwythurau cyllido. Dyma a ddywedodd 1 rhanddeiliad, er enghraifft: “Gweithiodd hyn yn dda iawn mewn perthynas â’r cynnydd mewn digartrefedd, oherwydd gallwn ymestyn gwasanaethau presennol gyda’n partneriaid. Mae hwythau’n gweld y broblem hefyd, felly

mae hi'n haws inni fod yn hyblyg a dweud, 'Mae angen ichi helpu i nôl y teuluoedd mewn gwestai, er enghraifft.' Nid oes yn rhaid inni gomisiynu llu o wasanaethau newydd; yn syml, gallwn ymestyn y gwasanaethau sydd gennym yn barod." Yn yr un modd, dyma a ddywedodd 1 rhanddeiliad: "Mae'r canllawiau'n eithaf annelwig, felly mae gennym rwydd hynt. Rydym yn dadansoddi'r anghenion wrth greu'r rhaglen, gan holi'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol er mwyn deall y pethau pwysicaf ar y pryd. Cafodd ein rhaglen gyfredol ei llunio yn ystod COVID, ac ymhen dwy flynedd bydd yn hollol wahanol unwaith eto."

Mae'r gallu hwn i ymgyfaddasu yn bwysig iawn o gofio bod anghenion teuluoedd yn esblygu, ond hefyd o gofio'r amrywiaeth daearyddol a demograffig a geir ledled Cymru. Er enghraifft, dywedodd y rhanddeiliaid fod ardaloedd gwledig yn cyflwyno heriau mynediad gwahanol o gymharu â chymunedau trefol, felly ni fyddai'n effeithiol cynnig '1 ateb sy'n addas i bawb'. Roeddynt o'r farn mai'r peth gorau i'w wneud yw gadael i awdurdodau lleol deilwra'u modelau fel bo'r angen er mwyn parhau i adlewyrchu anghenion lleol. Yn ôl 1 rhanddeiliad: "Rydw i'n credu bod yr hyblygrwydd yn wych. Mae pobl yn anghofio beth yw'r sefyllfa yn y Gymru wledig... Mae rhai pobl yn byw 45 munud oddi wrth unrhyw hwb neu ganolfan. Wrth gwrs, mae anghenion ardaloedd gwledig yng ngogledd Powys yn wahanol i anghenion yn y Sblot. Gwych o beth yw'r ffaith bod awdurdodau lleol yn gallu teilwra pethau ar sail eu poblogaeth."

Er bod yr hyblygrwydd hwn yn cael ei ystyried fel cryfder ar y cyfan, mae'n werth nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi dweud ei fod hefyd yn cyflwyno heriau i lunwyr polisïau, a hefyd ei fod yn arwain at heriau o ran goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru. Gan fod pob awdurdod lleol yn darparu Teuluoedd yn Gyntaf mewn ffyrdd ychydig yn wahanol, gall fod yn anodd deall anghysondebau a gwahaniaethau, a mesur yr effaith ar lefel genedlaethol.

## 6.12. Rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf

Gwaith anodd yw pennu a oes yna restrau aros ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf – oherwydd nid 1 prosiect mo'r rhaglen, ond casgliad o wahanol wasanaethau ac ymyriadau. Er nad oes unrhyw restrau aros i'w cael ar gyfer rhai agweddau ar Teuluoedd yn Gyntaf – yn enwedig agweddau'n ymwneud â chymorth arbenigol – efallai y daw oedi i ran agweddau eraill oherwydd argaeledd adnoddau. Yn ôl 1 rhanddeiliad: "Dyma gwestiwn anodd, oherwydd nid 1 prosiect yw Teuluoedd yn Gyntaf. Efallai y ceir rhestr aros ar gyfer rhai elfennau, ond efallai na fydd yna unrhyw restr aros o gwbl ar gyfer prosiectau eraill."

Nid awgrymwyd o gwbl fod teuluoedd yn wynebu rhestr aros ar gyfer cyswllt cychwynnol gyda gweithiwr cymorth Teuluoedd yn Gyntaf neu Dîm o Amgylch y Teulu. Ond efallai y bydd gan rai gwasanaethau arbenigol oddi mewn i Teuluoedd yn Gyntaf, megis cymorth anabledd neu therapi, restrau aros hwy oherwydd y galw mawr neu'r capasiti cyfyngedig. Hefyd, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, efallai y bydd teuluoedd ag anghenion is yn cael eu cyfeirio at wefannau neu efallai y rhoddir gwybodaeth iddynt, yn hytrach na chynnig ymyriad uniongyrchol – a hynny oherwydd straen ar yr adnoddau.

### 6.12.1. Rheoli rhestrau aros a blaenoriaethu anghenion

Mewn achosion pan geir rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn rhoi system frysbennu ar waith er mwyn sicrhau y bydd y teuluoedd hynny sydd yn yr angen mwyaf yn cael eu blaenoriaethau ac yn cael eu gweld ynghynt. Efallai y bydd teuluoedd ag anghenion llai taer yn cael eu cyfeirio at wasanaethau is neu wasanaethau galw heibio tra byddant yn aros am gymorth mwy arbenigol. Mewn achosion o'r fath, mae rhai awdurdodau lleol o'r farn fod y cymorth hwn yn ffordd o barhau i ymgysylltu â theuluoedd tra byddant ar restr aros ar gyfer rhyw wasanaeth arbennig, a hefyd ei fod yn ffordd o geisio sicrhau na fydd anghenion y teuluoedd yn gwaethygu yn absenoldeb unrhyw gymorth.

Er bod awdurdodau lleol yn anelu at osgoi rhestrau aros, dywedodd nifer ohonynt ei bod yn amhosibl osgoi oedi mewn rhai sefyllfaoedd oherwydd problemau gydag adnoddau a chynnydd yn y galw, yn enwedig mewn meysydd lle ceir galw mawr (fel cymorth niwroddatblygiadol).

Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn olrhain rhestrau aros mewn modd rhagweithiol, a bod eu staff yn cynnal adolygiadau rheolaidd i fonitro'r niferoedd ac i asesu sut fath o gymorth interim y gellir ei gynnig. Mewn ambell achos, efallai y bydd yn rhaid i deuluoedd aros i ryw ymyriad penodol ddechrau, ond ni fyddant yn cael eu gadael heb gyswllt na chymorth. Ys dywedodd 1 rhanddeiliad: “Mae gennym restrau aros byr ac rydym yn cadw golwg arnynt. Bob 4 i 6 wythnos, rydym yn gofyn i brosiectau roi gwybod inni faint o bobl sydd ar y rhestr aros, sut fath o gymorth a roddant ar waith yn y cyfamser, a sut y maent yn rheoli'r galw.”

Fel enghraifft o'r math o gymorth interim a ddarperir, dywedodd 1 rhanddeiliad fod yna alw mawr am brosiectau cymorth anabledd. Er bod yn rhaid i rieni aros cyn y gallant gymryd rhan mewn gwasanaeth cymorth penodol, cynigir asesiadau i deuluoedd, cânt fynediad at linell gymorth, a bydd gweithwyr cymorth yn cysylltu â nhw'n barhaus hyd nes y bydd y

prosiect cymorth ar gael. Y nod yw ceisio sicrhau y bydd teuluoedd yn parhau i ymgysylltu ac na fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl tra byddant yn aros am wasanaethau arbenigol.

Er mwyn helpu i reoli'r galw, dywedodd rhai rhanddeiliaid eu bod yn annog gwasanaethau i weithio ar y cyd, fel y gellir cyfeirio teuluoedd at gymorth amgen yn y rhwydwaith 'cymorth cynnar' ehangach tra byddant yn aros i'w prif ymyriad gychwyn: "Rydym yn ceisio sicrhau bod prosiectau'n eu gweld eu hunain fel rhan o ddarlun cyflawn. Os bydd yn rhaid i deuluoedd aros am 1 ymyriad, efallai y bydd modd i wasanaeth arall helpu yn y cyfamser. Nid yw'n dasg hawdd, ond rydym yn mynd ati'n gyson i annog 1 prosiect i ddefnyddio'r llall."

## 6.13. Cydbwyso cymorth am gyfnod penodol gyda chymhlethdodau mwy

Trafododd y rhanddeiliaid y syniad mai cymorth am gyfnod penodol yn unig yw gwir hanfod cymorth Teuluoedd yn Gyntaf, er mwyn sicrhau y bydd y teuluoedd, yn y pen draw, yn wydnach ac yn gallu eu cynorthwyo eu hunain. Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn adolygu achosion ar wahanol adegau er mwyn gweld a yw teuluoedd yn dal i fod angen help, a pha un a yw'r ymyriad yn gweithio ai peidio. Er enghraifft, dywedodd 1 awdurdod lleol ei fod yn adolygu achosion ar ôl mis, 3 mis a 6 mis, gan ddisgwyl gweld cynnydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Soniodd awdurdod lleol arall am ddisgwyliad anffurfiol – sef, yn ddelfrydol, na ddylai achosion bara y tu hwnt i 12 mis. Dywedwyd bod achosion yn cael eu hadolygu ar ôl 10 mis er mwyn gallu asesu'r cynnydd, gweld a oes angen parhau i roi cymorth, a gweld a oes modd gwneud cynnydd pellach.

Ond er bod modd i gerrig milltir anffurfiol o'r fath helpu i reoli'r galw ac atal dibyniaeth, dywedodd y rhanddeiliaid nad yw cymorth sy'n para am gyfnod penodol bob amser yn opsiwn. Os bydd teuluoedd yn aros am gymorth (oherwydd rhestrau aros, o bosibl), neu os bydd yr amgylchiadau wedi gohirio unrhyw gynnydd, dewisir ymestyn y cymorth. Drachefn, roedd y rhanddeiliaid yn ddiolchgar am yr hyblygrwydd a geir yn y canllawiau mewn perthynas â'r cyfnod amser y gellir rhoi cymorth i deuluoedd.

Yn ôl y rhanddeiliaid, anghenion uniongyrchol y teuluoedd yw'r brif flaenoriaeth mewn argyfwng; rhywbeth eilaidd yn unig yw hyd y cymorth. Er enghraifft, dywedodd 1 rhanddeiliad fod 1 teulu y bu'n delio â nhw yn byw mewn llety dros dro o ansawdd gwael, a bod y teulu hwnnw angen cymorth am amser hwy o lawer: "Oherwydd yr effaith ar iechyd y

teulu, ac iechyd corfforol a meddyliol y plant... arhosodd yr achos hwnnw gyda ni yn llawer hwy nag y byddem wedi'i ddymuno."

Ond yn ôl y rhanddeiliaid, er bod rhai teuluoedd angen cymorth am gyfnod estynedig, mae teuluoedd eraill yn elwa ar ymyriadau byrrach. Er enghraifft, dywedodd 1 awdurdod lleol fod rhai o'i raglenni cymorth bellach yn para 6 wythnos yn hytrach na 12 wythnos, a hynny er mwyn gostwng y cyfraddau gadael a gwella'r lefelau ymgysylltu. Roedd yr awdurdod lleol o'r farn fod y dull arbennig hwn wedi bod yn effeithiol iawn ar gyfer cyrsiau rhianta, ac roedd o'r farn fod rhagor o deuluoedd yn elwa ar ymrwymiad byrrach; yn wir, cafwyd adborth yn dweud bod y cwrs yn fwy dichonadwy i deuluoedd.

Her arall mewn perthynas â hyn oll yw sicrhau bod teuluoedd yn y lle iawn i ymhél â'r cymorth yn y lle cyntaf. Mewn rhai achosion, mae gweithwyr cymorth yn treulio llawer iawn o amser yn meithrin ymddiriedaeth cyn y gellir rhoi ymyriad ystyrlon ar waith. O ganlyniad, bydd teuluoedd yn cael cymorth penodol pan fyddant yn barod i'w gael, yn hytrach nag ar y diwrnod cyntaf.

# 7. Lefelau ymgysylltu a chadw

## 7.1. Teuluoedd sy'n gadael Teuluoedd yn Gyntaf

### 7.1.1. Nid yw'r holl deuluoedd sy'n gadael y rhaglen yn gadael oherwydd rhesymau negyddol

Yn ôl y rhanddeiliaid, mae teuluoedd yn ymddieithrio oddi wrth wasanaethau cymorth am nifer o wahanol resymau, ac ni ddylid ystyried bod hyn yn rhywbeth negyddol bob tro. Mewn rhai achosion, efallai y bydd teuluoedd yn gadael y rhaglen yn gynnar gan eu bod eisoes wedi cael y cymorth roeddynt ei angen. Fel yr esboniodd 1 rhanddeiliad, efallai y bydd teuluoedd yn gadael y rhaglen ar ôl ychydig sesiynau gan fod eu pryderon cychwynnol wedi cael eu datrys a chan eu bod yn teimlo'n barod i symud yn eu blaen: "Weithiau... [mae teuluoedd yn ymddieithrio]... gan eu bod wedi cael y cymorth angenrheidiol... Mae'r cymorth wedi arwain at newid mawr yn eu bywydau, maent yn eithaf bodlon ar y pryd, ac maent yn gadael oherwydd y rhesymau hynny."

Ymhellach, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid fod y broses sydd ynghlwm wrth yr asesiad cychwynnol, ynddi'i hun, yn gallu trawsnewid sefyllfaoedd teuluoedd, gan ei bod yn eu hannog i fyfyrio ac yn eu helpu i bennu problemau nad oeddynt wedi'u cydnabod yn llwyr o'r blaen. Ys dywedodd 1 rhanddeiliad: "Weithiau, bydd pobl yn mynychu asesiad, ac yn ystod yr asesiad cychwynnol hwnnw byddant yn dweud pethau nad ydynt wedi'u dweud erioed o'r blaen. Maent yn gweld beth yw eu problem ac yn sylweddoli y gallant ei datrys eu hunain. Mae cael trafodaeth o'r fath fel teulu yn ystod yr asesiad yn eu galluogi i feddwl, 'Iawn, gallwn wneud y peth a'r peth i wella'r sefyllfa'."

Hefyd, dywedodd y rhanddeiliaid fod rhaglenni cymorth hwy yn tueddu i fod â chyfraddau gadael uwch gan fod teuluoedd yn ymddieithrio cyn gynted ag y byddant o'r farn eu bod wedi cyflawni eu nod, hyd yn oed pan na fo'r rhaglen lawn wedi'i chwblhau: "Pan mae rhaglen hwy ar waith, mae pobl yn tueddu i adael ar wahanol adegau pan fyddant o'r farn fod y broblem wedi'i datrys."

### 7.1.2. Lefel angenrheidiol yr ymrwymiad

Ffactor arall sydd, o bosibl, yn cyfrannu at ymddieithrio ymhlith teuluoedd yw lefel angenrheidiol yr ymrwymiad. Ym marn rhai o'r rhanddeiliaid, mae hi braidd yn afrealistig disgwyl i deuluoedd fynychu sesiynau wythnosol am 10 i 12 wythnos. Efallai y bydd rhieni'n cael anhawster i fynychu'n gyson oherwydd cyfrifoldebau eraill neu ddigwyddiadau annisgwyl yn eu bywydau, neu gan fod y profiad yn eu llethu. Cydnabu 1 rhanddeiliad y

byddai yntau hefyd yn cael anhawster i ymrwymo i raglen wythnosol dros gyfnod estynedig: “Pe bawn yn gorfod mynd i’r un lle bob dydd Mercher am y 10 wythnos nesaf, rydw i’n credu y buaswn innau hefyd yn cael anhawster... Mae angen inni gael disgwyliadau ychydig yn fwy realistig.”

Fel y nodwyd eisoes (Canfyddiadau am Teuluoedd yn Gyntaf), dywedodd rhai o’r teuluoedd y buom yn siarad â nhw eu bod yn cael anhawster i fynychu sesiynau o dro i dro – er enghraifft, gan mai yn ystod y dydd yn unig y cynhelir sesiynau cymorth, neu oherwydd anawsterau gyda gofal plant.

Er mwyn mynd i’r afael â’r heriau hyn, mae rhai awdurdodau lleol wedi cyflwyno opsiynau mwy hyblyg, yn cynnwys sesiynau a gynhelir yn ystod y penwythnos er mwyn hwyluso teuluoedd sy’n cael anhawster i fynychu sesiynau yn ystod yr wythnos. Hefyd, mae rhai rhaglenni wedi gwneud ymdrech arbennig i ymgysylltu â thadau, gan gydnabod bod ymrwymiadau gwaith yn gallu eu hatal rhag cymryd rhan mewn sesiynau yn ystod yr wythnos.

> “Mae gennym drefniant gyda’r Tîm o Amgylch y Teulu – er enghraifft, bod ‘gwasanaeth yr 1 diwrnod’ yn cael ei gynnig. Mae aelodau’r tîm yn gweithio ar benwythnosau hefyd er mwyn ceisio hwyluso pobl i ddefnyddio gwasanaethau... Mae hi braidd yn rhy gynnar inni ddweud a yw hyn wedi bod yn llwyddiant, ond mae’r opsiwn ar gael. Y syniad wrth ei wraidd oedd y gallem wneud gwaith grŵp, a gweithio gyda thadau’n arbennig, ar benwythnosau pan na fyddant yn gweithio.”

Ymhellach, dywedodd rhanddeiliaid fod cynnydd mewn gwasanaethau ar-lein wedi hwyluso rhai teuluoedd – drachefn, tadau’n arbennig – i ymhél â’r cymorth o bell, gan gael gwared â rhwystrau’n ymwneud ag amser, teithio neu amserlenni gwaith: “Mae llawer mwy o dadau’n ymhél â’r rhaglen, gan eu bod yn gallu gwneud hynny ar-lein yn eu cartref.”

### 7.1.3. Y stigma sydd ynghlwm wrth gael cymorth

Yn ôl rhai o’r rhanddeiliaid, mae’n bosibl bod y modd y caiff y cymorth ei gyfleu a’i gyfathrebu yn effeithio ar y modd y mae teuluoedd yn ymhél ag ef. Efallai fod rhai teuluoedd yn teimlo’n anghyfforddus yn cymryd rhan mewn gwasanaethau sydd, yn eu tyb nhw, yn awgrymu bod rhywbeth o’i le ar eu sgiliau rhianta. Er mwyn atal hyn rhag digwydd, dywedodd 1 rhanddeiliad y gall newid yr iaith a’r brandio mewn ffordd gynnil beri i’r cymorth deimlo’n fwy hygyrch a chroesawgar: “Rydym wedi newid pethau... felly ‘rhaglenni i rieni’ neu ‘raglenni rhianta’ sydd gennym nawr yn hytrach na ‘chymorth rhianta’.

Ymddengys nad yw'r newid isganfyddol hwn yn awgrymu bod rhywbeth o'i le ar eu sgiliau rhianta yn yr un ffordd, ac ymddengys ei fod yn gwneud gwahaniaeth mawr."

Ymhellach, dywedodd y rhanddeiliaid y gall rhai teuluoedd ymddieithrio gan eu bod yn teimlo cywilydd neu warth ynglŷn â chael cymorth, yn enwedig pan fo'r gwasanaeth yn gysylltiedig â'r awdurdod lleol. Er nad yw Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen statudol, dywedodd y rhanddeiliaid y gall ei chysylltiad â'r cyngor beri i deuluoedd oedi neu deimlo'n anesmwyth, gan eu bod ofn bod yn destun beirniadaeth neu stigma.

Fel y nodwyd eisoes, dywedodd y teuluoedd a gymerodd ran yn y cyfweliadau eu bod wedi oedi ar y cychwyn cyn ymhél â Teuluoedd yn Gyntaf, rhag ofn bod y rhaglen yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol. Hefyd, awgrymwyd bod rhai teuluoedd yn ofni cael eu beirniadu. Ond fel y nodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad, ar y cyfan roedd y teuluoedd o'r farn fod y gweithwyr cymorth yn hynod gyfeillgar ac anfeirniadol. Dywedodd 1 unigolyn a ymatebodd i'r arolwg: "Mae'n rhaglen wych. Pan gefais gynnig y rhaglen, bu'n rhaid imi roi fy malchder i'r naill ochr ac roeddwn yn ofni eu bod o'r farn nad oeddwn yn rhiant digon da. Ond nid felly y bu pethau. Maent yn amyneddgar ac yn llawn cydymdeimlad, ac roeddynt wir eisiau helpu."

### 7.1.4. Parodrwydd teuluoedd i gymryd rhan mewn cymorth grŵp

Tynnwyd sylw at yr effaith a gafodd COVID-19 ar barodrwydd teuluoedd i gymryd rhan mewn cymorth grŵp. Roedd ambell randdeiliad o'r farn fod rhai teuluoedd wedi mynd yn fwy ynysedig yn gymdeithasol, a'u bod bellach yn ofni mynychu sesiynau wyneb yn wyneb, yn enwedig pan nad oeddynt yn gwybod pwy arall a fyddai'n mynychu'r sesiynau. Dywedodd 1 rhanddeiliad: "Erbyn hyn, dim ond â phethau cyfarwydd y mae pobl yn gyfforddus." Maent yn adnabod eu teulu a'u cyfeillion agos, ond maent ychydig yn fwy anfodlon ac amharod i fynd i leoedd eraill.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, ar y cyfan roedd y bobl a gymerodd ran yn y cyfweliadau o'r farn eu bod wedi cael cynnig 2 opsiwn, sef cymorth wyneb yn wyneb neu gymorth ar-lein. Roedd 1 cyfranogwr yn arbennig o ddiolchgar am yr hyblygrwydd hwn, a dywedodd nad oedd eisiau "cymdeithasu gyda phobl eraill" a'i fod yn falch o allu cymryd rhan ar-lein.

Dywedodd 1 rhanddeiliad mewn awdurdod lleol fod yr amharodrwydd hwn wedi newid y mathau o gymorth a gynigir i deuluoedd, a bod ychwaneg o sesiynau cymorth un-i-un yn cael eu cynnig. Roedd y rhanddeiliad hwn o'r farn fod amharodrwydd teuluoedd i gymryd

rhan mewn cymorth grŵp yn deillio hefyd o’r ffaith bod yr achosion bellach yn fwyfwy cymhleth, a bod teuluoedd o’r farn eu bod angen cymorth un-i-un a phwrpasol.

> “Rydym wedi sylwi ar draws yr holl raglen (nid yn y Tîm o Amgylch y Teulu yn unig) bod llawer llai o deuluoedd yn cymryd rhan mewn cymorth grŵp erbyn hyn. Ers talwm, roedd pobl yn mwynhau cymryd rhan mewn grwpiau, ond erbyn hyn mae’n well ganddynt gael cymorth un-i-un. Pan oeddem yn ysgrifennu ein contractau, rhoddwyd llawer o sylw i gymorth grŵp; ond ar ôl ystyried y peth, rydym nawr am ychwanegu grwpiau at gymorth un-i-un, fel rhyw fath o opsiwn ychwanegol. Oherwydd y cymhlethdodau cynyddol, rydw i’n credu bod teuluoedd o’r farn eu bod angen cymorth un-i-un.”

Dyma bwynt pwysig arall: er na nodwyd hyn gan yr awdurdod lleol, gellir tybio bod cymorth un-i-un yn fwy llafurddwys, ac o’r oherwydd ei fod yn costio mwy i’r awdurdod lleol.

### 7.1.5. Nid yw rhai teuluoedd yn teimlo’n barod i gael cymorth

Dywedodd y rhanddeiliaid fod rhai teuluoedd yn gadael gwasanaethau cymorth gan nad ydynt yn teimlo’n barod i ymgysylltu neu gymryd perchnogaeth ar y problemau sy’n eu hwynebu. Er y gallant fynegi parodrwydd i gymryd rhan ar y cychwyn, gall y realiti o orfod ymrwymo i newid eu llethu, gan beri iddynt ymddieithrio. Dywedodd 1 rhanddeiliad: “Rydym wedi gweld ymddieithrio mawr. Mae pobl yn dweud ‘rydym yn barod i gael cymorth’, ond yna, maent yn sylweddoli ‘nid wyf y barod’.”

Yn nifer o’r achosion hyn, cafodd teuluoedd eu hatgyfeirio gan weithwyr proffesiynol fel ysgolion neu ymwelwyr iechyd, yn hytrach na’u bod wedi’u hatgyfeirio’u hunain. Awgrymodd y rhanddeiliaid fod hunanatgyfeiriadau’n fwy tebygol o beri i’r teuluoedd ymgysylltu yn yr hirdymor, oherwydd mae teuluoedd sy’n ceisio help ar eu liwt eu hunain yn tueddu i fod wedi ymrwymo i raddau mwy: “Efallai y bydd rhywun arall yn gwneud atgyfeiriad neu’n awgrymu eu bod angen cymorth – fel arfer, ysgolion neu ymwelwyr iechyd. Ond mae pethau’n gweithio’n well pan fo teuluoedd yn eu hatgyfeirio’u hunain. Os ydynt yn hunanatgyfeirio, rydych yn gwybod eu bod eisiau’r help hwnnw. Mae pethau mor syml â hynny, ac fel arfer byddant yn aros yn y rhaglen tan y diwedd.”

### 7.1.6. Efallai y bydd teuluoedd yn ymddieithrio pan aiff pethau’n rhy anodd

Yn yr un modd â’r pwynt uchod, dywedodd y rhanddeiliaid fod rhai teuluoedd yn gadael ar ôl iddynt sylweddoli na fydd gweithwyr proffesiynol yn ‘datrys’ y problemau ar eu rhan a

bod yn rhaid iddynt, yn hytrach, weithio gyda gweithwyr proffesiynol ar y modd y maent yn ymddwyn, ynghyd â gwneud newidiadau anodd eu hunain. Yn ôl 1 rhanddeiliad, gall yr ymdrech ofynnol fod braidd yn frawychus, gan beri i rai teuluoedd ymddieithrio: "Mae rhai teuluoedd yn gweld na allwn ni gael gwared â'r mater neu'r broblem. Rhaid iddyn nhw weithio ar bethau a newid eu ffyrdd o ymddwyn, ac maent yn sylweddoli, 'rargian, dyma dasg enfawr'. Nid yw pethau mor syml â ffonio rhywun a chael gwared â'r problemau, felly maent yn gadael y rhaglen."

#### 7.1.7. Efallai y bydd teuluoedd yn gadael Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl sylweddoli bod y cymorth yn wirfoddol

Dywedodd ambell randdeiliad fod rhai teuluoedd yn ymddieithrio ac yn gadael Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl iddynt sylweddoli mai rhywbeth gwirfoddol yw cymryd rhan yn y rhaglen. Gall hyn ddigwydd mewn achosion pan fo teuluoedd yn 'camu i lawr' o wasanaethau statudol; ar y cychwyn, efallai y byddant yn cytuno i ymhél â'r rhaglen fel rhan o'u cynllun ymadael, ond ni fyddant yn parhau ar ôl sylweddoli mai rhywbeth gwirfoddol yw cymryd rhan. "Efallai fod nifer fechan o deuluoedd yn meddwl... 'roeddwn yn teimlo dan rywfaint o bwysau... Fe wnaethom ddweud y byddem yn cymryd rhan oherwydd roeddem yn meddwl bod hynny'n orfodol, nid oeddem yn sylweddoli mai rhywbeth gwirfoddol oedd e.' Felly, mae teuluoedd o'r fath yn gadael y rhaglen." Yn yr un modd, dyma a ddywedodd rhanddeiliad arall: "Mae rhai ohonynt yn cymryd arnynt eu bod am gymryd rhan, yn enwedig os ydynt yn camu i lawr o wasanaeth statudol fel diogelu plant. Efallai y bydd y cynllun ymadael a luniwyd gan y gweithwyr cymdeithasol yn cynnwys 12 wythnos o gymorth parhaus, ond ni fyddant yn mynychu oherwydd maent yn falch o allu gadael. Byddant yn dweud unrhyw beth er mwyn cael gadael y gwasanaethau statudol."

Dengys hyn pa mor bwysig yw cyfathrebu clir, gan sicrhau bod teuluoedd yn deall natur wirfoddol cymorth Teuluoedd yn Gyntaf, a'u bod hefyd yn deall y manteision sy'n perthyn i gymryd rhan mewn cymorth o'r fath ynghyd â'r canlyniadau posibl a allai ddeillio o beidio â datrys unrhyw broblemau sy'n dal i fodoli.

#### 7.1.8. Mae rhai teuluoedd yn dymuno cael gwasanaethau statudol neu maent yn teimlo eu bod angen gwasanaethau statudol

Dywedodd ambell randdeiliad fod rhai teuluoedd yn gobeithio cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc neu wasanaethau statudol arbenigol eraill, yn hytrach nag ymhél â chymorth ymyrraeth gynnar. Gall y disgwyliad hwn arwain at

beidio ag ymgysylltu, gan beri i deuluoedd deimlo eu bod angen cymorth cadarnach trwy gyfrwng gwasanaeth statudol cydnabyddedig yn hytrach na chymorth gan Teuluoedd yn Gyntaf: “Mae nifer o’r teuluoedd hynny’n ymddieithrio gan nad ydynt yn cael y cymorth roeddynt yn ei ddisgwyl. Pan maent yn mynd gerbron y panel SPACE[7], maent yn gobeithio cael Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc gan eu bod yn tybio y bydd hynny’n ‘gwella’ eu plentyn.”

### 7.1.9. Sut y mae rhai awdurdodau lleol yn ceisio gostwng cyfraddau gadael?

Uchod, wrth drafod teuluoedd sy’n gadael y rhaglen a’r rhesymau sydd wrth wraidd eu penderfyniad i adael, nodwyd rhai enghreifftiau o’r modd y mae awdurdodau lleol yn ceisio gostwng lefelau ymddieithrio – megis defnyddio cymorth ar y penwythnos neu gymorth ar-lein.

Mae ffyrdd eraill o geisio gostwng cyfraddau gadael yn cynnwys enghraifft lle’r aeth 1 awdurdod lleol ati i gyflwyno ail asesiad sgrinio i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, er mwyn gostwng lefelau ymddieithrio. Mae’r cam ychwanegol hwn yn cynnwys cysylltu â theuluoedd ar ôl eu hatgyfeiriad cychwynnol fel y gellir cadarnhau eu hanghenion, asesu unrhyw newidiadau yn eu bywyd ers yr atgyfeiriad neu’r asesiad cychwynnol, a gwirio’u parodrwydd i gael cymorth: “Erbyn i’r ail asesiad sgrinio gael ei gynnal – sef eu ffonio a dweud, ‘Helo, rydym wedi cael eich atgyfeiriad... A yw pethau ar y trywydd iawn? A oes unrhyw beth wedi newid?’ – rydym yn eu cymell i wneud y penderfyniad hwnnw. Gyda gobaith, bydd hyn yn gwella cyfraddau ymgysylltu ac yn gostwng cyfraddau gadael.”

Dywedodd awdurdod lleol arall ei fod wedi dechrau rhoi hyfforddiant ‘damcaniaeth newid’ i’w staff ar gyfer asesu parodrwydd teuluoedd a sicrhau bod y cymorth yn cael ei gynnig ar yr adeg iawn. Yn achos teuluoedd nad ydynt yn barod, cânt yr opsiwn i ddychwelyd pan fyddant yn teimlo’n barod i ymhél yn llwyr â’r cymorth, yn hytrach na’u rhoi dan bwysau i gymryd rhan: “Rydym yn mynd ati i gynorthwyo staff yr holl raglen i ddeall damcaniaethau newid... Os nad yw teuluoedd yn barod, byddwn yn gadael iddynt fynd, ac yna gallant ddychwelyd ar unrhyw adeg pan fyddant yn teimlo’n barod i roi’r newid hwnnw ar waith.”

Troednodyn:
[7] Mae panel Llesiant SPACE (“Un Pwynt Mynediad ar gyfer Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant”) yn cydlynu atgyfeiriadau ar gyfer llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant, gan ddwyn ynghyd wasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid i bennu’r ymateb gorau.

Mae enghraifft arall yn cynnwys awdurdod lleol a ddywedodd y bydd yn mynd ati'n aml i ganolbwyntio ar gyflawni "enillion rhwydd" yn gynnar yn siwrnai'r teulu er mwyn meithrin ymddiriedaeth, ymgysylltiad a chymhelliant cyn mynd i'r afael â materion mwy cymhleth. Er bod yn rhaid ymdrin ag anghenion taer yn ddi-oed, gall cynnydd cyflym a sylweddol helpu teuluoedd i deimlo eu bod yn symud yn eu blaen, gan eu hannog i barhau i ymhél â gwasanaethau.

## 7.2. Effaith COVID-19 ar wasanaethau wyneb yn wyneb a gwasanaethau ar-lein

Cafodd y pandemig effaith fawr ar y modd y darperir gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, yn enwedig mewn perthynas â hygyrchedd a chymorth wyneb yn wyneb. Pan roddwyd y gorau i gynnal sesiynau wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig, addasodd awdurdodau a darparwyr gwasanaethau eu dulliau trwy ddarparu rhaglenni rhithwir.

Fel y nodwyd eisoes, trwy droi at gynnig cymorth ar-lein bu modd iddynt gyrraedd ychwaneg o rieni, yn enwedig rhai a oedd wedi cael anawsterau i fynychu sesiynau wyneb yn wyneb rheolaidd oherwydd cyfyngiadau amser neu ymrwymiadau eraill, megis gwaith – yn cynnwys tadau, er enghraifft.

Hefyd, dywedodd y rhanddeiliaid hyn fod teuluoedd sy'n gyndyn o fynychu sesiynau grŵp wyneb yn wyneb yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cymryd rhan mewn grŵp ar-lein, gan eu bod yn teimlo bod eu cyfraniad yn fwy dienw.

Er bod dulliau rhithwir wedi cynnig mwy o hyblygrwydd a gwell hygyrchedd, pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod cymorth wyneb yn wyneb yn dal i fod yn hanfodol, yn enwedig i deuluoedd ag anghenion uwch. Hyd yn oed yn ystod y pandemig, parhawyd i gynnal sesiynau cymorth wyneb yn wyneb pan oedd angen, gan sicrhau bod teuluoedd ag anghenion cymorth dwysach wedi cael cymorth wyneb yn wyneb.

Mae awdurdodau lleol wedi parhau i roi dull hybrid ar waith ar ôl y pandemig, gan gynnig cymysgedd o gymorth rhithwir a chymorth wyneb yn wyneb. Maent o'r farn fod hyn yn cynnig mwy o ddewis i deuluoedd, gan eu galluogi i ddefnyddio gwasanaethau yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau.

## 7.3. A yw teuluoedd yn ailymgysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl gadael?

Dywedodd ambell randdeiliad fod rhai teuluoedd yn gadael Teuluoedd yn Gyntaf ac yn ymgysylltu o’r newydd â’r rhaglen yn nes ymlaen ar ôl i’w hamgylchiadau newid neu pan oeddynt yn teimlo’n fwy parod i gymryd perchnogaeth dros eu problemau. Yn ôl y rhanddeiliaid, mae amseru yn bwysig yn hyn o beth; ar y cychwyn, efallai y bydd teuluoedd yn gwrthod cymorth, ond efallai y byddant yn dychwelyd rai misoedd yn ddiweddarach pan fyddant yn teimlo’n fwy parod i’w dderbyn: “Mae nifer o deuluoedd wedi ymgysylltu o’r newydd gyda ni, neu wedi ailymuno â’r system. Mae hynny’n hollol dderbyniol. Weithiau, nid yw pethau’n digwydd ar yr adeg iawn i deuluoedd... Er enghraifft, gwrthododd 1 teulu ein gwasanaeth a chaewyd yr achos. Ond 3 mis yn ddiweddarach, daeth y teulu’n ôl gyda’r 1 atgyfeiriad yn union, gan dderbyn cymorth.”

Er nad yw awdurdodau lleol bob amser yn olrhain cyfraddau ailatgyfeirio, dywedodd rhai ohonynt eu bod yn amau bod cyfran sylweddol o deuluoedd yn dychwelyd i gael cymorth ar ôl ymddieithrio ar y cychwyn: “Yn gyffredinol, bydd teuluoedd wastad yn ailymuno â’r gwasanaeth. Nid ydym yn eu holrhain o angenrheidrwydd, ond rwy’n amau bod y gyfradd yn weddol uchel.”

Mewn ambell achos, dywedodd y rhanddeiliaid mai ar ôl i sefyllfaoedd teuluoedd gyrraedd argyfwng y byddant yn ailymgysylltu. Er y byddant yn gwrthod neu’n osgoi cymorth ar y cychwyn, byddant yn dychwelyd yn ddiweddarach ar ôl sylweddoli eu bod angen help ar frys. “Weithiau, byddant yn cytuno i weithio gyda ni ac yna byddant yn newid eu meddwl. Ni fyddant yn ymgysylltu â ni am sbel, dwywaith neu dair efallai; ac yna, byddant yn cyrraedd argyfwng ac yn dweud, ‘Rydym wir angen ymgysylltu nawr’. Felly, mae teuluoedd yn dod yn ôl atom.”

## 7.4. A yw teuluoedd yn ailymgysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf?

Dywedodd y rhanddeiliaid fod rhai teuluoedd yn dychwelyd at Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl cwblhau’r rhaglen, naill ai gan nad oedd eu cymorth cychwynnol yn ddigonol, gan eu bod angen ymyriad dwys arall, neu gan fod anghenion newydd wedi dod i’r amlwg yn ystod eu hymgysylltu blaenorol.

Mewn nifer o achosion, dywedodd y rhanddeiliaid fod ailymgysylltu o’r fath yn digwydd gan fod anghenion teuluoedd wedi gwaethygu. Er enghraifft, efallai fod teuluoedd wedi mynychu rhaglen grŵp, ond efallai eu bod yn teimlo’n ddiweddarach eu bod angen


cymorth dwysach a mwy pwrpasol er mwyn iddynt allu mynd i'r afael yn llwyr â'r heriau sy'n eu hwynebu.

Mewn perthynas ag achosion mwy cymhleth ac anghenion ychwanegol a ddaw i'r amlwg, dyma a ddywedodd 1 rhanddeiliad: "Efallai y byddwn yn cynnig rhaglen rianta 10 wythnos iddynt. Ond ar ôl dechrau, rydym yn sylweddoli bod angen cynnwys gwaith ymwrthiant annhreisgar, gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a chyflwyno ymwybyddiaeth ofalgar. Ychydig iawn o'n pecynnau gofal sy'n syml – rydym yn eu teilwra trwy gymryd rhywfaint o hyn a rhywfaint o'r llall."

Yn ychwanegol at yr uchod, dywedodd ambell awdurdod lleol fod rhai teuluoedd yn ailymgysylltu er mwyn cael rhywfaint bach o help – er enghraifft, trwy gyfrwng gwasanaethau galw heibio mewn Canolfannau Plant Integredig. Mewn amgylchiadau o'r fath, dyma deuluoedd sydd angen rhywfaint bach o help yn unig, a go brin y byddant angen cael eu hasesu.

Yn yr arolwg ar-lein, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt wedi cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf ers cael cymorth. Dywedodd hanner (50%) yr ymatebwyr nad oeddynt wedi cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf drachefn; dywedodd oddeutu 2 ran o 5 (41%) eu bod wedi cysylltu; a dywedodd 10% yn ychwaneg eu bod yn ansicr a oeddynt wedi ailgysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf ai peidio.

**Ffigur 4: A ydych wedi cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf eto ers cael y cymorth cyntaf? (N = 115) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**




Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf

Disgrifiad o Ffigur 4: siart far yn dangos bod 41% o'r ymatebwyr wedi cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf ers cael cymorth; dywedodd 50% nad oeddynt wedi cysylltu a dywedodd 10% nad oeddynt yn siŵr neu nad oeddynt yn cofio.

Gofynnwyd i'r teuluoedd pam yn union y gwnaethant gysylltu drachefn. Dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod wedi cysylltu am yr un rhesymau â'r rhai a oedd wrth wraidd eu

cyswllt cyntaf (70%); dywedodd oddeutu chwarter (26%) eu bod wedi cysylltu am reswm gwahanol.

Yn y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda’r teuluoedd, mae’n werth nodi bod rhai teuluoedd wedi cael cymorth dros gyfnod maith, neu eu bod wedi cael eu hatgyfeirio o 1 gwasanaeth cymorth i wasanaeth arall ar ôl i’w cymorth ddod i ben; ond efallai nad oeddynt o’r farn fod hyn yn golygu eu bod wedi ‘cysylltu’ â Teuluoedd yn Gyntaf wedyn ar ôl i’w cymorth cychwynnol ddod i ben.

## 7.5. Cynnig cymorth


Er mwyn arwain yr ymatebwyr at y cwestiynau priodol, gofynnwyd a oeddynt wedi cael cynnig cymorth ar ôl cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf. Dywedodd bron pob un o’r ymatebwyr (87%) eu bod wedi cael cynnig cymorth. Dim ond 20 (5%) a ddywedodd nad oeddynt wedi cael cynnig cymorth; ni allai 8% gofio a gynigiwyd cymorth iddynt ai peidio.

Er bod y sampl yn fach ar gyfer y rhai na chynigiwyd cymorth iddynt (sef 5% – neu 7 ymatebydd), gofynnwyd cwestiynau dilynol. Arweiniodd y cwestiynau dilynol hyn at fewnwelediad diddorol ynglŷn ag ymgysylltu. Er enghraifft, o blith y rhai na chynigiwyd cymorth iddynt (7 ymatebydd), dywedodd 1 ei fod wedi cael ei atgyfeirio i rywle arall, a dywedodd 6 na chawsant eu hatgyfeirio.

O blith y 7 ymatebydd na chynigiwyd cymorth iddynt, ni chafodd 2 ohonynt unrhyw gyswllt uniongyrchol/dilynol gan Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl eu hatgyfeiriad. Rhoddodd Teuluoedd yn Gyntaf wybod i 2 ohonynt na allai’r rhaglen ddarparu cymorth priodol, neu nad oedd unrhyw gymorth ar gael. Yn y cyfamser, daeth 2 ohonynt o hyd i gymorth yn rhywle arall, a dywedodd yr ymatebydd olaf ei fod wedi cael ei atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol.

## 7.6. Cael gafael ar yr holl gymorth a oedd ar gael

**Ffigur 5: A gawsoch afael ar yr holl gymorth a gynigiwyd ichi? (N = 115) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**




Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Ffigur 5: siart far yn dangos bod 88% o'r ymatebwyr wedi cael gafael ar yr holl gymorth a gynigiwyd iddynt; dywedodd 7% na chawsant afael ar yr holl gymorth a dywedodd 5% nad oeddynt yn cofio neu nad oeddynt yn gwybod.

O blith y rhai y cynigiwyd cymorth iddynt, dywedodd bron pob un o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg (92%) eu bod wedi cael y cymorth hwnnw; a dywedodd oddeutu 9 rhan o 10 ohonynt (88%) eu bod wedi cael yr holl gymorth a gynigiwyd iddynt.

Yn achos y rhai nad aethant yn eu blaen i gael yr holl gymorth (8 ymatebydd), roeddynt yn tueddu i deimlo nad oeddynt angen y cymorth (3 o blith 8), roeddynt o'r farn fod amseru'r cymorth yn anaddas (2 o blith 8), neu dywedasant nad oedd y cymorth yn diwallu eu hanghenion (1 o blith 8). Ni allai 2 ohonynt gofio pam na chawsant yr holl gymorth a gynigiwyd.

Yn y cyfamser, yn achos y rhai na chawsant unrhyw gymorth (er bod cymorth wedi'i gynnig iddynt), gwelir eu bod wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng rhesymau hunangyfeiriedig dros beidio â derbyn y cymorth (hynny yw, nid oeddynt o'r farn eu bod angen y cymorth neu nid aethant ar drywydd yr atgyfeiriad) a rhesymau'n ymwneud ag ansawdd y cymorth a gynigiwyd iddynt (hynny yw, nid oedd y cymorth roeddynt ei eisiau ar gael neu bu'n rhaid iddynt aros yn rhy hir i'w gael).

## 7.7. Ailymgysylltu a hyd y cymorth

Yn y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda'r teuluoedd, gofynnwyd am ba hyd y cawsant gymorth. Er bod nifer o'r cyfweleion wedi dilyn rhaglen gymorth a oedd yn para oddeutu 10

i 12 wythnos, cafodd rhai ohonynt gymorth am gyfnod hwy o lawer – yn cynnwys, mewn rhai amgylchiadau, cymorth a barhaodd am sawl mis, neu fwy na blwyddyn hyd yn oed. Ond efallai fod teuluoedd wedi disgrifio'u hymgysylltiad â Teuluoedd yn Gyntaf ar ffurf un profiad dros gyfnod estynedig, yn hytrach na nifer o ailymgysylltiadau a arweiniodd at atgyfeiriadau niferus, gan nad oeddynt bob amser yn siŵr pa gymorth a ddarparwyd trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf.

Yn achos y mwyafrif o'r teuluoedd a gymerodd ran yn y cyfweliadau, ni wnaethant ailymgysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf ac nid oeddynt yn awyddus i ailadrodd y rhaglenni cymorth roeddynt wedi cymryd rhan ynddynt eisoes; yn wir, dywedodd rhai o'r cyfweleion eu bod wedi deall y gwersi a ddysgwyd yn sgil y cymorth, a'u bod yn rhoi'r gwersi hynny ar waith yn eu bywydau dyddiol. Ond yn ychwanegol at rai teuluoedd a ddefnyddiodd gymorth Teuluoedd yn Gyntaf am gyfnod estynedig, bu rhai teuluoedd eraill yn ymhél â chymorth Teuluoedd yn Gyntaf sawl tro. Roedd y teuluoedd hynny'n gwybod bod Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu gwasanaethau ychwanegol, y tu hwnt i'r gwasanaethau a gawsant eisoes. Mewn rhai achosion, roedd teuluoedd o'r farn fod Teuluoedd yn Gyntaf yn adnodd posibl y gallent ddychwelyd ato wrth i anghenion eu teulu esblygu dros amser – er enghraifft, wrth i'w plant heneiddio neu gael eu diagnosio ag anghenion dysgu ychwanegol.

> "Wrth ichi symud yn eich blaen wrth heneiddio, ni all rhai elusennau gynnig cymorth gan eu bod yn canolbwyntio ar ystod oedran arbennig ac ati. Byddaf yn edrych ar [wefan Teuluoedd yn Gyntaf] eto, ac rydw i'n siŵr y caf help gan yr elusennau eraill sydd wedi cofrestru ac y byddaf yn cael fy arwain i gael golwg ar beth arall sydd ar gael."

Mewn achosion eraill, penderfynodd gwasanaethau a gomisiynwyd y dylai teuluoedd barhau i gael cymorth ar ôl iddynt gwblhau eu hymyriad, ac atgyfeiriwyd y teuluoedd hynny at wasanaethau eraill a ddôi dan adain Teuluoedd yn Gyntaf.

## 7.8. Darpariaeth iaith

Holwyd y rhanddeiliaid am y ddarpariaeth Gymraeg – yn arbennig, a oes digon o gyfleoedd ar gael i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn cael cymorth.

Yn achos yr awdurdodau lleol hynny sy'n tueddu i fynnu y dylai eu staff (ledled yr awdurdod lleol) siarad Cymraeg, dywedasant fod eu gwasanaethau'n gwbl ddwyieithog. Ni allent feddwl am unrhyw wasanaeth nad oedd modd ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn achos awdurdodau lleol eraill, er eu bod yn ymdrechu i gynnig darpariaeth Gymraeg, dywedasant eu bod yn cael anhawster i ganfod a recriwtio siaradwyr Cymraeg. Ond ceir tystiolaeth gref sy'n awgrymu bod pobl yn gofyn am wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, dywedodd 1 awdurdod lleol mai nifer fechan o bobl yn unig a oedd yn cymryd rhan yn ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, er gwaethaf y ffaith bod nifer gymharol fawr o'i boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, ac er gwaethaf y ffaith ei fod yn darparu nifer o'i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhywbeth arall a oedd yn destun pryder i ambell awdurdod lleol oedd gallu cyfathrebu â phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol sy'n siarad ieithoedd ac eithrio Cymraeg neu Saesneg, neu sy'n siarad fawr ddim Cymraeg neu Saesneg.

## 7.9. Grwpiau anodd eu cyrraedd

### 7.9.1. Heriau o ran ymgysylltu â theuluoedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol

Dywedodd y rhanddeiliaid fod ymgysylltu â theuluoedd o gymunedau ethnig leiafrifol yn gallu esgor ar heriau unigryw, yn cynnwys rhwystrau ieithyddol, gwahaniaethau diwylliannol, ac ofni ymgysylltu â gwasanaethau – yn enwedig oherwydd pryderon ynglŷn â'r modd y gallai cael gafael ar wasanaethau effeithio ar eu statws mewnfudo. Yn ôl 1 rhanddeiliad: "Daeth grŵp enfawr o deuluoedd o Nigeria trwy'r rhaglen, a bu'n rhaid inni dawelu eu meddyliau nad oedd derbyn cymorth yr un fath â derbyn grantiau neu arian, a allai effeithio ar eu statws. Roedd rhai teuluoedd ofn gadael i bobl ddanfon dodrefn i'w tai, hyd yn oed – gan eu bod ofn torri'r rheolau."

Dywedodd 1 awdurdod lleol fod ganddo weithiwr cymorth pwrpasol ar gyfer ymgysylltu â phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol, er mwyn helpu i feithrin ymddiriedaeth a gwella'r modd yr ymgysylltir â'r cymunedau hynny. Ond cafodd y rôl ei dirwyn i ben oherwydd cyfyngiadau cyllido, gan adael bwlch mewn cymorth penodol o'r fath: "Roedd hi'n ennill arbenigedd a gwybodaeth na fyddai gweithwyr eraill wedi cael cyfle i'w datblygu (hynny yw, gweithwyr a oedd yn gweithio gydag un neu 2 o deuluoedd ethnig leiafrifol yn unig). Rydym wedi ceisio cadw'r wybodaeth honno yn y tîm; ond megis dechrau oedd y rôl mewn gwirionedd, ac fe'i collwyd cyn iddi gyrraedd ei llawn botensial."

### 7.9.2. Gweithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Dywedodd nifer o awdurdodau lleol fod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn grŵp anodd ei gyrraedd, ond dywedodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid nad oeddynt wedi ymgysylltu rhyw lawer â'r cymunedau hynny.

Fodd bynnag, dywedodd 1 awdurdod lleol ei fod, yn y gorffennol, wedi cydlynu grŵp chwarae ar safle Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ochr yn ochr â Dechrau'r Deg, a bod y grŵp hwnnw wedi helpu i ymgysylltu â'r gymuned hon. Ond daeth y fenter i ben – drachefn oherwydd diffyg cyllid. Dywedodd awdurdod lleol arall fod ganddo arbenigwr sy'n ymgysylltu â theuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan eu hatgyfeirio at EYST neu wasanaeth perthnasol arall. Yn yr un modd, nododd awdurdod lleol arall pa mor bwysig yw gweithio 'ar eu cyflymder nhw', gan bwysleisio bod yn rhaid i weithwyr cymorth ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion a bod yn sensitif o ran y modd y dymuna'r gymuned ymgysylltu.

# 8. Canlyniadau ac effeithiau’r rhaglen

## 8.1. Safbwyntiau rhanddeiliaid

### 8.1.1. Atal sefyllfaoedd teuluoedd rhag gwaethygu nes peri eu bod angen gwasanaethau statudol

Un o effeithiau mwyaf arwyddocaol y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yw ei rôl o ran atal sefyllfaoedd teuluoedd rhag gwaethygu nes peri eu bod angen gwasanaethau statudol. Cydnabu’r rhanddeiliaid yn gyffredinol y byddai gwasanaethau plant dan lawer mwy o bwysau heb Teuluoedd yn Gyntaf, gan fod y rhaglen yn cynnig cymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar hanfodol.

Mae rhai teuluoedd yn ymgysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl i ryw argyfwng ddechrau; ond yn aml, mae’r rhaglen yn rhwystro problemau rhag gwaethygu ac mae’n lleihau’r tebygolrwydd y bydd teuluoedd yn cael eu hatgyfeirio droeon at y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno y byddai rhagor o deuluoedd wedi bod angen ymyrraeth ffurfiol gan y gwasanaethau cymdeithasol pe na bai Teuluoedd yn Gyntaf wedi darparu cymorth.

### 8.1.2. Cynorthwyo teuluoedd

Roedd y rhanddeiliaid o’r farn fod Teuluoedd yn Gyntaf yn cael effaith fawr ar hyder rhieni a chydberthnasau teuluoedd. Un agwedd hollbwysig ar y rhaglen yw’r ffaith ei bod yn canolbwyntio ar rymuso rhieni trwy gynnig cymorth emosiynol a chyrsiau rhianta strwythuredig. Ond mae’n bwysig nodi bod y safbwyntiau hyn wedi’u seilio ar ganfyddiad rhanddeiliaid, ac na chânt eu hategu gan ddata neu ddulliau mesur gwrthrychol.

Hefyd, dywedodd y rhanddeiliaid fod cymorth iechyd meddwl ar gyfer rhieni a phlant bellach yn agwedd fwyfwy pwysig ar effaith Teuluoedd yn Gyntaf. Ar ôl y pandemig COVID-19, gwelwyd cynnydd mawr mewn achosion yn ymwneud â gorbryder, iselder a straen ymhlith rhieni, gan beri i dimau Teuluoedd yn Gyntaf ganolbwyntio’n ehangach ar iechyd meddwl a llesiant.

Dywedodd y rhanddeiliaid fod nifer o rieni â phlant gyda chyflyrau niwrowahanol posibl yn teimlo’n ynysedig neu’n ansicr ynglŷn â sut i gael gafael ar gymorth tra maent yn aros am asesiad diagnostig ffurfiol. Dywedasant fod Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn hollbwysig o ran cynorthwyo teuluoedd sy’n aros am asesiadau niwrowahaniaeth, a all gymryd hyd at 5 mlynedd mewn ambell ardal.

Mewn ymateb i'r rhestrau aros maith hyn, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid fod Teuluoedd yn Gyntaf wedi datblygu rolau pwrpasol mewn Timau o Amgylch y Teulu er mwyn rhoi cymorth interim i deuluoedd sy'n aros am ddiagnosis. Hefyd, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid fod ysgolion yn dibynnu fwyfwy ar Teuluoedd yn Gyntaf i helpu plant â heriau ymddygiadol sy'n gysylltiedig â niwrowahaniaeth, gan helpu i leihau'r perygl y byddant yn cael eu gwahardd o'r ysgol.

### 8.1.3. A gaiff canlyniadau cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf eu cyflawni?

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a yw'r canlyniadau cenedlaethol, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, yn cael eu cyflawni – sef:

- "Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau lles"
- "Mae teuluoedd yn hyderus, yn meithrin, ac yn wydn, ac mae ganddynt berthnasoedd iach"

Roedd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid o'r farn fod a wnelo'r canlyniadau hyn â "hanfod" Teuluoedd yn Gyntaf. Dywedodd y rhanddeiliaid fod canolbwynt craidd y rhaglen – sef ymyrraeth gynnar, cymorth i rieni ac iechyd meddwl – yn cydweddu'n dda â'r canlyniadau cenedlaethol uchod. Er enghraifft, soniodd nifer o'r rhanddeiliaid am effeithiau cadarnhaol ar wydnwch a llesiant teuluoedd, yn enwedig trwy gyfrwng ymyriadau rhianta, mentrau ymgysylltu ysgolion a chymorth iechyd meddwl.

Ond mae'n werth nodi nad oedd rhai o'r rhanddeiliaid yn gyfarwydd â'r 2 ganlyniad hyn. Er enghraifft, ar ôl trafod y canlyniadau hyn, dyma a ddywedodd 1 rhanddeiliad: "Rargian, nid wyf wedi clywed y canlyniadau hyn ers sbel – dyna ddangos i ba raddau rydym yn myfyrio arnynt."

### 8.1.4. Mesur perfformiad cenedlaethol


Heb unrhyw gymhelliant, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid eu bod o'r farn nad yw'r data y mae'n ofynnol iddynt ei gasglu a'i gofnodi ar gyfer Llywodraeth Cymru yn llwyddo i gyfleu'n llwyr yr effaith a gaiff y rhaglen ar deuluoedd.

Yn ôl 1 awdurdod lleol, pan mae'n llunio adroddiadau mewnol am effaith Teuluoedd yn Gyntaf, yn enwedig yn wleidyddol ar gyfer pwyllgorau craffu, mae'n llai tebygol o ddefnyddio'r data hwn ac mae'n fwy tebygol o drafod hanesion pobl, er enghraifft: "Wrth gyflwyno gwybodaeth i'n gwleidyddion, mae'n drawiadol ein bod wedi dewis peidio â

defnyddio gwybodaeth Llywodraeth Cymru. Rydym yn defnyddio gwybodaeth a goladwyd gennym ni, oherwydd credwn fod yr wybodaeth hon yn cyflwyno darlun llawer gwell o'r manteision sy'n perthyn i'r gwasanaethau hyn."

## 8.2. Safbwyntiau teuluoedd: yr arolwg ar-lein

**Ffigur 6: I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn: Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi fy helpu i neu fy nheulu (N = 115) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**




Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Ffigur 6: siart far yn dangos bod 89% o'r ymatebwyr yn cytuno bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu helpu nhw neu eu teuluoedd (18% yn cytuno, 71% yn cytuno'n gryf). Dywedodd 3% nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno a dywedodd 7% eu bod yn anghytuno (3% yn anghytuno, 4% yn anghytuno'n gryf).

Roedd oddeutu 9 rhan o 10 (89%) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ac a gafodd gymorth gan Teuluoedd yn Gyntaf yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu helpu nhw neu eu teuluoedd, yn cynnwys oddeutu 7 rhan o 10 a oedd yn cytuno'n gryf (71%). Roedd 7% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu helpu nhw neu eu teuluoedd.

Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr pam oeddynt yn coleddu'r farn honno. Isod, dangosir y themâu cadarnhaol yn Nhabl 2 a'r themâu negyddol yn Nhabl 3.

**Tabl 2: Ymatebion a godiwyd yn thematig mewn perthynas â pham roedd teuluoedd o'r farn fod Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu helpu / heb eu helpu nhw neu eu teuluoedd (ymatebion cadarnhaol) (N=110) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Pam ydych yn teimlo fel hyn? (Cadarnhaol) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Roedd y gweithwyr cymorth yn gefnogol neu'n llawn empathi / fe wnaethant ragori ar y disgwyliadau | 30 | 26% |
| Arweiniodd at wella fy mywyd/llesiant i neu fywyd/llesiant fy mhlentyn / datryswyd ein problemau | 28 | 24% |
| Profiad da / cadarnhaol ar y cyfan | 27 | 23% |
| Cyfeirio da / gwybod ble i gael cymorth | 9 | 8% |
| Roedd y gweithgaredd / digwyddiad yn ddefnyddiol / o ansawdd da | 9 | 8% |
| Cymorth gyda'r ysgol | 9 | 8% |
| Arweiniodd at wella fy sefyllfa ariannol / sefyllfa tai | 6 | 5% |
| Roedd yr wybodaeth / cyrsiau / hyfforddiant rhianta yn ddefnyddiol | 5 | 4% |
| Cyfathrebu clir | 4 | 3% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 2: Tabl yn dangos y rhesymau cadarnhaol a nodwyd gan deuluoedd mewn perthynas â sut y llwyddodd Teuluoedd yn Gyntaf i'w helpu. Nodwyd yn fwyaf cyffredin fod y gweithwyr cymorth yn gefnogol ac yn llawn empathi, neu eu bod wedi rhagori ar y disgwyliadau (26%); a hefyd nodwyd bod y cymorth wedi gwella bywyd neu lesiant y rhiant neu'r plentyn neu ei fod wedi datrys eu problemau (24%).

Roedd sylwadau cadarnhaol yr ymatebwyr yn canolbwyntio'n fwyaf mynych ar ryngweithio gyda gweithwyr cymorth. Dywedwyd yn benodol eu bod yn gefnogol neu'n llawn empathi, neu eu bod wedi rhagori ar y disgwyliadau.

> "Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am fy mab gyda hi, ac roeddwn yn gwerthfawrogi ei chwmni a'i chyngor yn fawr. Roeddwn yn drist pan ddaeth y gwasanaeth i ben, oherwydd roedd fy mab hefyd wedi creu cwlwm agos gyda hi."

Dywedodd oddeutu hanner yr ymatebwyr eu bod wedi sylwi ar welliant yn eu llesiant nhw neu yn llesiant eu plant, neu dywedasant fod eu problemau wedi cael eu datrys.

> "Mae fy mab wedi magu hyder, gan gymdeithasu gyda phobl ifanc niwrowahanol a dysgu sgiliau newydd."

Cyflwynodd cyfran debyg o'r ymatebwyr sylwadau cyffredinol, gan ddweud eu bod wedi cael cymorth a phrofiad da.

> "Maent yn wych. Maent wedi bod o help mawr i'n teulu."

Dyma sylwadau cadarnhaol eraill a gyflwynwyd yn llai cyffredin gan yr ymatebwyr: roeddynt yn fodlon â'r modd y cawsant eu cyfeirio at wasanaethau, dywedasant fod y gweithgareddau a'r digwyddiadau o ansawdd da, a dywedasant eu bod wedi cael cymorth gyda'r ysgol.

Dywedodd lleiafrif bach fod eu sefyllfa ariannol neu eu sefyllfa tai wedi gwella, soniwyd am gyrsiau/hyfforddiant rhianta yn arbennig, a chanmolwyd Teuluoedd yn Gyntaf am gyfathrebu'n glir.

**Tabl 3: Ymatebion a godiwyd yn thematig mewn perthynas â pham roedd teuluoedd o'r farn fod Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu helpu / heb eu helpu nhw neu eu teuluoedd (ymatebion negyddol) (N=110) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Pam ydych yn teimlo fel hyn? (Negyddol) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ni chafodd y problemau eu datrys ar ôl cael cymorth | 6 | 5% |
| Nid oedd y cymorth wedi'i deilwra / yn briodol / yn hyblyg | 3 | 3% |
| Ni chynigiwyd cymorth / problemau o ran dyrannu cymorth | 2 | 2% |
| Cymorth byrdymor yn unig / ni lwyddodd i helpu'n ddigonol | 2 | 2% |
| Profiad gwael gyda gweithiwr cymorth | 1 | 1% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 3: Tabl yn dangos y rhesymau negyddol a nodwyd gan deuluoedd mewn perthynas â sut y methodd Teuluoedd yn Gyntaf â'u helpu. Y mater mwyaf cyffredin oedd y ffaith na chafodd problemau eu datrys ar ôl cael cymorth (5%), a'r ffaith nad oedd y cymorth wedi'i deilwra, yn briodol neu'n hyblyg (3%).

Ymhlith y rhai a roddodd adborth negyddol, y sylwadau mwyaf mynych (5%) oedd y ffaith na chafodd y problemau eu datrys ar ddiwedd yr ymyriad.

> "Er bod fy mab wedi mwynhau'r amser a dreuliodd gyda'r [gweithiwr cymorth], nid yw wedi trafod y broblem a sbardunodd y cymorth."

Hefyd, cafodd teuluoedd brofiadau negyddol gan nad oedd y cymorth wedi'i deilwra ar sail eu hanghenion unigol, gan na chynigiwyd cymorth o gwbl, neu gan fod yna broblemau o ran dyrannu cymorth. Roedd 2 ymatebydd o'r farn na pharodd y cymorth yn ddigon hir, a soniodd ymatebydd arall am brofiad gwael gyda'i weithiwr cymorth.

Ymhellach, cafodd naw ymateb eu codio dan y categori 'arall' – hynny yw, roedd yr ymatebion yn hynod benodol i'r unigolion ac ni soniwyd amdanynt rhag ofn y byddai anonymedd yr ymatebwyr yn cael ei roi yn y fantol.

## 8.3. Sylwadau ychwanegol

**Tabl 4: Sylwadau ychwanegol (a godiwyd yn thematig) gan deuluoedd ynglŷn â Teuluoedd yn Gyntaf (N=105) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| A hoffech ddweud unrhyw beth arall ynglŷn â Teuluoedd yn Gyntaf? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Profiad da neu gadarnhaol ar y cyfan / buaswn yn ei argymell / hoffwn ddiolch amdano | 66 | 63% |
| Mae'r gweithwyr cymorth yn gyfeillgar / yn broffesiynol / yn arbennig o dda / fe wnaethant ragori ar y disgwyliadau | 18 | 17% |
| Profiad gwael ar y cyfan / nid yw'n addas i'r diben | 9 | 9% |
| Roeddwn eisiau rhagor o gymorth / cymorth am gyfnod hwy | 7 | 7% |
| Nid yw Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei hysbysebu'n dda | 4 | 4% |
| Problemau eraill o ran cael cymorth e.e. bu'n rhaid ymgeisio sawl tro | 3 | 3% |
| Mae'r gweithwyr cymorth yn anfoesgar / yn feirniadol / nid ydynt yn gydymdeimladol / mae angen iddynt wella | 2 | 2% |
| Mae angen teilwra'r cymorth yn well ar sail teuluoedd / sefyllfaoedd | 1 | 1% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 4: Tabl yn dangos sylwadau ychwanegol gan deuluoedd ynglŷn â Teuluoedd yn Gyntaf. Cyflwynodd y mwyafrif o'r teuluoedd adborth cadarnhaol: dywedodd 63% eu bod wedi cael profiad da neu gadarnhaol ar y cyfan, neu dywedasant y byddent yn argymell y gwasanaeth. Fe wnaeth 17% yn ychwaneg ganmol y gweithwyr cymorth am fod yn gyfeillgar neu'n broffesiynol, neu am ragori ar y disgwyliadau.

Pan gafodd yr ymatebwyr gyfle i adael sylwadau terfynol, penderfynodd y mwyafrif ohonynt ganmol y gwasanaeth neu gyflwyno adborth cadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a gawsant (63%). Yn y sylwadau hyn, soniodd yr ymatebwyr am y profiad cadarnhaol a gawsant, dywedasant y byddent yn argymell (neu eu bod wedi argymell) Teuluoedd yn Gyntaf i eraill, neu mynegwyd diolch am y cymorth a gawsant.

> "Diolch o galon. Roeddech ar gael pan oeddem eich angen fwyaf trwy gyfnod eithriadol o anodd. Go brin y byddai fy mab a minnau yma heddiw heb yr holl gymorth a gawsom a heb waith caled y [gweithiwr cymorth]. Diolch i'r drefn, mae pethau wedi gwella erbyn hyn, ac mae fy mab yn berson ifanc normal gydag ADHD. Diolch."

> “Maent wedi bod yn rhan enfawr o siwrnai fy merch a hoffwn eu canmol i’r cymylau. Mae’r cymorth a gefais i, yn ogystal â fy merch, wedi ein cadw rhag chwalu – mae’r ffaith eu bod yn cynorthwyo’r teulu cyfan yn anhygoel. Rydw i’n dweud wrth bawb am y cymorth a gawsom ganddynt.”

Ymhellach, mae ymatebion cyffredin yn cynnwys canmoliaeth neu adborth cadarnhaol yn ymwneud ag ymddygiad y gweithwyr cymorth, a dywedir yn benodol eu bod yn gefnogol ac yn amyneddgar, neu eu bod wedi rhagori ar ddisgwyliadau’r ymatebwyr.

> “Wnes i ddim teimlo o gwbl fy mod yn cael fy meirniadu neu fy amharchu gan unrhyw aelod o’r tîm – roeddynt wastad yn fy nghynorthwyo ac yn gwrando arnaf. Diolch.”

Fodd bynnag, cyflwynwyd adborth negyddol yn oddeutu 1 rhan o 10 (9%) o’r ymatebion. Yn y sylwadau hyn, dywedodd yr ymatebwyr eu bod wedi cael gwasanaeth gwael neu nad oedd y gwasanaeth yn addas i’r diben. Roedd 7% yn dymuno cael rhagor o gymorth neu’n dymuno i’r ymyriad bara’n hwy; dywedodd 4% fod y gwasanaeth yn cael ei hysbysebu’n wael; a chafwyd nifer fechan o themâu eraill, a oedd yn cyfateb i lai na 3% o’r ymatebion – gweler Tabl 4 uchod.

## 8.4. Safbwyntiau teuluoedd: y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau

Wrth drafod y cymorth a gawsant a’r canlyniadau a ddeilliodd o’r cymorth hwnnw, tueddai’r cyfweleion i sôn am y cymorth a roddwyd i’w plant, a hefyd am y cymorth a oedd yn canolbwyntio mwy ar lesiant a gwydnwch rhieni a strategaethau i ddelio â phroblemau.

### 8.4.1. Cymorth i blant

Ymhlith y mathau o gymorth a gafodd effaith gadarnhaol ar blant (yn nhyb yr ymatebwyr), dywedodd rhai o’r teuluoedd fod y gweithwyr cymorth wedi llwyddo i feithrin perthynas gyda’r plant, gan arwain at ofal seibiant llwyddiannus yr oedd ganddynt hyder ynddo ac a lwyddodd i wella llesiant eu plant.

> “Roeddwn eisoes wedi dechrau cael hynny ac fe wnaeth 1 fenyw o blith y darparwyr ddechrau meithrin perthynas gyda fy mab yn syth.”

Sylwodd yr ymatebwyr ar welliant yn hyder, sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu, a geirfa eu plant. Priodolwyd hyn yn uniongyrchol i’r cymorth a gawsant, hyd yn oed pan oedd y cymorth hwnnw’n canolbwyntio’n bennaf ar agweddau eraill.

> “Yn gyffredinol, fe wnaeth ein helpu mewn ffordd, oherwydd fe wnaeth hi lwyddo i fagu hyder wrth siarad a sgwrsio. Er nad oedd hi’n siarad am y pethau a oedd wrth wraidd y cymorth – sef trafod emosiynau a phethau o’r fath – rhoddodd hyn hwb i’w hyder wrth iddi ei mynegi ei hun a chyfathrebu gyda phobl.”

> “Roeddwn eisiau iddi ddatblygu deallusrwydd emosiynol, deall emosiynau ac ati, sef rhywbeth y mae’n llwyddo i’w wneud. Mae ganddi eirfa ehangach, mae hi’n gwybod geiriau fel ‘cywilydd’ ac mae hi’n deall ystyr y gair.”

Trwy gael mynediad at amrywiaeth eang o deganau synhwyraidd yn ystod hyfforddiant chwarae, bu modd i 1 rhiant ddeall yn well sut fath o deganau a oedd yn ennyn diddordeb ei phlentyn, felly bu modd iddi arbed gwariant diangen.

> “Pan ddaeth hi draw ar gyfer yr hyfforddiant chwarae, daeth â phob mathau o deganau synhwyraidd gyda hi. Cynigiodd hyn gyfle gwirioneddol i mi weld sut fathau o bethau y mae [fy mab] yn eu hoffi. Nid yw’n chwarae gyda theganau arferol ac mae’n anodd gwybod beth sy’n mynd â’i fryd. Ac, wrth gwrs, os ydych yn ychwanegu’r gair ‘synhwyraidd’ at degan, mae’n mynd yn ddrud iawn. Felly roedd hi’n braf cael cyfle i weld â beth y mae’n hoffi chwarae, fel na fyddaf yn gwastraffu arian ar bethau nad yw byth bythoedd yn mynd i gyffwrdd â nhw.”

Mewn amgylchiadau eithriadol, a chyda chytundeb Llywodraeth Cymru, gall Teuluoedd yn Gyntaf ddarparu parseli bwyd. Cafodd 1 teulu, a oedd yn cael anawsterau ariannol, barseli bwyd a dillad gaeaf ar gyfer y plant – rhywbeth a esgorodd ar fanteision yn syth.

> “Roeddem yn cael anawsterau ariannol ar y pryd, felly fe wnaethant drefnu dillad gaeaf ar gyfer y genethod. Cawsant gotiau, esgidiau glaw a hetiau gwlân. Unwaith, cawsom barsel bendigedig yn llawn bwyd.”

Hefyd, esgorwyd ar ganlyniadau llwyddiannus yn sgil cyngor gan weithwyr cymorth ynglŷn â sut i feithrin clymau cryfach rhwng plant a rhieni.

> “Ei chyngor hi oedd y dylai [fy merch] feithrin perthynas gyda’i thad, brwsio’i dannedd yn y bore, mynd i nofio, brwsio’i gwallt, pethau syml iawn sydd wedi gweithio.”

### 8.4.2. Cymorth i oedolion

Yn sgil y cymorth rhianta a ddarparwyd, llwyddwyd i wella gwydnwch emosiynol rhieni, gan roi iddynt hyder yn eu gallu i fagu plant ynghyd â gwell dealltwriaeth o ymddygiad eu plant.

> “Gallwn weld bod fy ngwydnwch a’m hyder wedi gwella, ond roeddwn eisiau i’r pethau hyn barhau i ddatblygu ac roeddwn yn awyddus i barhau i weithio arnaf fy hun.”

Trwy roi cymorth seibiant i rieni, bu modd iddynt gael cyfle i ymlacio, treulio mwy o amser gyda phlant eraill, a mynd i’w gwaith; er; oherwydd y modd y darparwyd y seibiant, ni fu’r cymorth hwn yn llwyddiannus bob amser.

Weithiau, byddai gweithwyr cymorth yn ysgwyddo rôl eirioli ar ran y rhieni, gan eu helpu i ryngweithio gydag ysgolion ac awdurdodau addysg lleol er mwyn cynyddu’r cymorth a gâi ei ddarparu yn ystod oriau ysgol.

> “Fe wnaeth hi helpu gyda’r awdurdod addysg lleol. Yn y pen draw, gyda’r holl gymorth a gefais, bu modd imi ymladd yn erbyn yr ysgol a’i gael yn ôl i mewn. O ganlyniad, rydym yn credu bod gan fy mab ADHD neu niwrowahaniaeth o ryw fath – wnaeth yr ysgol ddim sylwi ar hynny o gwbl.”

Yn sgil y cymorth a gafodd rhai teuluoedd, cawsant eu hatgyfeirio ymlaen ar gyfer cael diagnosis gogyfer cyflyrau niwroddatblygiadol (sef cyflyrau nad oeddynt hwy na’r ysgol wedi sylwi arnynt), a hefyd bu modd iddynt ddeall niwroamrywiaeth yn gyffredinol, gan arwain at wella cydberthnasau rhwng rhieni a’u plant.

> “Fe wnaeth hi fy nghynnwys yn yr holl weithdai. Rydw i wedi gorfod dysgu am awtistiaeth a phroblemau synhwyraidd – popeth, yn y bôn. Mae hi wedi fy helpu gyda fy 9 blentyn hŷn hefyd. Nid oeddwn wedi sylweddoli bod y 3 ohonynt yn awtistig. Nawr, maent wedi cael eu hatgyfeirio at gymorth niwroddatblygiadol. Nid oeddwn yn deall awtistiaeth hyd nes imi gael fy mhlentyn ieuengaf, sy’n cyfathrebu heb ddefnyddio geiriau. Agorodd hynny fy llygaid. Nid oeddwn wedi sylweddoli bod yna wahanol agweddau ar awtistiaeth.”

Ymhellach, cafodd rhai teuluoedd help i lenwi ffurflenni er mwyn cael cymorth ychwanegol, megis asesiadau niwrowahaniaeth neu Lwfans Byw i’r Anabl, sef rhywbeth a gafodd effaith gadarnhaol ar eu llesiant:

> “Diolch o galon iddi am helpu gyda’r gwaith papur. Nid oeddwn yn deall beth oedd angen imi ei wneud gyda ffurflenni’r Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer fy mhlentyn hynaf. Nid oeddwn yn gwybod beth i’w wneud ar gyfer atgyfeiriadau fy mhlentyn hynaf, oherwydd byddent yn cael eu gwrthod dro ar ôl tro. [...] Mae’r cymorth wedi codi’r pwysau emosiynol hwnnw oddi ar fy ysgwyddau. Mae wedi fy helpu i ddilyn y trywydd iawn drachefn.”

Serch hynny, cafodd rhai rhieni eu synnu gan gydbwysedd y cymorth. Roeddynt yn credu y dylid bod wedi rhoi mwy o bwyslais ar gynorthwyo'r plant, yn enwedig os oedd ganddynt broblemau ymddygiadol, yn hytrach na chynorthwyo'r rhieni.

> "Yn gyffredinol, roedd y [dosbarthiadau rhianta] yn dda ac yn llawn gwybodaeth, ond nid dyna oeddwn i ei angen mewn gwirionedd. Roeddwn i angen i rywun ddod draw a threulio amser gyda fy mab yn hytrach na fy mod yn gorfod eistedd yno yn siarad amdano ac yn ceisio meddwl am atebion. [...] Wnaeth hi ddim cyfarfod â [fy mab]. Efallai ei bod wedi cael cipolwg arno, ond yr unig beth wnaeth hi oedd siarad gyda ni. Yr unig beth wnaeth hi oedd gwrando ar ein problemau ac ysgrifennu popeth ar ddu a gwyn. [...] Fe wnaeth hi drefnu i seicolegydd plant ddod draw, ond nid oedd yntau chwaith eisiau cyfarfod fy mab – ac roeddwn yn credu bod hynny'n od."

## 8.5. Sylwadau i gloi

### 8.5.1. Mesur yr effaith

Gwaith anodd yw mesur yr effaith a gaiff Teuluoedd yn Gyntaf ar deuluoedd, oherwydd mae'n anodd cyfleu'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol – megis atal teuluoedd rhag bod angen ymyrraeth statudol – trwy gyfrwng ystadegau. Er bod mesuriadau perfformiad cenedlaethol yn cynnig rhywfaint o fewnwelediad, roedd y rhanddeiliaid o'r farn nad ydynt yn llwyr adlewyrchu'r straeon sydd wrth wraidd y niferoedd.

Ym marn y rhanddeiliaid, yn ôl pob tebyg mae Teuluoedd yn Gyntaf yn atal nifer o deuluoedd rhag gorfod ymhél â gwasanaethau statudol neu brofi argyfyngau llawer gwaeth, ond nid oes gennym ffordd bendant o fesur y canlyniadau hyn. Yn ôl 1 rhanddeiliad: "I Teuluoedd yn Gyntaf, mae hi'n anodd iawn dangos y byddai'r teulu hwn wedi gorfod ymhél â'r gwasanaethau cymdeithasol pe na baem ni wedi ymyrryd. Mae'n anos dangos bod y rhaglen yn gweithio. Mae'r canlyniadau'n fwy cudd."

Er enghraifft, er bod 1 rhanddeiliad wedi dweud bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n fawr ar leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal, dim ond nifer y plant sy'n ymuno â'r system a gofnodir yn y data. Nid yw'r data'n adlewyrchu'r teuluoedd lu a gafodd eu hatal rhag cyrraedd y cam hwnnw gan eu bod wedi cael cymorth yn ddigon cynnar. O ganlyniad, ni ellir mesur y gwir effaith a gaiff Teuluoedd yn Gyntaf ar deuluoedd, felly mae'n anodd dangos gwerth y rhaglen yn llawn trwy ddefnyddio ystadegau.

Serch hynny, dylid ailbwysleisio pwynt a wnaed eisoes gan randdeiliad mewn awdurdod lleol, sef ei fod o'r farn y byddai gwasanaethau statudol "mewn llanast llwyr" pe na bai Teuluoedd yn Gyntaf wrth law i ddarparu gwasanaeth ataliol, er mwyn rhwystro achosion rhag gwaethygu mwy fyth.

# 9. Astudiaethau achos

## 9.1. Astudiaeth Achos 1

### 9.1.1. Cefndir

Mae gan y cyfwelai benywaidd dan sylw 3 phlentyn, yn cynnwys mab ag awtistiaeth sydd ag anghenion cymorth uchel. Gofynnodd y fam am help gan Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl iddi gael ei hatgyfeirio gan y tîm plant anabl. Nid oedd yn cael cymorth gan deulu estynedig ac roedd yn gobeithio cael gofal seibiant ar gyfer 1 plentyn er mwyn iddi allu treulio rhagor o amser gyda'i phlant eraill; roedd rhai o'i phlant eraill ag anghenion ychwanegol hefyd.

### 9.1.2. Profiad gyda Teuluoedd yn Gyntaf

Aeth 1 o gynrychiolwyr Teuluoedd yn Gyntaf i ymweld ag aelodau'r teulu er mwyn asesu eu hanghenion. Ond roedd y fam yn teimlo'n anghyfforddus yn ystod yr asesiad gan ei bod o'r farn nad oedd y cynrychiolydd yn ddigon ymwybodol o anableddau. Ym marn y fam, roedd yr asesiad yn rhy fyr ac nid ymgysylltodd y gweithiwr yn ddigonol â'i mab.

### 9.1.3. Canlyniad

Bythefnos yn ddiweddarach, cafodd y fam wybod trwy e-bost na fyddai ei mab yn cael gofal seibiant, gan nad oedd y gwasanaeth o'r farn ei fod angen gofal o'r fath. Yn hytrach, cynigiwyd cymorth ymddygiadol – sef rhywbeth nad oedd y teulu ei angen. Yn sgil y profiad hwn, law yn llaw â'r ffaith bod y gweithiwr cymorth wedi defnyddio'r enw anghywir wrth gyfeirio at y fam yn y cyswllt dilynol, dewisodd y fam beidio â derbyn y cymorth a gynigiwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf. Ni chysylltodd Teuluoedd yn Gyntaf â'r fam wedyn i geisio esboniad neu ateb.

Yna, ceisiodd y teulu gael gofal seibiant preifat, ond ni lwyddwyd i ddod o hyd i gymorth addas – dim ond cymorth anffurfiol a oedd ar gael, nid oedd y cymorth y daethpwyd o hyd iddo yn destun gwiriadau DBS, a chodwyd pryderon diogelu yn ei gylch.

### 9.1.4. Casgliadau ac argymhellion

Er mwyn gwella'r profiad, awgrymwyd y dylid cael rhestr o'r cymorth a allai fod ar gael fel man cychwyn ar gyfer y drafodaeth, er mwyn canfod beth, yn nhyb aelodau'r teulu, a fyddai'n fwyaf buddiol iddynt.

## 9.2. Astudiaeth Achos 2

### 9.2.1. Cefndir

Gofynnodd mam i ferch 3 oed am gymorth ar ôl iddi ddioddef gofid emosiynol parhaus yn sgil cam-drin domestig. Ar ôl iddi gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, cafodd ei hatgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf, lle cafodd gymorth gan amryfal bartneriaid.

### 9.2.2. Profiad gyda Teuluoedd yn Gyntaf

Fe wnaeth y fam ymhél â gwasanaeth a gomisiynwyd am 10 wythnos, ac aeth gweithiwr cymorth i ymweld â hi yn ei chartref bob wythnos. Canolbwyntiodd y sesiynau ar wella'i llesiant personol a meithrin ei hyder, gan ei helpu i fagu hyder a gwydnwch yn ystod achos cyfreithiol yn ymwneud â cham-drin domestig. Bu'r gweithiwr cymorth yn hollbwysig o ran gwella'i llesiant a'i gallu i ymdopi yn ei rôl fel rhiant yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, cafodd adnoddau ar gyfer helpu ei merch i ddatblygu, megis llyfrynnau ac offer i'w helpu i siarad am emosiynau.

Ar ôl i'r cymorth hwn ddod i ben, rhoddodd y gwasanaeth wybod i'r fam fod cymorth ychwanegol ar gael gan Teuluoedd yn Gyntaf. Cafodd ei hatgyfeirio at gymorth ychwanegol trwy gyfrwng darparwr arall, a gynigiodd gymorth emosiynol a chymorth rhianta. Er mai am 10 wythnos y bwriadwyd i'r cymorth hwn bara, cafodd ei ymestyn oherwydd heriau ychwanegol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymyriad, yn cynnwys gwrandawiad llys teulu. Addasodd y darparwr y cymorth ar sail anghenion y fam, gan gynnig cymorth mwy mynych a sgyrsiau cyswllt anffurfiol.

### 9.2.3. Casgliadau ac argymhellion

Yn gyffredinol, dengys yr achos hwn fod aelodau'r teulu dan sylw yn fodlon â'r cymorth a gawsant. Cafwyd cyfathrebu a brysbennu da drwy gydol y ddarpariaeth. Helpodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i hwyluso'r atgyfeiriad trwy lenwi'r gwaith papur a chyflwyno Teuluoedd yn Gyntaf mewn galwad tair ffordd, a bu'r cymorth dilynol yn hyblyg, gan gynyddu ar ôl i'r amgylchiadau newid a phan oedd y fam angen cymorth ychwanegol. Yn sgil hynny, roedd aelodau'r teulu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth a gawsant gan Teuluoedd yn Gyntaf.

## 9.3. Astudiaeth Achos 3

### 9.3.1. Cefndir

Gofynnodd mam i 2 o blant am help ar gyfer ei merch. Roedd y ferch yn cael anawsterau yn yr ysgol ac roedd yn ymddwyn mewn modd a oedd yn gysylltiedig ag awtistiaeth. Er bod cyfarfodydd niferus wedi'u cynnal gydag ysgol flaenorol y ferch, ni chyfeiriwyd y fam at unrhyw gymorth allanol. Dim ond ar ôl i'w merch gael ei rhoi ar restr aros ar gyfer asesiad awtistiaeth y dechreuodd y fam ymchwilio i'r mathau o wasanaethau cymorth a oedd ar gael. Daeth ar draws Teuluoedd yn Gyntaf – ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy siarad gyda rhieni eraill.

### 9.3.2. Profiad gyda Teuluoedd yn Gyntaf

Bu gwefan Teuluoedd yn Gyntaf yn rhyw fath o 'hwb gwybodaeth' defnyddiol i'r fam, gan ei galluogi i archwilio'r opsiynau cymorth perthnasol mewn 1 lle. Fodd bynnag, bu ei llwybr at gymorth yn anarferol – sef mynychu digwyddiad a gynhaliwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf yn ysgol ei phlentyn. Roedd y digwyddiad hwnnw'n cynnwys y gwahanol wasanaethau cymorth a oedd ar gael, a phenderfynodd gysylltu â'r gwasanaethau hynny – yn uniongyrchol a thrwy hunanatgyfeirio.

Cafodd y fam gymorth yn syth, yn cynnwys cwnsela ar gyfer ei merch i fynd i'r afael â thrawma a oedd yn gysylltiedig â'r ysgol. Er bod ei merch wedi cael anhawster i sôn am y trawma, helpodd y sesiynau i feithrin ei hyder i hunanfynegi.

Roedd 1 gwasanaeth a gomisiynwyd yn cynnig cwrs i rieni ar gyfer delio â straen a gorbryder. Bu'r cwrs hwn o fudd i'r fam, gan ei helpu i ddeall anghenion ei merch. Hefyd, cafodd y fam ei chyfeirio at wasanaeth arall, a lwyddodd i'w helpu i gydnabod ei rôl fel gofalwr, yn ogystal â darparu cwnsela. Ond oherwydd amserlenni anghyson a diffyg cyswllt dilynol gan y gwasanaeth cwnsela, cyfyngwyd ar effaith y gwasanaeth.

Trwy gyfrwng y gwasanaethau hyn, cafodd y fam ei chyfeirio hefyd at sefydliadau ychwanegol oddi mewn ac oddi allan i Teuluoedd yn Gyntaf, a ddarparodd gymorth ar gyfer y plentyn a'r rhiant.

### 9.3.3. Casgliadau ac argymhellion

Ar y cyd, llwyddodd y gwahanol fathau o gymorth i wella dealltwriaeth y fam o anghenion dysgu ychwanegol ei phlentyn, gan ei galluogi i eirioli'n fwy effeithiol dros ei merch. Llwyddodd y cymorth i helpu ei merch i feithrin hyder wrth gyfathrebu ac ymgysylltu'n gymdeithasol, er nad dyna oedd prif ganolbwynt y cymorth.

Er bod y fam yn fodlon â'r cymorth a gafodd, cyfyngwyd ar y gwasanaethau a oedd ar gael iddi hi a'i phlentyn oherwydd diffyg diagnosis awtistiaeth ar y pryd. Gan fod y fam wedi cysylltu â gwasanaethau a gomisiynwyd yn unigol trwy gyfrwng y digwyddiad a'r wefan, nid oedd hi bob amser yn ymwybodol o rai adnoddau a oedd ar gael iddi, hyd yn oed heb ddiagnosis ffurfiol. Ym marn y fam, dylai Teuluoedd yn Gyntaf lunio rhestr gynhwysfawr o wasanaethau – nid yn unig rhestr o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, ond rhestr o wasanaethau cymorth perthnasol eraill sydd ar gael y tu allan i ambarél Teuluoedd yn Gyntaf.

## 9.4. Astudiaeth Achos 4

### 9.4.1. Cefndir

Mae'r cyfwelai benywaidd dan sylw yn rhiant i 2 blentyn – sef merch 9 oed a mab 8 oed. Mae ei mab wedi cael ei ddiagnosio ag awtistiaeth a chyflwr arall, sy'n golygu ei fod yn osgoi gofynion ac yn gallu gwrthod cydymffurfio â cheisiadau. Oherwydd ei anghenion, nid yw wedi mynychu'r ysgol ers oddeutu dwy flynedd ac mae'n cael anhawster i adael y tŷ. O'r herwydd, bu'n rhaid i'w fam roi'r gorau i'w gwaith er mwyn iddi allu rhoi gofal amser llawn iddo.

### 9.4.2. Profiadau gyda Teuluoedd yn Gyntaf

Y tro cyntaf, cyfeiriwyd y teulu at Teuluoedd yn Gyntaf trwy gyfrwng yr ysgol. Cafodd y teulu ei atgyfeirio at yr Hwb Blynyddoedd Cynnar. Ym marn y fam, roedd y cyfarfod cyntaf gyda chynrychiolydd y Tîm o Amgylch y Teulu yn gadarnhaol, a dywedodd fod y cynrychiolydd yn amyneddgar ac yn llawn empathi. Roedd yr ysgol wedi dweud wrth y fam y gallai gael taliadau uniongyrchol ar gyfer helpu i dalu am ofal seibiant, ac roedd hi'n gobeithio cael taliadau o'r fath o ganlyniad i'r asesiad.

Ar sail ymchwil annibynnol ac argymhelliad gan yr ysgol, cofrestrodd y fam gyda gwasanaeth a gomisiynwyd ar gyfer cael arian gogyfer gofal seibiant, ond gwnaeth hynny ar ei liwt ei hun yn hytrach na thrwy ymgysylltu â'r Tîm o Amgylch y Teulu, ac nid oedd yn gwybod bod y gwasanaeth yn dod dan adain Teuluoedd yn Gyntaf. Yn ei hardal hi, roedd 1 sefydliad yn darparu gofal seibiant dan Teuluoedd yn Gyntaf. Llwyddodd y sawl a oedd yn gweithio i'r sefydliad hwnnw i feithrin perthynas gref gyda'i mab, gan lwyddo i'w annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau, yn cynnwys gadael y tŷ; ond yn ddiweddarach, gadawodd y gweithiwr y sefydliad. Pan geisiodd y fam gofrestru'r gweithiwr hwnnw fel darparwr, gwrthododd y Cyngor y cais, gan gyfyngu ar ddewis y rhiant mewn perthynas â gofal seibiant.

### 9.4.3. Canlyniad

Roedd disgwyliadau'r fam mewn perthynas â'r taliadau uniongyrchol yn seiliedig ar y syniad y byddai'r cymorth yn cael ei deilwra ar sail anghenion penodol ei mab. Ond y prif ateb a gynigiwyd iddi oedd taliadau uniongyrchol ar gyfer cynorthwyydd personol i fynd â'i mab allan i'r gymuned. Yn nhyb y fam, ni fyddai'r dull hwnnw'n esgor ar ganlyniad a fyddai'n gweddu i anghenion ei mab. Roedd yn pryderu na fyddai'r cynorthwywyr personol yn gwybod digon am niwroamrywiaeth, a hefyd roedd yn pryderu y byddai ei mab yn rhedeg i ffwrdd. Parodd y canlyniad hwn iddi deimlo'n rhwystredig, oherwydd ni roddwyd blaenoriaeth i'w cheisiadau am fathau eraill o gymorth, megis therapi neu ymgysylltu yn y cartref. Roedd hi o'r farn mai 1 dewis yn unig a gynigiwyd iddi, gyda fawr ddim hyblygrwydd yn unrhyw ran o'r system.

### 9.4.4. Casgliadau ac argymhellion

Mynegodd y rhiant hwn rwystredigaeth oherwydd diffyg hyblygrwydd yn y modd y gellid defnyddio'r cymorth. Roedd yn teimlo bod y system yn ceisio gosod ei mab mewn model rhagddiffiniedig yn hytrach nag addasu ar sail ei anghenion.

Aeth cyfnod maith heibio rhwng yr asesiad a'r adeg y rhoddwyd y cymorth ar waith, a chafwyd bylchau maith rhwng diweddariadau ynghyd â diffyg eglurder ynglŷn â'r camau nesaf. Arweiniodd hyn at gyfathrebu yn ôl a blaen rhwng y ddwy ochr. Ymhellach, nid oedd y cymorth a gynigiwyd yn cyd-fynd â dealltwriaeth y fam o'r hyn y byddai yn ei gael, ac yn y pen draw nid oedd yn diwallu ei hanghenion.

Pan hysbysebwyd rôl y cynorthwyydd personol ar gyfer rhoi cymorth i'w mab, nid oedd yr un o'r ymgeiswyr yn meddu ar brofiad o awtistiaeth, gan chwalu'r holl sicrwydd a roddwyd yn flaenorol gan y Tîm o Amgylch y Teulu – sef y byddai cynorthwywyr personol profiadol ar gael. Ymhellach, roedd y taliadau uniongyrchol yn ei gwneud yn ofynnol i'r fam ysgwyddo cyfrifoldebau recriwtio, cyflogres a gwaith papur, gan ychwanegu at ei chyfrifoldebau gofalu sylweddol a chan wneud y cymorth yn llai atyniadol.

# 10. Casgliadau ac argymhellion

## 10.1. Crynodeb o ganfyddiadau hollbwysig

### 10.1.1. Profiadau teuluoedd gyda Teuluoedd yn Gyntaf

Roedd yn amlwg bod y teuluoedd, ar y cyfan, yn mawrbrisio'r cymorth a gawsant gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Dywedodd nifer o deuluoedd fod eu hyder a'u sgiliau rhianta wedi gwella, bod eu cydberthnasau teuluol wedi cryfhau a bod eu llesiant emosiynol wedi gwella o ganlyniad i ymhél â'r gwasanaethau.

Gwelwyd bod yna wahaniaethau i'w cael yn y profiadau a gafodd teuluoedd cyn ac ar ôl y pandemig COVID-19. Cyn y pandemig, darparwyd y cymorth wyneb yn wyneb i raddau helaeth, a llwyddodd teuluoedd i elwa ar gyfarfodydd a gweithgareddau grŵp wyneb yn wyneb. Ar ôl y pandemig, addasodd y rhaglen trwy gynnig cymorth rhithwir ochr yn ochr â gwasanaethau wyneb yn wyneb. Llwyddodd y dull hwn i wella hygyrchedd – er enghraifft, gallai rhai rhieni gymryd rhan mewn sesiynau ar-lein (yn cynnwys rhieni a gâi anawsterau i fynychu sesiynau wyneb yn wyneb, fel tadau a oedd yn gweithio).

Mae'r pwyslais a rydd y rhaglen ar ymyrraeth gynnar wedi atal problemau rhag gwaethygu. Ym marn nifer o'r rhanddeiliaid, yn ôl pob tebyg byddai rhagor o deuluoedd wedi cyrraedd argyfwng neu wedi gorfod ymhél â gwasanaethau cymdeithasol statudol pe na bai Teuluoedd yn Gyntaf wedi cynnig cymorth.

### 10.1.2. Heriau a llwyddiannau wrth ddarparu gwasanaethau

Mae'r ymchwil wedi pennu nifer o heriau – yn ogystal â nifer o lwyddiannau – mewn perthynas â darparu gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf. Un her hollbwysig yw'r galw cynyddol am y gwasanaethau ac anghenion mwyfwy cymhleth y teuluoedd, yn ogystal â chyfyngiadau cyllido.

Yn ôl y rhanddeiliaid, nid yw'r cyllid wedi cynyddu yn unol â'r galw. Mae hyn wedi arwain at bwysau mawr ar dimau, rhestrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau, neu feini prawf atgyfeirio llymach er mwyn rheoli llwythi achosion.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r rhaglen yn esgor ar lwyddiannau arwyddocaol. Mae dull ataliol Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio, a chyflwynodd y rhanddeiliaid sawl enghraifft o deuluoedd sydd, gyda help, wedi goresgyn anawsterau heb iddynt fod angen ymyriadau pellach gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae teuluoedd, hefyd, wedi dweud yr un pethau wrthym.

Mae'r rhaglen yn arloesol ac yn barod i newid. Yn ystod COVID-19, darparwyd gwasanaethau ar-lein er mwyn gallu parhau i gysylltu â theuluoedd; ac ar ôl COVID-19, mae sawl ardal wedi parhau i ddefnyddio dull cymysg (sef cymorth digidol a chymorth wyneb yn wyneb) er mwyn cyrraedd cynifer o deuluoedd â phosibl.

Ymhellach, nodwyd bod ymroddiad y gweithwyr cymorth, ynghyd â dull amlasiantaethol gwych y Tîm o Amgylch y Teulu, yn gryfderau pwysig.

I grynhoi, er bod prinder adnoddau a chymhlethdodau cynyddol yn esgor ar heriau parhaus, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i ddarparu cymorth gwerthfawr, ac mae wedi dangos gwydnwch ynghyd â'r gallu i addasu i anghenion teuluoedd.

### 10.1.3. Dulliau gweithredu amrywiol ledled Cymru

Mae'r modd y rhoddir Teuluoedd yn Gyntaf ar waith yn amrywio o 1 awdurdod lleol i'r llall, gan arwain at wahaniaethau o ran y modd y caiff y rhaglen ei brandio a'i hyrwyddo ledled y wlad, yn ogystal â gwahaniaethau yn strwythur y gwasanaethau. Mae oddeutu hanner awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio enw a brand 'Teuluoedd yn Gyntaf', gan ei hysbysebu fel rhaglen neilltuol. Yn yr ardaloedd hyn, gall teuluoedd adnabod Teuluoedd yn Gyntaf yn rhwydd a dod o hyd i wybodaeth yn ddidrafferth.

Ond mewn ardaloedd eraill, caiff y cymorth ei frandio dan enw gwahanol neu caiff ei uno ag arlwy 'cymorth cynnar' ehangach – er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol yn cyfeirio at eu holl wasanaethau 'cymorth cynnar' trwy ddefnyddio enw ambarél, heb gyfeirio'n benodol at Teuluoedd yn Gyntaf. O ganlyniad, efallai y byddai rhieni sy'n clywed am y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' yn cael anhawster i ddod o hyd i wybodaeth amdani ar y wefan leol.

Yn niffyg hunaniaeth gyhoeddus unffurf ar gyfer y rhaglen, mae ymwybyddiaeth pobl o'r rhaglen yn amrywio ledled Cymru. Hefyd, mae'r dulliau hyrwyddo yn amrywio – mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi lle amlwg i Teuluoedd yn Gyntaf (neu raglenni cyfwerth) ar eu tudalen gartref ac mae modd i bobl lywio'n rhwydd at y gwasanaethau; ond yn achos awdurdodau lleol eraill, caiff yr wybodaeth ei chladdu'n ddwfn yn eu gwefan neu canolbwyntir yn bennaf ar fentrau cysylltiedig fel Dechrau'n Deg.

Yn ogystal â gwahaniaethau o ran y brand, ceir gwahaniaethau strwythurol. Ymhellach, mae'r llwybrau atgyfeirio yn amrywio – mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi '1 pwynt mynediad' ar waith (sef 1 drws ffrynt ar gyfer cynnig help i deuluoedd, yn cynnwys Teuluoedd yn Gyntaf), tra mae awdurdodau lleol eraill yn gweithredu pwyntiau mynediad

niferus. Mae'r amrywiadau hyn yn adlewyrchu dewisiadau ac anghenion lleol. Er yr ystyrir bod hyblygrwydd y rhaglen yn gryfder pwysig, efallai fod dulliau brandio a hyrwyddo anghyson yn effeithio ar ymwybyddiaeth o'r rhaglen.

## 10.2. Argymhellion

Isod, nodir nifer o feysydd y dylid eu hystyried.

### 10.2.1. Gwella hygyrchedd ac ymwybyddiaeth

Dylai rhanddeiliaid ystyried a oes angen rhoi mwy o amlygrwydd i Teuluoedd yn Gyntaf (neu wasanaethau 'cymorth cynnar' yn fwy cyffredinol) – ynghyd â gwella dealltwriaeth o'r rhaglen a gwasanaethau tebyg – er mwyn sicrhau y bydd rhagor o deuluoedd yn gwybod sut i geisio cymorth cynnar. Mewn egwyddor, gallai hyn gynyddu nifer yr atgyfeiriadau, ac o ganlyniad gallai sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn wirioneddol ataliol. Ond gwyddom fod rhai awdurdodau lleol yn gyndyn o hyrwyddo mwy ar y rhaglen gan fod y gwasanaeth eisoes dan straen mewn nifer o awdurdodau lleol.

Efallai y dylai rhanddeiliaid ystyried a fyddai'n fuddiol datblygu brand clir a chyson ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf ledled Cymru, hyd yn oed os defnyddir enwau gwahanol yn lleol. Er enghraifft, gallai awdurdodau lleol ddal gafael ar yr hyblygrwydd i enwi eu gwasanaeth, ond gellid cyfeirio at 'Teuluoedd yn Gyntaf' yn yr holl negeseuon cyfathrebu, gan ddangos bod y gwasanaeth yn rhan o raglen genedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf.

Gallai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein – gan sicrhau y byddai chwiliad cyflym neu 1 llinell ffôn yn arwain teuluoedd at gymorth Teuluoedd yn Gyntaf, ni waeth ble fônt yn byw.

Hefyd, trwy hyrwyddo llwyddiannau'r rhaglen, gellid annog rhagor o deuluoedd i ymhél â'r gwasanaeth yn gynnar, gan leihau'r stigma a meithrin ymddiriedaeth yn y gwasanaethau sydd ar gael. Er bod gwybodaeth ar gael ar-lein, prin ein bod wedi dod o hyd i unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r modd y mae'r gwasanaeth wedi helpu pobl.

### 10.2.2. Hybu ymgysylltiad a chyfranogiad teuluoedd

Er mwyn annog teuluoedd i geisio cymorth a pharhau i dderbyn cymorth, dylai'r rhaglen barhau i gynnig dulliau cyflawni hyblyg – er enghraifft, trwy gynnig cymysgedd o weithdai ar-lein, ymweliadau cartref a sesiynau grŵp ar sail dewisiadau teuluoedd.

Mae hyblygrwydd o'r fath yn hwyluso rhieni sy'n gweithio oriau afreolaidd neu sy'n wynebu anawsterau teithio. Yn ystod COVID-19, llwyddodd dull hyblyg o'r fath i gyrraedd teuluoedd na fyddent, fel arall, wedi mynychu sesiynau o bosibl.

Er bod cyllid cyfyngedig yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol adolygu'r modd y darperir y gwasanaethau, daethom o hyd i enghreifftiau da o'r modd y llwyddodd dulliau cyflawni hyblyg i gynyddu nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ymhlith rhai cynulleidfaoedd.

#### 10.2.3. Mynd i'r afael â heriau o ran cyllid a chapasiti

Mynegwyd pryderon clir ynglŷn â chyfeiriad Teuluoedd yn Gyntaf yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod mai tasg anodd yw cynyddu'r cyllid pan fo cyllidebau ledled adrannau dan bwysau. Ond dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i weld pa gamau y gellir eu cymryd. Roedd nifer o'r rhanddeiliaid o'r farn fod cyllido Teuluoedd yn Gyntaf yn 'llai ffafriol' na chyllido rhaglenni eraill, ac y rhoddir llai o bwysigrwydd i'r rhaglen, er gwaethaf y ffaith ei bod yn rhaglen gyffredinol a chanddi gylch gwaith eang.

#### 10.2.4. Integreiddio'n well â gwasanaethau 'cymorth cynnar' eraill

Nid yw Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithredu mewn gwagle, ac mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu'n rhannol ar y modd y mae'n cysylltu â rhaglenni eraill, fel Dechrau'n Deg. Yn amlwg, byddai'n fuddiol i raglenni o'r fath barhau i weithio gyda'i gilydd, yn enwedig er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau pan fo cyllidebau 2 bwysau.

### 10.3. Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r canfyddiadau'n cyfeirio at nifer o ystyriaethau pwysig ar gyfer dyfodol y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

#### 10.3.1. Diweddaru polisïau a chanllawiau

Gan fod y tirlun mewn perthynas â chymorth i deuluoedd yn esblygu (yn enwedig ers y pandemig ac yn sgil gwahanol fathau o bwysau cymdeithasol ac economaidd), ceir achos cryf dros ddiweddaru'r canllawiau a'r fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf. Awgrymodd y rhanddeiliaid y gellid diweddaru canllawiau'r rhaglen er mwyn adlewyrchu'r realiti cyfredol yn well – er enghraifft, ymgorffori gwersi a ddysgwyd ynglŷn â

darparu gwasanaethau digidol, a chydnabod y ffocws cynyddol ar iechyd meddwl a niwrowahaniaeth. Ond dywedodd rhai o’r rhanddeiliaid fod y canllawiau wrthi’n cael eu hadolygu.

Hefyd, gofynnodd ambell un o’r rhanddeiliaid a fyddai modd i Lywodraeth Cymru gynnig meini prawf cymhwystra cliriach ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, gan ddiffinio gwahanol lefelau o gymorth – o wasanaethau cyffredinol hyd at ofal a chymorth dwysach sy’n nesáu at ymyriadau statudol. Cynigiwyd y gallai Llywodraeth Cymru gynnig canllawiau ar ddosbarthiad disgwyliedig yr achosion, megis 40% ar lefel 2 (ymyrraeth gynnar), 30% ar lefel 3 (cymorth penodol) a 30% ar lefel 4 (yn nes at wasanaethau statudol) – heb greu targedau llym.

Efallai y dylai Llywodraeth Cymru adolygu’r canlyniadau a’r dulliau mesur perfformiad sy’n gysylltiedig â Teuluoedd yn Gyntaf, gan ystyried y ffaith bod rhai rhanddeiliaid o’r farn fod dangosyddion cenedlaethol yn llai buddiol.

I grynhoi, trwy ddiweddaru polisïau neu ganllawiau swyddogol, gellid ailgadarnhau diben Teuluoedd yn Gyntaf, ynghyd â phennu disgwyliadau o ran cysondeb a grymuso timau lleol gyda mandad newydd, cliriach a chyfredol.

### 10.3.2. Cynaliadwyedd ac effeithiau hirdymor

Trafododd y rhanddeiliaid yr heriau sydd ynghlwm wrth fodelau cyllido byrdymor. Er nad yw’r heriau hyn yn unigryw (maent i’w gweld ledled adrannau a gwasanaethau’r llywodraeth), mae’n bwysig crybwyll y pwynt hwn o gofio bod y rhanddeiliaid o’r farn ei fod yn cyfyngu ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf. Efallai y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y mater hwn, yn enwedig pe bai modd i fodelau tymor hwy leihau rhywfaint ar y pwysau ariannol arall sy’n wynebu awdurdodau lleol mewn perthynas â chyllido Teuluoedd yn Gyntaf. Efallai y byddai cynaliadwyedd o’r fath yn helpu i ddal gafael ar ymarferwyr profiadol.

## 10.4. Sylwadau i gloi

Yn olaf, mae’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi cynnig cymorth hanfodol i deuluoedd yng Nghymru, gan arddangos hyblygrwydd, ymroddiad ac effeithiau cadarnhaol mewn amgylchiadau cyfnewidiol ac eithriadol o anodd. Mae teuluoedd a rhanddeiliaid yn cydnabod rôl hollbwysig y rhaglen o ran darparu ymyrraeth gynnar, gan atal problemau rhag gwaethygu a chan wella canlyniadau i deuluoedd.

# 11. Atodiadau

## 11.1. Demograffeg y teuluoedd

Ar ôl ateb cwestiynau'r arolwg yn ddienw, cafodd yr ymatebwyr gyfle i lenwi arolwg ar wahân lle gofynnwyd am wybodaeth ddemograffig. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i sicrhau  dosbarthiad priodol o grwpiau demograffig ar draws y cyfweliadau ansoddol, a hefyd i wirio meysydd lle cafwyd dim, neu fawr ddim, ymateb.

Ni lenwyd y cwestiynau demograffig gan yr holl ymatebwyr. Er ein bod wedi cael cyfanswm o 131 o ymatebion ar gyfer yr arolwg, 86 o ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ddemograffig. Bu modd i'r ymatebwyr ddewis ateb, neu beidio ag ateb, pob cwestiwn, felly mae niferoedd gwirioneddol yr ymatebion ar gyfer pob cwestiwn yn amrywio.

Yn Nhablau 5 i 8 isod, dangosir gwybodaeth ddemograffig y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio. Yn Nhablau 9 i 12, dangosir gwybodaeth ddemograffig y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau ansoddol.

**Tabl 5: Y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio – A oes gennych chi, neu unrhyw aelodau o'ch aelwyd, unrhyw gyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sy'n para, neu y disgwylir iddo bara, 12 mis neu fwy? (N=85) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Aelwyd â chyflwr/salwch hirdymor | Nifer | % |
|---|---|---|
| Oes | 68 | 80% |
| Nac oes | 12 | 14% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5 | 6% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 5: Tabl yn dangos a yw'r aelwyd yn cynnwys unrhyw un â chyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sy'n para 12 mis neu fwy. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (80%) fod eu haelwyd yn cynnwys rhywun o'r fath, dywedodd 14% nad oedd eu haelwyd yn cynnwys rhywun o'r fath, a dywedodd 6% fod yn well ganddynt beidio â dweud.

**Tabl 6: Y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio – Ethnigrwydd (N=85) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Ethnigrwydd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn | 79 | 93% |
| Grŵp ethnig Cymysg neu Amlethnig | 1 | 1% |
| Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig | 2 | 2% |
| Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 2 | 2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1 | 1% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 6: Tabl yn dangos ethnigrwydd yr ymatebwyr. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn Wyn (93%). Dywedodd niferoedd bach eu bod yn Asiaidd, yn Asiaidd Cymreig neu'n Asiaidd Prydeinig (2%); eu bod yn Ddu, yn Ddu Cymreig, yn Ddu Prydeinig, yn Garibïaidd neu'n Affricanaidd (2%); neu eu bod yn perthyn i grŵp ethnig Cymysg neu Amlethnig (1%). Dywedodd 1% fod yn well ganddynt beidio â dweud.

**Tabl 7: Y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio – Oedran y plentyn/plant (caniatawyd amryfal ymatebion) (N=85) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Oedran y plentyn/plant | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dan 3 oed (cyn oed ysgol) | 6 | 7% |
| 3-4 oed (cyn oed ysgol / oed ysgol gynradd gynnar) | 20 | 24% |
| 5-11 oed (oed ysgol gynradd) | 48 | 57% |
| 11-16 oed (oed ysgol uwchradd) | 44 | 52% |
| 17-18 oed | 10 | 12% |
| 18-25 oed | 10 | 12% |
| 25+ oed | 1 | 1% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 7: Tabl yn dangos oedran plant yr ymatebwyr a lenwodd y ffurflen sgrinio. Y grwpiau mwyaf oedd 5 i 11 oed (57%) ac 11 i 16 oed (52%).

**Tabl 8: Y rhai a lenwodd y ffurflen sgrinio – Rhanbarth (N=85) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Rhanbarth | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 23 | 27% |
| Canolbarth Cymru | 2 | 2% |
| De Orllewin Cymru | 16 | 19% |
| De Ddwyrain Cymru | 44 | 52% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 8: Tabl yn dangos ym mha ranbarthau roedd yr ymatebwyr yn byw. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn byw yn Ne Ddwyrain Cymru (52%), ac yna yng Ngogledd Cymru (27%) a De Orllewin Cymru (19%). Dim ond 2% a oedd yn byw yng Nghanolbarth Cymru.

**Tabl 9: Y cyfweliadau ansoddol – A oes gennych chi, neu unrhyw aelodau o'ch aelwyd, unrhyw gyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sy'n para, neu y disgwylir iddo bara, 12 mis neu fwy? (N=20) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Aelwyd â chyflwr/salwch hirdymor | Nifer | % |
|---|---|---|
| Oes | 13 | 65% |
| Nac oes | 6 | 30% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1 | 5% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 9: Tabl yn dangos a oedd aelwydydd y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau ansoddol yn cynnwys unrhyw un â chyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor. Dywedodd oddeutu dwy ran o dair (65%) o'r cyfranogwyr fod eu haelwyd yn cynnwys rhywun o'r fath, dywedodd 30% nad oedd eu haelwyd yn cynnwys rhywun o'r fath, a dywedodd 5% fod yn well ganddynt beidio â dweud.

**Tabl 10: Y cyfweliadau ansoddol – Oedran y plentyn/plant (caniatawyd amryfal ymatebion) (N=20) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Oedran y plentyn/plant | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dan 3 oed (cyn oed ysgol) | 1 | 5% |
| 3-4 oed (cyn oed ysgol / oed ysgol gynradd gynnar) | 7 | 35% |
| 5-11 oed (oed ysgol gynradd) | 13 | 65% |
| 11-16 oed (oed ysgol uwchradd) | 10 | 50% |
| 17-18 oed | 1 | 5% |
| 18-25 oed | 1 | 5% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 10: Tabl yn dangos oedran plant y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau ansoddol. Y grwpiau mwyaf oedd 5 i 11 oed (65%) ac 11-16 oed (50%).

**Tabl 11: Y cyfweliadau ansoddol – Ethnigrwydd (N=20) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Ethnigrwydd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn | 16 | 80% |
| Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig | 1 | 5% |
| Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 2 | 10% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1 | 5% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 11: Tabl yn dangos ethnigrwydd y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau ansoddol. Dywedodd y mwyafrif o’r cyfranogwyr eu bod yn Wyn (80%). Dywedodd niferoedd llai eu bod yn Ddu, yn Ddu Cymreig, yn Ddu Prydeinig, yn Garibïaidd neu’n Affricanaidd (10%); neu eu bod yn Asiaidd, yn Asiaidd Cymreig neu’n Asiaidd Prydeinig (5%). Dywedodd 5% fod yn well ganddynt beidio â dweud.

**Tabl 12: Y cyfweliadau ansoddol – Rhanbarth (N=20) Tachwedd 2024 i Chwefror 2025**

| Rhanbarth | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 6 | 30% |
| Canolbarth Cymru | 0 | 0% |
| De Orllewin Cymru | 6 | 30% |
| De Ddwyrain Cymru | 8 | 40% |

Ffynhonnell: arolwg ar-lein gyda theuluoedd, ymchwil ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Disgrifiad o Dabl 12: Tabl yn dangos ym mha ranbarthau roedd cyfranogwyr y cyfweliadau ansoddol yn byw. Roedd y mwyafrif yn byw yn Ne Ddwyrain Cymru (40%), roedd 30% yn byw yng Ngogledd Cymru ac roedd 30% yn byw yn Ne Orllewin Cymru. Nid oedd yr un ohonynt yn byw yng Nghanolbarth Cymru.